



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

DOGFEN HUNAN-WERTHUSO

Cyflwyniad gan Brifysgol Bangor i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd

Chwefror 2012

CYNNWYS

Tudalen

1.	CEFNDIR, HANES A STRWYTHUR	7
1.1	Hanes	8
1.2	Y Brifysgol Heddiw	8
1.3	Strwythur Academaidd	9
1.4	Cenhadaeth a Chynllun Strategol	10
1.5	Yr Iaith Gymraeg	10
1.6	Materion Diwylliannol	11
1.7	Sefyllfa Gyllidol	11
1.8	Ystad y Brifysgol	11
1.9	Rheolaeth a Threfn Lywodraethu	12
1.10	Y Cyd-destun Gwleidyddol Cymreig	13
1.11	Yr Ymateb i Ailgyflunio	14
2.	GOSOD Y SAFON: Y FFRAMWAITH AR GYFER ANSAWDD A SAFONAU ACADEMAIDD	15
2.1	Rheoli'r Broses Sicrhau Ansawdd	16
2.2	Adolygiad Sefydliadol	17
2.3	Swyddogaeth Colegau ac Ysgolion	17
2.4	Egwyddorion Sicrhau Ansawdd	17
2.5	Camau a gymerwyd mewn ymateb i Archwiliad Sefydliadol 2006	18
2.6	Newid mewn dulliau Addysgu a Dysgu	19
2.7	Gwella Ansawdd	20
2.8	Addysgu a Dysgu ac Ehangu Mynediad – Strategaeth ar y cyd ag Aberystwyth	21
2.9	Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg	23
2.10	Y berthynas rhwng addysgu ac ymchwil	23
2.11	Cysylltiadau â chyflogwyr	24
2.12	Niferoedd Myfyrwyr a Derbyn Myfyrwyr	26
2.13	Aseu Myfyrwyr	29
2.14	Disgyblaeth Myfyrwyr ac Ymarfer Annheg	31
2.15	Cyfleusterau Addysgu	32
2.16	Dysgu Cymdeithasol	32
2.17	Strategaeth Addysg Ryngwladol	33
2.18	Rheoliadau'r Brifysgol	33
2.19	Seilwaith Academaidd	34
3.	SICRHAU ANSAWDD A SAFONAU: Y DREFN SA AR GYFER ISRADEDDIGION AC ÔL-RADEDDIGION HYFFORDDedig	35
3.1	Cymeradwyo Rhaglenni	36
3.2	Cymeradwyo Modiwlau	37
3.3	Adolygiad Blynyddol o raglenni a modiwlau hyfforddedig	37
3.4	Archwiliadau Ansawdd Mewnol	38
3.5	Ailddilysu Rhaglenni	40
3.6	Darpariaeth cyfrwng Cymraeg	41
3.7	Achrediad gan asiantaethau allanol	41
3.8	Arholwyr Allanol	42
3.9	Astudio'n rhan-amser	43

3.10	Dysgu Hyblyg a Gwasgaredig	44
3.11	Gwybodaeth Reoli	45
3.12	Rhaglenni Addysg Broffesiynol	46
3.13	Darpariaeth Gydweithredol	47
3.14	Cwricwla cyffredin	52
3.15	Erasmus a Chynlluniau Cyfnewid Rhyngwladol	54
3.16	Cyfraniadau allanol at raglenni	54
3.17	Rhaglenni Ôl-radd Hyfforddedig	54
4.	ASTUDIAETHAU YMCHWIL ÔL-RADD	57
4.1	Rhagarweiniad	58
4.2	Fframwaith Sefydliadol	58
4.3	Ysgolion Graddedigion	59
4.4	Amgylchedd Ymchwil	60
4.5	Cyflogadwyedd – KESS	61
4.6	Derbyn a Chynefino	61
4.7	Goruchwyllo myfyrwyr Ôl-raddedig	62
4.8	Monitro ac Adolygu	63
4.9	Datblygu sgiliau Ymchwil a sgiliau eraill	63
4.10	Dulliau o roi adborth	64
4.11	Y Fforwm Myfyrwyr Ôl-raddedig	64
4.12	Asesu	64
4.13	Cynrychiolaeth gan Fyfyrwyr	65
4.14	Cwynion ac Apeliadau	65
5.	PROFIAD MYFYRWYR A'R AMGYLCHEDD DYSGU	67
5.1	Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr	68
5.2	Cynllun Ffioedd	69
5.3	Cyfranogiad Myfyrwyr	69
5.4	Adborth gan fyfyrwyr	71
5.5	Cefnogi Myfyrwyr	72
5.6	Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau	80
5.7	Cyfleusterau a Gwasanaethau TG	82
5.8	Dysgu â Chymorth Technoleg	83
5.9	Cwynion ac Apeliadau	85
6.	STAFF ACADEMAIDD: ANSAWDD, EFFEITHIOLRWYDD A DATBLYGU	87
6.1	Y Brifysgol fel Partneriaeth	88
6.2	Recriwtio a Dal Gafael ar Staff Academaidd	88
6.3	Cyfnod Prawf	89
6.4	Cynefino	89
6.5	Penodiadau a'r Cynllun Iaith	89
6.6	Tâl a Graddfeydd Cyflog	90
6.7	Symud Ymlaen a Dyrchafiadau	90
6.8	Cydnabod Rhagoriaeth	91
6.9	Adolygu Datblygiad Perfformiad	92
6.10	Hyfforddi a Mentora	92
6.11	Datblygu mewn perthynas â'r Gymraeg	93
6.12	Datblygu Staff	93

6.13	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	97
6.14	Cefnogi Staff	97
6.15	Lles Staff	97
6.16	Datblygiad Sefydliadol	98
7.	DIWEDDGLO	99

TALFYRIADAU

Mewnol:

UDA	:	Uned Datblygu Academaidd
ELCOS	:	Cyrsiau Iaith Saesneg i Fyfirwyr Tramor
IEC	:	Canolfan Addysg Ryngwladol
IQA	:	Archwiliad Ansawdd Mewnol
PRES	:	Arolwg Profiad Ymchwil Ôl-raddedigion
PTES	:	Arolwg Profiad Ôl-Radd Hyfforddedig
PGr	:	Ymchwil Ôl-radd
PGt	:	Hyfforddedig Ôl-radd
D-IG	:	Dirprwy Is-Ganghellor
QAVTG	:	Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu
UM	:	Undeb y Myfirwyr
A a D	:	Addysgu a Dysgu
TOP	:	Rhaglen Dawn a Chyfle.

Allanol:

AGCAS	:	Cymdeithas y Gwasanaethau Ymgynghori ynghylch Gyrfaeodd i Raddedigion
BUCS	:	Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain
DSA	:	Lwfans Myfirwyr Anabl
ESF	:	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
AB	:	Addysg Bellach
AAU	:	Academi Addysg Uwch
HEFCW	:	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
KESS	:	Ysgoloriaethau Sgiliau ar gyfer yr Economi Wybodaeth
ACM	:	Arolwg Cenedlaethol Myfirwyr
PSRB	:	Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio
UKBA	:	Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig

ADRAN 1

CEFNDIR, HANES A STRWYTHUR

1.1 HANES

Mae'r Brifysgol yn ymfalchïo yn ei hanes ac, yn 2009, dathlodd ganmlwyddiant a chwarter ers ei sefydlu. Agorodd fel 'Coleg Prifysgol Gogledd Cymru', ym mis Hydref 1884, yn un o hen westyau'r goets fawr – y Penrhyn Arms – gyda 58 o fyfyrwyr a 12 o staff. Codwyd arian trwy apêl gyhoeddus i sefydlu coleg o statws prifysgol ym Mangor, ac agwedd bwysig ar sefydlu'r coleg oedd y cyfraniadau gwirfoddol a wnaed gan bobl leol o'u cyflogau wythnosol. Ym 1893, daeth CPGC yn un o golegau sefydlol Prifysgol ffederal Cymru, ac o'r dyddiad hwnnw, dechreuodd gynnig graddau Prifysgol Cymru. Yn 2007, dyfarnodd y Cyfrin Gyngor bwerau dyfarnu graddau trwy ddysgu a graddau ymchwil i'r Brifysgol, ynghyd â 'theitl prifysgol' [sef 'Prifysgol Bangor']. Penderfynodd Cyngor y Brifysgol ddechrau dyfarni graddau Prifysgol Bangor o fis Hydref 2009 ymlaen.

Tyfu'n gyson wnaeth nifer y staff a'r myfyrwyr, gyda thwf sylweddol yn y 1950au a'r 1960au, pan codwyd nifer o adeiladau newydd, ac y cyflwynwyd meysydd astudio newydd – gan gynnwys eigioneg, seicoleg, ieithyddiaeth a chymdeithaseg. Yn ystod y 1980au, arweiniodd cyfyngiadau cyllido at resymoli pellgyrhaeddol ar y pynciau a gynigid ym Mangor, a chaewyd nifer o adrannau (megis Ffiseg, Athroniaeth a'r Clasuron). Fodd bynnag, cafwyd mwy o ehangu, ynghyd â rhai uniadau: Coleg y Santes Fair (1976) a'r Coleg Normal (1996) – y ddau, yn eu hanfod, yn golegau hyfforddi athrawon, er bod y Coleg Normal wedi dechrau cynnig cyrsiau mwy amrywiol dros y blynyddoedd. Ar ben hynny, ymunodd y colegau nyrsio a bydwreigiaeth a radiograffeg, a fu gynt yn annibynnol, hefyd â'r Brifysgol tua dechrau'r 1990au.

I sefydliad sy'n fwy na 125 mlwydd oed, ychydig iawn o Is-Gangellorion a gafodd Bangor (y teitl 'Prifathro' a ddefnyddiwyd tan 1995). Dim ond y seithfed pennaeth ar y sefydliad yw'r Athro John Hughes, a olynodd yr Athro Merfyn Jones yn ei swydd ym mis Hydref 2010. Gynt, roedd yr Athro John Hughes yn Llywydd ar Brifysgol Genedlaethol Iwerddon, Má Nuad (Maynooth).

1.2 Y BRIFYSGOL HEDDIW

Yn 2010/2011, roedd gan y Brifysgol ryw 9,200 o fyfyrwyr llawn-amser, a 1,980 o fyfyrwyr rhan-amser ar ben hynny. [Poblogaeth yn ôl cofrestrriad safonol HESA]. Daw rhyw 43% o'r myfyrwyr o Gymru, 13½% o dramor a daw'r lleill o weddill y DG ac o Ewrop.

Niferoedd Myfyrwyr 2010/11		
<i>Llawn-amser</i>	Cartref/UE	Tramor
Israddedig (+ eraill)	6780	617
Ôl-raddedig (hyfforddedig)	680	608
Ôl-raddedig (ymchwil)	330	185
<i>Rhan-amser</i>		
Israddedig (+ eraill)	1002*	12
Ôl-raddedig (hyfforddedig)	776	67
Ôl-raddedig (ymchwil)	97	26
Cyfansymiau	9665	1515

*Yn cynnwys 475 o fyfyrwyr dysgu gydol oes a 326 mewn hyfforddiant ôl-gymhwysio mewn Gwyddorau Gofal Iechyd.

Mae'r Brifysgol yn cyflogi rhyw 2,233 o staff (llawn-amser a rhan-amser):

Academaidd ac Ymchwil	919
Proffesiynol	315
Clercyddol	535
Technegol	96
Gweithiwr llaw	368
CYFANSWM	2233

1.3 STRWYTHUR ACADEMAIDD

Ar hyn o bryd, mae gan y Brifysgol 23 o Ysgolion academaidd, wedi'u rhannu'n chwe Choleg at ddibenion gweinyddol ac o ran adnoddau.

Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau

Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau
Ysgol y Saesneg
Yr Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg
Ysgol Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg
Ysgol Ieithoedd Modern
Ysgol Cerddoriaeth
Ysgol Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol
Ysgol y Gymraeg

Coleg Busnes, Gwyddorau Cymdeithas a'r Gyfraith

Ysgol Busnes Bangor
Ysgol y Gyfraith
Ysgol Gwyddorau Cymdeithas

Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes

Ysgol Addysg
Ysgol Dysgu Gydol Oes

Coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad

Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd
Ysgol Gwyddorau Meddygol
Ysgol Seicoleg
Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

Coleg Gwyddorau Naturiol

Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth
Ysgol Gwyddorau Biolegol
Ysgol Gwyddorau Eigion

Coleg Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol

Ysgol Cemeg
Ysgol Peirianeg Electronig
Ysgol Cyfrifiadureg

Ceir hefyd nifer o ganolfannau ymchwil o fewn Colegau, ynghyd â nifer fach o sefydliadau ymchwil rhyng-ddisgyblaethol y tu allan i'r strwythur adrannol.

Cyflwynwyd y strwythur Colegol yn 2005, yn ei hanfod fel dull o foderneiddio ac egluro strwythur y Brifysgol o ran rheolaeth academaidd. Mae rhai Colegau wedi

datblygu'n gynt na'i gilydd, a bu rhywfaint o fireinio ar y strwythur (e.e. daeth Penaethiaid y Colegau'n aelodau o'r Pwyllgor Gweithredu yn 2010). Yn fras, mae'r Brifysgol yn fodlon ynglŷn â'r strwythur, ond bydd bob amser yn ceisio gwella.

Mae'r Brifysgol yn cynnig dros 450 o rhaglenni gradd gyntaf (anrhydedd sengl a chyd-anrhydedd), a mwy na 120 o raglenni ôl-radd hyfforddedig, a rhaglenni ymchwil.

1.4 CENHADAETH A CHYNLLUN STRATEGOL

Yn ystod 2010/11, yn sgil dyfodiad yr Athro John Hughes fel Is-Ganghellor, bu'r Brifysgol yn adolygu a diwygio ei Chynllun Strategol. Yn ôl ei chenhadaeth:

"Bydd Prifysgol Bangor yn Brifysgol flaenllaw sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil gydag enw da'n rhyngwladol am ei haddysgu a'i hymchwil, sy'n meithrin datblygiad deallusol a phersonol ei myfyrwyr a'i staff, darparu amgylchedd amlddiwylliannol cefnogol, hyrwyddo ehangu mynediad a chynhwysedd, a chefnogi ffyniant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru a'r gymuned ehangach y mae'n ei gwasanaethu. Caiff Prifysgol Bangor ei chydabod yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth ar sail ei phortffolio amrywiol o raglenni academaidd ac am ansawdd uchel y profiad y mae'n ei roi i'w myfyrwyr a'i staff."

Mae Cynllun Strategol 2011-15¹, y cytunwyd arno yn awr ôl ymgynghori â staff a myfyrwyr trwy'r Cyngor a'r Senedd, yn nodi prif nod ac amcanion y Brifysgol ar sail nifer o themâu blaenoriaeth, a grynhoir fel a ganlyn:

- Mynediad at addysgu a dysgu rhagorol
- Rhoi profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr
- Cryfhau ansawdd a maint ymchwil a menter
- Chwarae rhan flaenllaw yn yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, yn lleol ac yn genedlaethol
- Sefydlu ein hunain fel Prifysgol fyd-eang, gydag enw da am gynladwyedd
- Partneriaeth â sefydliadau yng Nghymru i gyflwyno "Er Mwyn ein Dyfodol".

Mae'n werth nodi, yn benodol, yr agweddau isod ar y strategaeth:-

- Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo'n gryf i wella'r profiad a gaiff myfyrwyr ym Mangor, ac wedi cymeradwyo Strategaeth er Gwella Profiad Myfyrwyr.
- Mae Strategaeth Addysg Ryngwladol wedi'i llunio, i bwysleisio dimensiwn rhyngwladol cenhadaeth y Brifysgol, ac i gynorthwyo i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid, gwyddonwyr, arweinwyr rhyngwladol etc, ac i baratoi ein myfyrwyr ar gyfer y farchnad ryngwladol. Mae'r strategaeth yn cynnwys rhai camau sydd i'w gweithredu yn awr (e.e. agor swyddfa yn Beijing) a hefyd rai nodau mwy hir-dymor (megis datblygu partneriaethau rhyngwladol). Trwy ad-drefnu, mae'r Brifysgol wedi creu Canolfan Addysg Ryngwladol, dan arweiniad Cyfarwyddwr newydd dros Ddatblygu Rhyngwladol.
- Ar sail ei chryfderau yn y Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad, mae'r Brifysgol wrthi'n cydweithio â Phrifysgol Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, er mwyn datblygu Addysg Meddygaeth yng Ngogledd Cymru. Mae gan y Brifysgol broject Ymchwil ac Addysg Strategol (SHARE) gyda Phrifysgol Caerdydd, ac mae rhaglen gradd B.Med.Sci yn bwnc trafod ar hyn o bryd.

1.5 YR IAITH GYMRAEG

Mae Prifysgol Bangor yn sefydliad dwyieithog, ac mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal fel ieithoedd swyddogol y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn cydymffurfio'n

llwyr â Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993, ac mae ganddi Gynllun Iaith yn diffinio ei pholisïau ar yr Iaith Gymraeg.

Mae *Canolfan Bedwyr*, adran ganolog a ffurfiwyd ym 1996 i hybu a chefnogi darpariaeth y sefydliad o addysgu cyfrwng-Cymraeg, i hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn gweinyddiad y sefydliad ac, yn gyffredinol, i weithredu fel catalydd i ddatblygu Prifysgol Bangor yn ganolfan ragoriaeth o ran addysg gyfrwng-Cymraeg a gwasanaethau yn y Gymraeg, o bwys canolog o ran gweithredu strategaeth y Brifysgol. A hithau'n wreiddiol â'r cyfrifoldeb dros hyfforddiant iaith ar gyfer staff a myfyrwyr, mae'r Ganolfan wedi ehangu'n raddol, fel bod ei chylch gorchwyl bellach hefyd yn cynnwys datblygu a gweithredu polisïau, gwasanaethau cyfieithu, terminoleg Gymraeg, technolegau iaith Gymraeg a lleferydd, a Chymraeg Clir (yr hyn sy'n cyfateb i 'Plain English').

Dros y blynyddoedd, mae Canolfan Bedwyr wedi ennill canmoliaeth, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, nid yn unig am ei gwaith arloesol o ran datblygu a hyrwyddo defnydd Prifysgol Bangor ar y Gymraeg, ond hefyd am ei gwaith wrth hwyluso defnydd ar y Gymraeg yn y byd ehangach. Mae nifer o brojectau cyfredol y Ganolfan yn adlewyrchu'r genhadaeth ddeublyg hon. Ar gyfer anghenion mewnol y Brifysgol, mae system llif gwaith a chof cyfieithu newydd wedi'i datblygu ar gyfer yr Uned Gyfieithu, yn ogystal â gwefan 'Cymorth Cymraeg' sy'n anelu at hwyluso defnydd y Gymraeg ymysg staff a myfyrwyr. Yn allanol, mae'r Ganolfan, yn ddiweddar, wedi sicrhau contractau o bwys gan Adran Llywodraeth Cymru dros Addysg a Medrau, er mwyn arwain y cynllun cenedlaethol ar gyfer datblygu medrau athrawon a darlithwyr yn y Gymraeg, a hefyd i ddatblygu terminoleg seiliedig ar bynciau ar gyfer y sectorau uwchradd ac AB.

Mae'r Brifysgol yn chwarae rhan weithgar iawn yn y *Coleg Cymraeg Cenedlaethol* a sefydlwyd yn ddiweddar – cwmni a grëwyd gan y sector AU yng Nghymru, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru, er mwyn cynyddu ac ehangu addysg uwch gyfrwng-Cymraeg. Mae Prifysgol Bangor yn hynod o falch iddi dderbyn cyllid yn 2011 ar gyfer 9 swydd academaidd newydd o'r dyraniad cyntaf o gyllid a gyflwynwyd gan y Coleg Cymraeg. Yng Nghanolfan Bedwyr hefyd y mae cangen weinyddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol newydd ym Mhrifysgol Bangor.

1.6 MATERION DIWYLLIANNOL

Mae'r Brifysgol hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i fywyd diwylliannol a chymdeithasol yr ardal. Mae ganddi gasgliad pwysig o weithiau celfyddydol (a chyfanswm eu gwerth yn fwy na £2M), casgliadau amgueddfaol o bwys (e.e. byd natur, daeareg, offerynnau cerddoriaeth), cyfres o gyngherddau, a rhaglen o Ddarlithoedd Cyhoeddus. Mae ganddi hefyd ei cherddorfa siambr breswyl fach – Ensemble Cymru – ar gampws y Brifysgol, ac mae project Pontio, i ddatblygu Canolfan Celfyddydau ac Arloesi, eisoes â rhaglen gelfyddydol ffyniannus – 'Cerrig y Rhyd' – a hynny cyn i'r adeilad newydd gael ei godi.

1.7 Y SEFYLLFA GYLLIDOL

Mae'r Brifysgol o'r farn fod ganddi sylfaen gyllidol gadarn er mwyn wynebu sialensiau yn y dyfodol. Mae ganddi drosiant blynyddol o ryw £120M, ac wedi cofnodi gwargedau gweithredol ers 4 blynedd, e.e. £1.3M yn 2010/11, £4.2M yn 2009/10, £1.7M yn 2008/9 a £4.2M yn 2007/8. Tua £20M oedd yr incwm a gafwyd o grantiau a chontractau yn 2010/11, wrth ochr £16M y flwyddyn gynt.

1.8 YSTAD Y BRIFYSGOL

Mae gan y Brifysgol ystâd wasgaredig. Mae ganddi ryw 150 o adeiladau ar 20 o safleoedd ar wahân, yn bennaf ym Mangor, ond hefyd ym Môn, yn Wrecsam, a gorsafoedd ymchwil a maes mewn lleoedd eraill. Mae cyfran uwch o'i hadeiladau (30%) wedi eu codi cyn 1940, ac nid fel adeiladau Prifysgol y bwriadwyd llawer ohonynt yn wreiddiol. Gan ddyddio o 1911, mae Prif Adeilad y Brifysgol yn adeilad rhestredig gradd 1, ac mae gan y Brifysgol 13 o adeiladau rhestredig eraill hefyd.

Oherwydd ei hoed a'i nodweddion, mae'r ystâd yn sialens o ran gwaith cynnal a'i hymddangosiad, ac mae Strategaeth bresennol y Brifysgol ar yr Ystadau (2006) yn rhagweld ail-ddatblygu ar raddfa fawr ar yr ystâd yn y tymor hir. Mae projectau adeiladu diweddar o bwys yn cynnwys adeilad newydd Canolfan Amgylcheddol Cymru (a agorwyd gan y Prif Weinidog ar y pryd, Gordon Brown, yn 2008), a'r gwaith adnewyddu ar adeiladu'r hen Goleg Normal er mwyn creu 'Canolfan Rheolaeth' newydd. Ar hyn o bryd, mae gwaith ar droed ar broject Pontio – datblygiad gwerth £40M sy'n anelu at sefydlu canolfan benigamp ar gyfer arloesi mewn gwyddoniaeth, technoleg ac yn y diwydiannau creadigol. Bydd project Pontio yn darparu theatr, sinema, darlithfeydd, adeilad newydd ar gyfer Undeb y Myfyrwyr, cyfleusterau dylunio arloesol a manau dysgu cymdeithasol. Mae'r Ganolfan i'w hagor yn 2013.

Yn unol â gofynion HEFCW, ac i ateb anghenion y Brifysgol ei hun, bydd y Brifysgol yn adolygu a diwygio ei Strategaeth Ystadau yn ystod 2011/12, gan roi llawer o ystyriaeth i'r profiad a gaiff myfyrwyr.

1.9 RHEOLAETH A THREFN LYWODRAETHU

O dan Siarter ac Ystatudau'r Brifysgol, y **Cyngor** yw corff llywodraethu'r Brifysgol. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor 26 o aelodau (yn cynnwys 2 fyfyrwr), a mwyafrif yr aelodau'n llyegwyr. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â threfn lywodraethu AU, mae ei brif gyfrifoldebau'n cynnwys pennu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad. Mae'r Cyngor yn cael cymorth gan nifer o is-bwyllgorau, megis Adnoddau, Archwilio a Risg, Strategaeth, Iechyd a Diogelwch.

Yn dilyn arolwg a gynhaliwyd yn 2004 ar y drefn o wneud penderfyniadau, sefydlodd y Brifysgol **Bwyllgor Gweithredu²** (dan gadeiryddiaeth yr Is-Ganghellor) sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth sefydliadol. Cynorthwyr y Pwyllgor Gweithredu gan 24 o Grwpiau Tasg sy'n adrodd wrtho ar themâu allweddol o ran rheolaeth neu strategaeth, ac mae'n cyfarfod bob pythefnos. Mae'r Pwyllgor Gweithredu yn adrodd wrth y Cyngor ym mhob cyfarfod. Yn ogystal â'r Is-Ganghellor, mae'r Pwyllgor Gweithredu'n cynnwys y Dirprwy Is-Ganghellorion, Penaethiaid y Colegau, yn ogystal ag uwch swyddogion, megis y Cofrestrydd, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Cynllunio ac eraill. Mae'n werth nodi i ddwy swydd Dirprwy Is-Ganghellor newydd gael eu cyflwyno yn 2011, sef swydd Dirprwy Is-Ganghellor (Iaith Gymraeg ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd) a Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr).

Yn ystod haf 2011, cynhaliwyd arolwg byr³ ar strwythur y **Grwpiau Tasg**. Ei gasgliad, yn fras, a gefnogwyd gan y Pwyllgor Gweithredu, oedd y dylai'r Grwpiau Tasg barhau, ac y dylid ail-gyhoeddi'r canllawiau ar weithredu ac ail-ddiffinio aelodaeth rhai grwpiau.

Mae bron pob Grŵp Tasg wedi'i gadeirio gan aelod o'r Pwyllgor Gweithredu, ac er bod y Grwpiau Tasg yn adrodd i'r Pwyllgor Gweithredu, mae gan y Cadeirydd hawl i wneud penderfyniadau rheoli, yn amodol ar yr ymgynghori ac atebolrwydd priodol. Yn y math hwn o reolaeth ddatganoledig, mae disgwyl i Gadeiryddion y Grwpiau Tasg roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Gweithredu ar ddatblygiadau a phenderfyniadau, ond nid oes rheidrwydd arnynt i gyflwyno Cofnodion llawn cyfarfod pob Grŵp Tasg.

Y **Senedd**, yn unol ag Ordians XII, yw awdurdod academiaidd y Brifysgol a'r 'corff llywodraethol ar faterion sydd angen barn academiaidd'. Gyda 85 o aelodau, mae'r Senedd yn cynrychioli'r gymuned academiaidd yn ei hehangder, a gall hefyd gymryd rhan mewn trafodaeth ar wahanol faterion strategol a fo'n effeithio ar y byd academiaidd. Mae gan y Senedd hefyd nifer o is-bwyllgorau – Byrddau Arholi, Gwobrau a Grantiau, Pwyllgor Ôl-Radd, a Rheoliadau ac Achosion Arbennig – sy'n canolbwyntio ar faterion cwbl academiaidd (megis cynnydd a llwyddiant myfyrwyr, fframwaith rhaglenni gradd a'r flwyddyn academiaidd etc.).

Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol dri fforwm ymgynghorol, sef y Fforwm Staff, y Fforwm Myfyrwyr, a Fforwm Undebau'r Campws, yn ogystal â rhai grwpiau *ad hoc*. Mae rhestr lawn o grwpiau ar gael.

Mae'r Brifysgol yn rhoi pwysigrwydd mawr ar gynrychiolaeth myfyrwyr ar draws pob lefel o'r strwythur penderfynu yn y Brifysgol, o lefel Ysgolion hyd at y Cyngor. Yn 2008, am y tro cyntaf, cynhwysodd y Brifysgol fyfyrwr ar y panel ar Archwiliadau Ansawdd Mewnol, yn ogystal â sicrhau bod myfyrwyr â chynrychiolaeth ar Grwpiau Tasg.

1.10 Y CYD-DESTUN GWLEIDYDDOL CYMREIG

Bron ers cychwyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, mae Llywodraeth Cymru wedi ymwneud â ffurf a maint y sector AU yng Nghymru. Er 2002, pryd y lluniwyd strategaeth *Ymgeisio'n Uwch*, rhoddir mwyfwy o bwyslais ar ailgyflunio a chydweithredu rhwng sefydliadau AU yng Nghymru. Er 2003/4, mae HEFCW wedi sefydlu Cronfa Ailgyflunio a Chydweithredu er mwyn cynnal mentrau ar y cyd. Mewn strategaeth arall gan Lywodraeth Cymru ar AU, sef *Er Mwyn Ein Dyfodol*, a gyhoeddwyd yn 2009, pwysleiswyd yr angen am ailfodelu addysg uwch yng Nghymru a chreu isadeiledd a fydd yn ymateb yn well i amcanion deublyg y Llywodraeth, sef cynnal economi hyfyw a gwella cyfiawnder cymdeithasol. Roedd *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn argymhell mwy o gydweithrediad, ynghyd â mwy o ddimensiwn rhanbarthol wrth gynllunio a darparu AU. Mae'r Gweinidog Addysg wedi mynegi'n glir ei ddymuniad i weld llai o sefydliadau AU yng Nghymru.

Gan ymateb i'r strategaeth, cyhoeddodd HEFCW ddatganiad yn Rhagfyr 2010, yn cymeradwyo strwythur o 6 sefydliad AU ar y mwyaf yng Nghymru (y pryd hynny, 11 oedd yno, yn cynnwys Prifysgol Cymru). Ym Mehefin 2011, mewn cyngor i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, argymhellodd HEFCW y dylid ail-strwythuro'r sector AU yng Nghymru trwy uno sefydliadau. O ran Bangor, awgrymwyd cynllun i'w huno ag Aberystwyth, yn ogystal â strwythur grŵp, lle âi Prifysgol Glyndŵr dan arweiniad Aberystwyth a Bangor.

Ar 28 Tachwedd 2011, cyhoeddodd y Gweinidog, yn dilyn yr ymgynghoriad, ei fod yn dymuno gweld Partneriaeth Aberystwyth-Bangor yn cryfhau, ond nad oedd am iddynt uno ar hyn o bryd. Gwrthododd gyngor HEFCW yng nghyswllt Prifysgol Glyndŵr, ond cynigiodd arolwg ar addysg uwch yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi datblygu partneriaeth strategol â Choleg Llandrillo, Coleg AB blaenllaw â darpariaeth resymol a sylweddol o AU. Llofnodwyd Cytundeb Strategol yng Ngorffennaf 2011, yng ngŵydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews AM ac, o ganlyniad, mae nifer o raglenni presennol a newydd yn Llandrillo

* Mae'r Ordinhad yn gwahaniaethu rhwng penderfyniadau sy'n adlewyrchu rheolaeth y sefydliad o ddydd i ddydd, a phenderfyniadau sy'n gofyn am farn academiaidd. Nid yw'n atal y posibilrwydd i'r Pwyllgor Gweithredol neu'r Senedd gyflwyno materion i'w cymeradwyo (e.e. y Strategaeth ar gyfer Gwella Profiad Myfyrwyr yn 2011).

wedi'u dilysu gan Brifysgol Bangor (gynt, Prifysgol Cymru oedd y corff dilysu) a 'Chanolfan Brifysgol' wedi'i brandio yng Ngholeg Llandrillo.

1.11 YR YMATEB I AILGYFLUNIO

Mae Prifysgol Bangor wedi ymateb yn adeiladol ac yn gadarnhaol i'r agenda ar gyfer ailstrwythuro addysg uwch. Mae wedi ymrwymo – fel y mae Aberystwyth – y gryfhau 'Partneriaeth Aber-Bangor'.

1.11.1 Partneriaeth Aberystwyth-Bangor

Yn 2006, dyfarnodd HEFCW £11M i Brifysgolion Aberystwyth a Bangor tuag at Bartneriaeth Ymchwil a Menter. Mae hyn wedi arwain at greu pedair canolfan ymchwil ar y cyd, cydweithrediad agos mewn gwaith mentro ac arloesi, a Swyddfa Bartneriaeth fach sy'n cynnal y cyd-weithgaredd. Daw'r cyllid ar gyfer y project i ben yn Ionawr 2012, ond mae'r ddau sefydliad wedi ymrwymo i gynnal y cyd-ganolfannau, ac i gadw Swyddfa'r Bartneriaeth er mwyn cynnal cysylltiad agosach y gynghrair.

Yn Rhagfyr 2011, arwyddodd Is-Gangellorion Bangor ac Aberystwyth Gynghrair Strategol newydd, sy'n anelu at archwilio'r posibiladau ar gyfer mwy o gydweithredu mewn addysgu a dysgu, ymchwil a menter, a gwasanaethau ar y cyd.

Mewn gwirionedd, mae cydweithrediad ar raddfa ehangach eisoes ar droed. Llwyddodd y ddau sefydliad i greu 'Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru' o 2010, i ddarparu arweiniad strategol er mwyn darparu Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru, ac i reoli a darparu portffolio o raglenni Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon. Mae 'Canolfan Sgiliau Aber-Bangor' – sydd hefyd wedi cael cyllid gan HEFCW – wedi'i sefydlu er mwyn cynnal datblygiad sgiliau yng nghymuned diwydiannol a busnes y rhanbarth. Yn arwyddocaol, bu'r ddau sefydliad yn archwilio'r posibilrwydd o ddarparu 'gwasanaethau ar y cyd' ac maent wedi creu, hyd yma, 4 tîm cyd-reoli ym meysydd gweithredoedd AD, Datblygu Staff, Cyflogadwyedd Myfyrwyr a gwasanaethau Cymraeg. Mae sawl cyd-fenter posibl arall yn cael ei harchwilio. Ar ben hynny, datblygwyd Strategaeth newydd ar y cyd ar Addysgu a Dysgu ac Ehangu Mynediad.

1.11.2 Rhanbarth y Gogledd a'r Canolbarth

Yn dilyn cyhoeddiad *Er Mwyn Ein Dyfodol*, pennodd HEFCW 3 rhanbarth yng Nghymru, a gofyn am greu cynlluniau rhanbarthol a fyddai'n canolbwyntio ar hygyrchedd daearyddol, llwybrau cliriach o ran symud ymlaen. a mwy o ymatebolrwydd i anghenion lleol. Chwaraeodd Bangor ran arweiniol yn y broses hon ac, yn Hydref 2010 (gyda diwygiad ym mis Hydref 2011), cyflwynodd strategaeth ranbarthol, sef 'Cydweithredu a Datblygu ar draws Rhwydweithiau Rhanbarthol' (CADARN), ar y cyd ag Aberystwyth, Glyndŵr, y Brifysgol Agored a Choleg Llandrillo, er ei bod hefyd yn cwmpasu'r holl golegau AB eraill yn y rhanbarth. Bu CADARN yn adolygu'r ddarpariaeth yn y rhanbarth, gan amlygu cynigion ar gyfer darpariaeth newydd, ehangu mynediad, mwy o gysylltiad â chyflogwyr, a rhannu rhai gwasanaethau. Cyflwynodd y partneriaid rhanbarthol 24 o gynigion ar gyfer cyllido cyrsiau newydd, a mwy na'u hanner yn llwyddiannus, yn cynnwys cymeradwyo dwy raglen radd newydd ym maes Peirianeg ym Mangor.

ADRAN 2

GOSOD Y SAFON: Y FFRAMWAITH AR GYFER ANSAWDD A SAFONAU ACADEMAIDD

Amcan yr adran hon yw disgrifio'r fframwaith i reoli ansawdd a safonau a dull gweithredu y Brifysgol mewn perthynas ag ansawdd academaidd ym maes dysgu ac addysgu.

2.1 RHEOLI'R BROSES SICRHAU ANSAWDD

Mae'r Brifysgol bob amser wedi bod ag ymrwymiad cryf i gynnal a gwella profiad dysgu o ansawdd uchel i fyfyrwyr a chynnal safonau academaidd uchel. Pwysleisir hyn yn y Cynllun Strategol cyfredol ar gyfer 2010-2015. Credwn y cyflawnir yr ymrwymadau hyn trwy weithredu trefniadau cadarn i sicrhau ansawdd a safonau, trwy hyrwyddo gwella ansawdd a datblygu dulliau dysgu arloesol a gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i ddarparu addysg uwch. Mae'r ymrwymiad hwn hefyd yn cynnwys datblygu ansawdd a safonau ein polisi, gweithdrefnau ac arferion yn barhaus.

Ar lefel sefydliadol, mae dau grŵp yn ffurfio, goruchwyllo a monitro rheoli ansawdd a safonau dysgu ac addysgu:

- [a] *Y Grŵp Tasg Dysgu ac Addysgu*⁴ (Dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-ganghellor [Dysg ac Addysgu]). Mae'r grŵp hwn yn adrodd i'r Pwyllgor Gweithredu ac yn gyfrifol am oruchwyllo'r modd y mae'r Brifysgol yn gweithredu ei Strategaeth Addysgu a Dysgu. Mae'r Dirprwy Is-ganghellor [Dysgu ac Addysgu] yn aelod o Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol gyda chyfrifoldeb sy'n cynnwys Addysgu a Dysgu ac Ehangu Mynediad.
- [b] *Y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu*⁵. Mae'r Grŵp Tasg hwn yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithdrefnau manwl ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau yn cael eu gweithredu'n effeithiol; mae'n adrodd drwy'r Grŵp Tasg Dysgu ac Addysgu, ond mae ganddo'r awdurdod i wneud penderfyniadau am faterion Sicrhau Ansawdd.

O ran gweinyddiaeth, cefnogir gwaith y ddau Grŵp gan staff y Gofrestrfa Academaidd, sy'n cynnwys:

†Y Dirprwy Gofrestrydd
Cadeirydd Sicrhau Ansawdd a Dilysu (yn y Gofrestrfa Academaidd)
Cofrestrydd Cynorthwyol – Sicrhau a Gwella Ansawdd
Uwch Gofrestrydd Cynorthwyol - Derbyniadau a Chofnodion Myfyrwyr
Uwch Gofrestrydd Cynorthwyol – Arholiadau ac Asesu
Swyddog Rheoliadau, Apeliadau a Chwynion

Yn 2011, penderfynodd y Brifysgol atgyfnerthu ei swyddogaethau Sicrhau Ansawdd a buddsoddi mewn creu Uned Ansawdd a Dilysu yn y Gofrestrfa Academaidd, dan arweiniad Cadeirydd Sicrhau Ansawdd a Dilysu - uwch academydd sydd yn awr yn aelod o'r Gofrestrfa Academaidd yn bennaf.

Hefyd sefydlodd y Brifysgol Grŵp Craffu Partneriaeth Allanol⁶ dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-ganghellor (Dysgu ac Addysgu), i ystyried yr holl gynigion gan bartneriaethau a sicrhau cysondeb mewn prosesau mewnol a gwneud penderfyniadau (gweler adran 3 am ragor o fanylion).

† Ers Hydref 2009, bu gan y Dirprwy Gofrestrydd gyfrifoldeb rheolaethol am y Gofrestrfa Academaidd, ac mae wedi ysgwyddo dyletswyddau a chyfrifoldebau'r 'Gofrestrfa Academaidd'.

2.2 ADOLYGIAD SEFYDLIADOL

Fel a ddiwyddodd gydag Adolygiad 2006, goruchwyliwyd paratodau'r Brifysgol ar gyfer yr Adolygiad Sefydliadol gan Grŵp Tasg Adolygu'r Sefydliad⁷, ac ymgynghorwyd yn eang drwy'r sefydliad. Y Cofrestrydd yw cadeirydd y grŵp hwn, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Gweithredu, ac ymhlith yr aelodau mae'r Dirprwy Is-ganghellor (Dysgu ac Addysgu), y Dirprwy Is-ganghellor (Myfyrwyr), Cadeirydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu, y Dirprwy Gofrestrydd, Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr a Llywydd Undeb y Myfyrwyr. Caiff wasanaeth gan yr Uwch Gofrestrydd Cynorthwyol yn Swyddfa'r Cofrestrydd. Mae'r Grŵp yn ceisio cael ymagwedd feirniadol ac adfyfyriol ar y polisiau a'r ddarpariaeth bresennol yn ogystal â mentrau newydd.

Yn y ffordd yma, mae'r Brifysgol wedi gwahaniaethu rhwng gweithredu prosesau Sicrhau Ansawdd rheolaidd (trwy'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd, gyda chefnogaeth y Gofrestrfa Academaidd) ac adolygiad mwy adfyfyriol a strategol o ansawdd (trwy Grŵp Adolygu'r Sefydliad, gyda chefnogaeth Swyddfa'r Cofrestrydd).

2.3 SWYDDOGAETH COLEGAU AC YSGOLION

Mae 23 Ysgol academaidd yn y Brifysgol mewn grwpiau o chwe choleg at ddibenion rheoli a gweinyddu. Yr Ysgolion sy'n gyfrifol am ddarparu rhaglenni academaidd o'r ansawdd a'r safonau priodol.

Ar lefel Ysgolion academaidd, mae cyfrifoldebau aelodau unigol o'r staff a'r ysgolion yn hanfodol i reoli ansawdd a safonau yn gyffredinol.

- [a] Unigol: mae dyletswydd ar bob aelod unigol o'r staff academaidd i gyflawni'r gweithgareddau dysgu a ddyrannwyd, datblygu cwricwlwm a chefnogi myfyrwyr i'r safonau uchaf posibl, fel bod gweithrediadau ac ymrwymadau unigol yn gyfrifol am ansawdd yn y pendraw; dyma a fu'r sefyllfa ers sefydlu dulliau Sicrhau Ansawdd ffurfiol yn y 1990au.
- [b] Ysgolion: mae Pennaeth pob Ysgol academaidd yn atebol am ansawdd yr addysgu a'r dysgu a gyflawnir gan yr Ysgol honno. Rhaid i unrhyw raglen addysgu gael ei darparu gan Ysgol academaidd neu ddod dan brosesau Sicrhau ansawdd yr Ysgol.
- [c] Colegau: mae Pennaethiaid Ysgolion yn adrodd i Bennaeth y Coleg perthnasol ac mae'r Colegau yn gyfrifol am strategaeth gyffredinol a dyrannu adnoddau a rheoli a gweinyddu cyffredinol. Gan amlaf bydd gan y Colegau Gyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu neu Ddirprwy Bennaeth y Coleg (Dysgu ac Addysgu), sy'n aelodau o Grŵp Tasg Dysgu ac Addysgu y Brifysgol. Eu swyddogaeth yw cydgysylltu, arwain a chefnogi, gan gynnwys lledaenu arfer dda a chysoni polisi lle bo'n briodol.

2.4 EGWYDDORION SICRHAU ANSAWDD YM MANGOR

Mae trefn sicrhau ansawdd y Brifysgol wedi ei gefnogi gan y canlynol:

- Partneriaeth rhwng Ysgolion academaidd a phwyllgorau canolog y Brifysgol.
- Dulliau cadarn o Sicrhau Ansawdd ym mhob Ysgol academaidd.
- Pwyllgor(au) canolog gyda chyfrifoldeb am sicrhau ansawdd.
- Ymrwymiad i wella ansawdd yn barhaus gyda staff unigol, timau modiwlau a thimau cyrsiau yn cymryd cyfrifoldeb am godi safonau ym mhob agwedd ar addysgu a dysgu.
- System gadarn o sicrhau ansawdd y gellir ei gweithredu.
- Archwilio trefniadau a chanlyniadau sicrhau ansawdd yn rheolaidd.

- Bodlonrwydd ac adborth myfyrwyr yn rhannau allweddol o archwiliadau, adolygiadau a chynlluniau gweithredu rheolaidd.
- Ymrwymiad i ymateb i newidiadau yn anghenion, diddordebau a disgwiliadau myfyrwyr, eu noddwyr, cyflogwyr a chymdeithas yn gyffredinol.

2.5 CAMAU A GYMERWYD MEWN YMATEB I GANLYNIADAU ARCHWILIAD SEFYDLIADOL 2007

Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf o'r sefydliad yn 2005/06 fel rhan o gais y Brifysgol am Bwerau Dyfarnu Graddau. Rhannwyd adroddiad yr Archwiliad Sefydliadol gyda staff a myfyrwyr yn y Brifysgol, ac fe'i hystyriwyd yn ffurfiol yn y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu a'r Grwpiau Tasg Dysgu ac Addysgu, ac yng nghyfarfod y Senedd (rhwng Mai a Medi 2007). Roedd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu yn gyfrifol am ddynodi cynllun gweithredu a oedd yn ymateb i'r canfyddiadau, ac fe gwblhawyd y cynllun hwn ym mis Ebrill 2008 a'i gyflwyno i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd fel adroddiad dilynol ar ôl blwyddyn. Roedd rhaid i'r Brifysgol hefyd roi adroddiad dilynol hanner ffordd i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ym Mehefin 2009.

Gwnaed y cynnydd canlynol mewn perthynas â'r pwyntiau gweithredu a ddynodwyd gan y Tîm Archwilio yn 2007:

“Cymryd camau i sicrhau bod papurau a chofnodion y cyfarfodydd yn cael eu dosbarthu'n brydlon i gefnogi trafodaethau ystyriol ar sail wybodaeth yn fforymau trafod y Brifysgol.

Monitro gwaith y Grwpiau Tasg i gadarnhau nad yw'r system o benodi ar sail arbenigedd arbennig yn cyfyngu cyfranogiad myfyrwyr a staff ym mhrosesau trafod y sefydliad.

Sicrhau bod camau gweithredu a gynllunnir, gan gynnwys dynodi cyfrifoldebau a dyddiadau cau yn cael eu cofnodi'n glir yng nghofnodion y cyfarfod.”

Yn wyneb yr argymhellion hyn, cynhaliodd Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol adolygiad trylwyr o'r Grwpiau Tasg yn ystod haf a hydref 2007. O ganlyniad gwnaed nifer o ddiwygiadau cyffredinol i'r fframwaith. Er enghraifft:

- [a] Penderfynwyd y bydd gan rai Grwpiau Tasg gynrychiolwyr 'etholaethol'; yn arbennig penderfynwyd y dylai'r Grwpiau Tasg Dysgu ac Addysgu, Strategaeth Ymchwil a Llyfrgell a TG gael un cynrychiolydd o bob Coleg..
- [b] Mae nifer o Grwpiau Tasg ychwanegol hefyd wedi cael eu dynodi'n gyrff dwyieithog (ac felly'n cynnal eu busnes yn ddwyieithog, gyda chyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu fel bo'r angen).
- [c] Cafodd nifer o Grwpiau Tasg eu dirwyn i ben (e.e. Neuaddau ac Arlwyyo, Rheoli Lle, Chwaraeon a Hamdden) gyda meysydd eu gweithgareddau yn cael eu cynnwys o fewn Grwpiau Tasg a oedd eisoes yn bodoli. Cyflwynwyd rhai Grwpiau Tasg newydd, gan gynnwys Materion Diwylliannol
- [d] Gwnaed mân newidiadau i aelodaeth nifer o Grwpiau Tasg eraill (mae rhestr lawn o'r newidiadau ar gael os oes angen).

Hefyd, yn wyneb yr adolygiad, mae pob Ysgrifennydd y Grwpiau Tasg wedi cael eu hatgoffa i sicrhau bod Cofnodion Grwpiau Tasg yn cael eu gosod ar y Fewnrwyd yn brydlon, a bod manylion am y cylch gorchwyl a'r aelodaeth yn cael eu diweddarau. Atgoffwyd ysgrifenyddion hefyd i sicrhau bod papurau yn cael eu dosbarthu o leiaf saith diwrnod ymlaen llaw a bod cyn lleied â phosibl o bapurau yn cael eu rhoi

gerbron mewn cyfarfodydd a'u defnyddio dim ond i ystyried materion brys. Dosbarthwyd ffurflen barod safonol ar gyfer cadw cofnodion Grwpiau Tasg i bob Ysgrifennydd i'w hatgoffa bod rhaid cofnodi camau gweithredu a gynllunnir a nodi pwy sy'n gyfrifol. Cynlluniwyd y ffurflen hon pan ffurfiwyd y Grwpiau Tasg yn 2004/2005.

Erbyn hyn mae'r system Grŵp Tasg wedi ei hen sefydlu ac yn gweithio'n llwyddiannus; ond gwneir adolygiad parhaus o'u swyddogaeth, a gwnaed rhai mân newidiadau yn 2011.

Argymhelliad: Adolygu'r dull o weithredu arholiadau *viva voce* wrth asesu i sefydlu a sicrhau cysondeb yn y meini prawf ar gyfer defnyddio arholiadau o'r fath.

Cynhaliodd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu adolygiad ar ffurf holiadur ynglŷn â defnyddio arholiadau *viva-voce* ym mhob Ysgol. Arweiniodd hyn at gyflwyno polisi sefydliadol ar arholiadau *viva voce* o'r flwyddyn academaidd 2008/2009. Mae'r polisi wedi ei gynnwys yn y Rheolau a Dulliau Gweithredu a Chod Ymarfer ar gyfer Asesu Myfyrwyr ar Raglenni Israddedig ac Ôl-radd Hyfforddedig (gweler cyfeirnod 16) ac yn y Cod Ymarfer ar gyfer Arholwyr Allanol: Rhaglenni Israddedig ac Ôl-radd Hyfforddedig (gweler cyfeirnod 39)

2.6 NEWID MEWN DULLIAU DYSGU AC ADDYSGU

Yn ystod y 127 blwyddyn ers ei sefydlu, mae'r Brifysgol bob amser wedi ceisio gwella a datblygu ei dysgu ac addysgu. Mae bron pob aelod o staff, Adran, Ysgol ac awdurdod canolog wedi ceisio cyfoethogi, datblygu, ysgogi ac arloesi dros y 13 degawd ddiwethaf. Mae hyn yn amlwg o ran cyfeiriad strategol (e.e. cyflwyno VLE, cyflwyno dull safonol o ddilysu modiwlau a chyrsgiau, cyrsiau a modiwlau cyfrwng Cymraeg) yn ogystal â'r dull adfyfyriol o weithredu gan staff unigol (e.e. cyflwyno mentrau recordio darlithoedd, podlediadau a vodlediadau, defnyddio datrys problemau fel dull o ddysgu).

Yng nghanol y 1990au, sefydlodd y Brifysgol ei gweithdrefnau a'i hymarferion sicrhau ansawdd yn unol â datblygiad dulliau sicrhau ansawdd ffurfiol ym Mhrifysgolion y DU. Yn ystod y degawdau dilynol, mae'r gweithdrefnau a'r arferion wedi eu mireinio'n rheolaidd. Yn gyffredinol, rydym wedi gweld symudiad oddi wrth 'Lawlyfr Sicrhau Ansawdd' tuag at gyfres o Godau Ymarfer sy'n adlewyrchu canllawiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Yn fras rydym wedi cyflwyno archwiliadau ansawdd bob pum mlynedd ym mhob Ysgol, yn arbennig cyn dilysu / ailddilysu, a hyrwyddo'r defnydd cynyddol o ddangosyddion perfformiad, meincodi a dadansoddiadau ystadegol o fodiwlau a chyrsgiau (e.e. gofynion Arque, NSS, PTES, PRES, HEFCW).

Yn y strategaeth Dysgu ac Addysgu 2007-2011⁸, roedd gan y Brifysgol 20 targed strategol dysgu ac addysgu a gytunwyd gyda HEFCW. Er bod y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â datblygu'r cwricwlwm a phrofiad myfyrwyr, roeddent yn dueddol o roi sylw i'r sbectrwm ehangach o ddysgu ac addysgu, trwy fod yn gynyddrannol ac yn esblygol. Yn y pedair blynedd ddiwethaf, ochr yn ochr â strategaeth Dysgu ac Addysgu HEFCW, penderfynodd y Brifysgol nad oedd hyn yn ddigonol a chyflwynwyd 'Projectau Gwella' (gweler isod). Y bwriad oedd bod yn fwy ymyraethol, gan wneud newidiadau mawr mewn meysydd penodedig arbennig. Roedd y pwyslais yn flaenorol ar sicrhau safonau academaidd mewn Ysgolion a systemau, ond mae'r symudiad yn awr wedi bod tuag at wella'n benodol profiad y myfyrwyr o ddysgu, addysgu ac asesu gyda phrojectau arbennig.

Wrth wneud hyn, roedd Prifysgol Bangor yn gwybod am y dull gweithredu yn yr Alban mewn perthynas â gwella dysgu ac addysgu (Themâu Gwella). Er bod rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd yn parhau'n bwysig iawn, ac mae gweithdrefnau sicrhau

ansawdd yn parhau ac yn cael eu datblygu'n gyson, mae'r sefydliad yn teimlo ei bod yn ddigon aeddfed a hyderus i roi pwyslais cynyddol ar wella ansawdd.

2.7 GWELLA ANSAWDD

Mae'r Brifysgol yn defnyddio'r diffiniad o wella ansawdd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd y cytunwyd arno'n gyffredinol: "y broses o gymryd camau pendant ar lefel sefydliadol i wella ansawdd cyfleoedd dysgu". Byddem yn ychwanegu at hyn bod 'camau pendant' o'r fath yn broses barhaus ac wedi ei gwreiddio'n ddwfn yn systemau a strwythurau'r brifysgol. Gan fod 'arfer dda' neu 'arfer effeithiol' yn newid ar draws ideoleg, cyd-destunau, gwleidyddiaeth ac amser, ein barn yw y dylai'r broses gwella ansawdd gael ei diffinio a'i gweithredu'n lleol.

Ers 2007, mae Prifysgol Bangor wedi dechrau ar raglen Gwella Ansawdd. Roedd hyn yn wahanol i'r ddegawd flaenorol gan fod gwella ansawdd wedi ei wreiddio'n ddwfn yn strwythur amcan, proses a chynnyrch y cylch dysgu ac addysgu. Hynny yw, yn hytrach na bod gwella ansawdd yn digwydd mewn ffordd dameidiog ac ar hap, daeth yn rhan annatod o'r strategaeth addysgu a dysgu gyffredinol, yn rhan o'r cylch blynyddol o gynllunio a darparu ac a ddisgwylid gan staff ym maes addysgu a dysgu. Ar yr un pryd, ystyriwyd bod gwella ansawdd wedi'i gyfuno gyda sicrhau ansawdd, y ddau yn atgyfnerthu'i gilydd, er eu bod yn wahanol o ran cysyniad a gyda phwyslais gwahanol.

Y Rhaglen Gwella Ansawdd

Y strategaeth (2007-11)⁹ oedd dechrau un neu fwy o Brojectau Gwella Ansawdd ym mhob blwyddyn academiaidd ddilynol. Yr uchelgais oedd cael tri neu bedwar Project gwella yn rhedeg ar yr un pryd, ond gyda gwahanol ddyddiadau dechrau a gorffen.

Diffinnir projectau gwella o'r fath fel prif ymyriad penodol yn y ddarpariaeth a'r arferion sy'n bodoli ar hyn o bryd ac sy'n effeithio ar bob ysgol, neu bron iawn pob ysgol, trwy fod yn gyffredin i bob ysgol yn hytrach na'n lleol, trwy fod yn arloesol a dylanwadol mewn modd sy'n effeithio ar fwyafrif ein myfyrwyr, neu bob un ohonynt.

Gall syniadau am brojectau gwella ddeillio o fyfyrwyr, uwch reolwyr, staff academiaidd a gweinyddol, o Ysgolion a gwahanol Grwpiau Tasg, yr Uned Ddatblygu Academiaidd (ADU – e.e. darparu hyfforddiant a datblygiad i'r holl staff, tystysgrif ôl-radd addysg uwch), Academi Cymrodyr Dysgu, Gwasanaethau Gwybodaeth (e.e. e-ddysgu) gyda'r Grŵp Tasg Dysgu ac Addysgu yn eu trafod ac yn cytuno arnynt. Mae swyddogaeth myfyrwyr fel symbylwyr, ymgynghorwyr, gwerthuswyr ac aelodau o'r project yn hanfodol. Gan hynny gall syniadau am brojectau ddod o'r gwaelod i fyny neu o'r brig i lawr.

Gall projectau gwella o'r fath ddeillio'n fewnol o, er enghraifft, dadansoddiad o fetrigau ac archwiliadau Ysgolion, adroddiadau arholwyr allanol, ymchwil (e.e. i ddysgu ac addysgu dwyieithog) a'r Uned Ddatblygu Academiaidd. Ond gall hefyd ddeillio'n allanol o ymweliadau â Phrifysgolion eraill yn y DU, ac yn rhyngwladol o gynadleddau a chyfarfodydd, o arbenigedd allanol (e.e. HEA) a seilwaith addysg uwch (e.e. yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, Addysg Uwch Cymru).

Bydd gan Project Gwella gysylltiadau gyda strategaethau perthnasol eraill a bydd yn cyfuno gyda hwy. Er enghraifft, gall Project Gwella ymwneud ag ehangu mynediad, cyflogadwyedd, adnoddau dynol, rhanbartholi, rhyngwladoli, datblygu staff (e.e. Tystysgrif Ôl-radd), effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cost.

Dyma rai o'r projectau gwella ansawdd sydd wedi eu gwneud hyd yma (gyda'r arweinyddiaeth mewn cromfachau):

1. 2007 – 2011: Asesu ac Adborth (yn cynnwys e-asesiad) (Cadeirydd, Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu)*
2. 2007 – 2010: Dal Gafael ar Fyfyrrwyr (DIG Addysgu a Dysgu)
3. 2007 – 2009: Gofal Bugeiliol (DIG Addysgu a Dysgu)
4. 2008 - 2010: Profiad Myfyrrwyr Blwyddyn Gyntaf (Academi Cymrodyr Dysgu) a unodd wedyn gyda ...
5. 2010 (cyfredol): Cyflogadwyedd – Gwobr Cyflogadwyedd Bangor (DIG Addysgu a Dysgu a DIG Myfyrrwyr)*
6. 2010 (cyfredol): Adnewyddu Cwricwlwm Cyfrwng Cymraeg (DIG Dysgu ac Addysgu a DIG Cyfrwng Cymraeg/Ymwneud â'r Gymuned)*
7. 2011 (cyfredol): (Gwella'r rhaglenni meistr hyfforddedig (Cyfarwyddwyr Ôl-radd Hyfforddedig)*
8. 2011 (cyfredol): Rhyngwladoli'r Cwricwlwm (DIG Dysgu ac Addysgu)*

(*Mae'r projectau hyn yn parhau ar ôl 2011 fel rhan o Strategaeth Dysgu ac Addysgu Aberystwyth-Bangor – gweler isod).

Ar hyn o bryd mae'r Projectau Gwella Ansawdd yn cael eu lledaenu mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys anfon gwybodaeth am ddatblygiadau newydd a newidiadau i lawr trwy'r Tîm Project, camau gweithredu yn y Grŵp Tasg Dysgu ac Addysgu a phwyllgorau perthnasol eraill sydd yn eu tro yn cael eu lledaenu i Golegau ac Ysgolion, cyfarfodydd gydag Ysgolion unigol (e.e. pan gynhelir cynlluniau treialu), newidiadau i Godau Ymarfer a Rheoliadau perthnasol.

Ymhlith yr enghreifftiau o ganlyniad ac effaith projectau gwella mae Canllawiau ar Adborth i Fyfyrrwyr a gynhyrchwyd ar wahân ar gyfer staff a myfyrrwyr, newid y rheolau a'r gweithdrefnau ar farcio categorïaidd ac achosion ffiniol wrth bennu dosbarthiadau gradd, 'Strategaeth i gynyddu cyfraddau dal gafael ar fyfyrrwyr israddedig ac ôl-raddedig' a gyhoeddwyd dwywaith ac a werthuswyd yn ffurfiol, adolygiad trylwyr o God Ymarfer Gofal Bugeiliol, creu Gwobr Cyflogadwyedd Bangor, a chwrs MPA newydd mewn Gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg, Rhyngwladoli'r Archwiliad o'r Cwricwlwm a digwyddiad dilynol i ddatblygu staff y Brifysgol a gynhaliwyd gan Uned Datblygu Staff Prifysgol Oxford Brookes.

Serch hynny, mae'r Brifysgol yn credu y gellid lledaenu a hyrwyddo'r gwersi a'r buddion a ddaw o'r projectau hyn yn fwy eang. Mae'n bwriadu gwneud hynny fel rhan o'r Strategaeth ar y cyd Dysgu ac Addysgu newydd.

2.8 ADDYSGU A DYSGU AC EHANGU MYNEDIAD – STRATEGAETH AR Y CYD GYDAG ABERYSTWYTH

2.8.1. Rhagarweiniad

Fel y disgrifiwyd eisoes, mae disgwyliadau gwleidyddol wedi rhoi pwyslais mawr ar sefydliadau addysg uwch gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth yn arbennig wrth gyflawni polisiâu Llywodraeth Cymru ar gyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi fywiog. Ym Mangor, mae hyn yn golygu gweithio gyda cholegau addysg bellach, megis Coleg Llandrillo (sydd wedi uno â Choleg Menai), yn ogystal â Phrifysgol Glyndŵr a Phrifysgol Aberystwyth yn arbennig. Yn y cyd-destun hwn, cytunodd Aberystwyth a Bangor i weithio ar ddatblygu Strategaeth ar y cyd Dysgu ac Addysgu a Ehangu Mynediad – y strategaeth ar y cyd gyntaf o'i bath yng Nghymru, nid yn unig i ddau sefydliad sy'n gweithio mewn partneriaeth ond hefyd wrth gyfuno Dysgu ac Addysgu ac Ehangu Mynediad.

2.8.2. Datblygu a Monitro'r Strategaeth ar y Cyd

Mae'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu newydd (2011-2014) yn adlewyrchu Cynllun Strategol Prifysgol Bangor (2011) ac mae Dysgu ac Addysgu yn nodweddion allweddol o'r cynllun Strategol hwn (gweler adran 1).

Mae Cynllun Strategol y Brifysgol yn tynnu sylw at y blaenoriaethau canlynol:

- Mynediad at addysgu a dysgu rhagorol
- Rhoi profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr
- Chwarae rhan flaenllaw yn yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig
- Mynd i bartneriaeth â sefydliadau yng Nghymru i gyflwyno Er Mwyn ein Dyfodol

Mae'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu a'r Strategaeth Ehangu Mynediad yn trosglwyddo cynlluniau strategol cyffredinol y Brifysgol i gamau gweithredu, ac yn pennu targedau fel y gellir mesur amcanion strategol yn eu herbyn. Dyma nodau'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu/Ehangu Mynediad:

- Creu cynllun integredig i wella mynediad, cyfranogiad a phrofiad myfyrwyr o ddysgu ac addysgu yn y Sefydliadau.
- Dynodi a lledaenu arferion effeithiol ar draws y Sefydliadau ac ym mhob un o'u Hysgolion/Adrannau academiaidd.
- Sicrhau bod gweithgareddau'r Sefydliadau wedi eu seilio ar arferion effeithiol yn y DU a thu hwnt.

Roedd gweithio gydag Aberystwyth yn golygu bod strategaeth Dysgu ac Addysgu newydd wedi deillio hefyd o'u cyfeiriad strategol hwy oedd yn datblygu, yn gyfannol ac o ran dysgu ac addysgu hefyd. Crëwyd strategaeth ar y cyd dan arweiniad tîm o bedwar uwch aelod o staff, un o bob sefydliad. Ymgynghorwyd yn eang gyda staff a myfyrwyr a chymeradwywyd y strategaeth gan y pwyllgorau priodol. Roedd y broses yn un llyfn a chydweithredol, lle bu cyfnewid dyheadau, arferion a phrofiadau a oedd yn brofiad buddiol i'r ddwy ochr a gwelwyd eu bod yn rhannu'r un dyheadau a blaenoriaethau. Mewn perthynas â dysgu ac addysgu, mae calon y ddogfen yn cynnwys wyth Project Gwella y mae'r ddwy Brifysgol wedi ymrwmo i weithio arnynt mewn partneriaeth o 2011 ymlaen: (1) Asesu ac Adborth (2) Nodweddion Graddedigion / Cyflogadwyedd (3) Cwricwlwm Cyfrwng Cymraeg (4) Cynllun y cwricwlwm ac adolygu Rhaglenni Ôl-radd Hyfforddedig (5) Dysgu trwy Gymorth Technoleg (6) Rhyngwladoli'r Cwricwlwm (7) Cynrychiolaeth a Phrofiad Myfyrwyr (8) Cydnabod a Gwobrwyo Rhagoriaeth mewn Addysgu.

Cyflwynwyd y Strategaeth Dysgu ac Addysgu i HEFCW ym mis Gorffennaf 2011 gyda thargedau penodol ar gyfer 2011/12 a thargedau canol tymor dangosol ar ôl y dyddiad hwnnw. Caiff y Strategaeth ei monitro'n flynyddol gan HEFCW, ac mae'r broses fonitro flynyddol yn rhoi cyfle i adolygu'r cynnydd yn erbyn targedau ac i osod targedau ar gyfer y blynyddoedd academiaidd dilynol.

2.8.3 Cyfrifoldeb am y Strategaeth ar y Cyd

Y Dirprwy Is-ganghellor (Dysgu ac Addysgu) oedd â'r cyfrifoldeb ym Mangor am weithredu'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu ac Ehangu Mynediad gan weithio'n agos gyda'r Dirprwy Is-ganghellor (Myfyrwyr), y Dirprwy Is-ganghellor (Cyfrwng Cymraeg ac Ymwneud â'r Gymuned), y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi), y Swyddfa Cynllunio ac Adnoddau,

Gwasanaethau Gwybodaeth y Gofrestrfa Academaidd, y Gwasanaeth Llyfrgell, Undeb y Myfyrwyr, yr Uned Datblygu Academaidd, a Cholegau ac Ysgolion academaidd. Mae'r strategaethau'n cael eu datblygu ochr yn ochr â strategaethau'r Brifysgol am ymchwil, ac arloesi a menter. Mae hyn yn osgoi dyblygu diangen ac yn sicrhau bod blaenoriaethau a gweithgareddau ar draws y strategaethau yn ategol ac yn integredig.

Ar lefel traws sefydliadol Bwrdd Strategaeth Aber-Bangor sy'n gyfrifol am fonitro gweithrediad y strategaeth (mae'r Dirprwy Is-ganghellor [Addysgu a Dysgu] yn aelod o'r Bwrdd) ac ym Mangor Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol sy'n gyfrifol, ac fe'i cynghorir gan y Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu) a'r Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu.

2.9 DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG

Ers y dechrau, mae'r Brifysgol wedi cynnig dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel y prif ddarparwr addysg uwch cyfrwng Cymraeg, o ran y nifer a'r dewis o gyrsiau ac o ran arbenigedd, mae gan y Brifysgol ymrwymiad cadarn i gryfhau'r sefyllfa hon drwy chwarae'r rhan fwyaf blaenllaw yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a sefydlwyd yn ddiweddar. Yn dilyn buddsoddi diweddar mewn swyddi academaidd, cymrodoriaethau dysgu ac ysgoloriaethau PhD, erbyn hyn mae rhywfaint o ddarpariaeth israddedig cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol academaidd ar draws y Brifysgol (ar wahân i'r ysgol Saesneg). Mae hyn yn amrywio o raglenni gradd cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg (mewn 6 Ysgol, yn benodol yn y celfyddydau, dyniaethau, addysg a gwyddorau cymdeithas) i fodiwlau penodol, gwaith labordy cyfrwng Cymraeg a chefnogaeth tiwtoriaid ar nifer o gyrsiau yn y gwyddorau (mewn 13 Ysgol arall). Er bod y Brifysgol yn cydnabod ei chryfderau hirsefydlog yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn pynciau fel Hanes, Cerddoriaeth, Addysg a Gwyddorau Cymdeithas, mae hefyd yn bwriadu ymestyn a meithrin darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob disgyblaeth arall, yn arbennig y rhai lle mae'r iaith Gymraeg yn bwysig o ran diwylliant a hefyd yn sgil galwedigaethol pwysig i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru.

Yn 2010/11, dilynodd 1521 o fyfyrwyr (685 cyfwerth ag amser llawn) cyfran o'u rhaglen radd trwy gyfrwng y Gymraeg – cynnydd o 87 ers 2009/10¹⁰. Ers 2010 sefydlwyd swydd Dirprwy Is-ganghellor Cyfrwng Cymraeg ac Ymwneud â'r Cyhoedd i ddatblygu ein cenhadaeth iaith Gymraeg a helpu i gyflawni ein Cynllun Iaith Gymraeg.

2.10 Y BERTHYNAS RHWNG DYSGU AC YMCHWIL/YSGOLHEICTOD UWCH

Fel y pwysleisiwyd yn y datganiad o genhadaeth, mae'r Brifysgol yn gweld gwerth mewn dysgu ar sail ymchwil. Ym mhob rhan o'r Brifysgol, mae dysgu yn cael budd sylweddol o gynlluniau i integreiddio ymchwil, ysgolheictod ac addysgu. Dysgir y rhan fwyaf o'r myfyrwyr gan staff sydd â phroffiliau ymchwil cryf. Mae bron pob un o'r staff academaidd sy'n ymchwilwyr yn dysgu hefyd. Awgryma tystiolaeth o archwiliadau ansawdd mewnol bod gwaith ymchwil mewn Ysgol yn bywiogi ac yn dylsu'r addysgu, ac yn yr un modd mae dysgu yn effeithio ar yr ymchwil trwy roi gwerth i'r ymchwil hwnnw, yn hyrwyddo ymchwil wrth ddatblygu ysgolheictod ac yn dathlu llwyddiannau'r rhai sydd ag ymchwil rhagorol. Mae integreiddio staff ymchwil yn y cwricwlwm yn helpu i symbylu myfyrwyr i ddysgu, ymchwilio ac anelu'n uchel yn academaidd.

Dyma rai o'r dulliau a ddefnyddir i integreiddio dysgu ac ymchwil:

- Dysgu trwy ddarganfod a datrys problemau dan arweiniad
- Ymchwilwyr yn dysgu a goruchwylio yn eu meysydd arbenigol
- Dysgu sgiliau ymchwil yn seiliedig ar ddisgyblaeth

- Sicrhau bod myfyrwyr yn deall ethos ymchwil a moeseg ymchwil Prifysgol sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil.
- Sicrhau bod cynnwys y cwricwlwm yn gwbl seiliedig ar ymchwil.

Mae'r Ysgolion sy'n ymwneud â datblygiad galwedigaethol a phroffesiynol (e.e. Gwyddorau Gofal Iechyd, Hyfforddi Athrawon) yn annog cysylltiad cryf rhwng ymchwil ac uwch ysgoloriaeth ac addysgu ymhlith y staff. Mae projectau datblygu'r cwricwlwm, ymchwil cymhwysol a diweddarau canfyddiadau ymchwil diweddar yn aml yn ffyrdd o gynnal safonau proffesiynol uchel mewn dysgu ac addysgu. Mae cyrff proffesiynol, e.e. Proffesiynau Iechyd Cymru ac Estyn, wedi gwneud sylwadau cadarnhaol am hygredd galwedigaethol staff sy'n dysgu myfyrwyr yn y pynciau hyn.

Mae'r Brifysgol yn cymryd rhan weithredol yn y HEA Research-Teaching Nexus Action Set, gan gyfrannu i ddwy gynhadledd ddilynol ar y thema hon yn 2010 a 2011. Mae'r Uned Datblygu Ansawdd wedi gwneud y cysylltiad rhwng ymchwil a dysgu yn rhan annatod o'i rhaglenni ar gyfer datblygu staff academiaidd. Mae'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion yn enghraifft o'r cysylltiad hwnnw yn y pwyslais a roddir ar ymchwil i ymarfer dysgu fel sail ar gyfer datblygiad proffesiynol.

2.11 CYSYLLTIADAU Â CHYFLOGWYR

Mae'r Brifysgol bob amser wedi cynnal nifer o wahanol gysylltiadau â chyflogwyr. Mae'r cysylltiadau wedi tueddu i fod yn gryfach mewn meysydd pwnc sydd â blas galwedigaethol clir. Ond yn 2007, anogwyd rheolwyr academiaidd gan y Brifysgol i sefydlu byrddau ymgynghori ffurfiol gyda chyflogwyr (ar lefel Coleg neu Ysgol) i roi sylwadau am nifer o faterion, gan gynnwys datblygu'r cwricwlwm a chyflogadwyedd graddedigion.

Canllaw oedd hyn ac nid gofyniad ffurfiol, ac er bod rhai Byrddau Ymgynghorol yn weithredol iawn, mae'r defnydd ohonynt ar draws y sefydliad braidd yn dameidiog a byddant yn cael eu hadolygu yn 2012.

Yn ganolog, mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd (rhan o Wasanaethau Myfyrwyr) yn bwynt cyswllt pwysig gyda chyflogwyr, yn derbyn ymholiadau gan gyflogwyr sydd eisiau bod yn gysylltiedig â'r brifysgol o ran cefnogi profiad dysgu myfyrwyr. Mae'r Gwasanaeth yn cefnogi'r gwaith hwn yn uniongyrchol trwy rai o'i weithgareddau a phrojectau fel GO Wales, Byddwch Fentrus a JobZone, a thrwy rannu gwybodaeth a hyrwyddo gweithgareddau projectau eraill fel y Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth. Mae'r holl weithgareddau cyswllt gyda chyflogwyr yn cael eu cofnodi ar system CRM er mwyn cael data cywir a sicrhau bod yr holl gysylltiadau yn broffesiynol ac at bwrpas. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth gyrfaoedd yn dal gwybodaeth gyswllt a chofnodion am gyfranogiad oddeutu 1,400 o gyflogwyr, yn amrywio o gyflogwyr cenedlaethol i gyflogwyr bach a chanolig lleol.

Mae'r Rhaglen GO Wales yn cefnogi busnesau bach a chanolig a myfyrwyr blwyddyn olaf a graddedigion yng Nghymru yn effeithiol trwy leoliadau strwythuredig 6 – 10 wythnos seiliedig ar waith gyda chyflog. Bydd oddeutu 65% o'r myfyrwyr ar leoliadau gwaith yn cael eu cyflogi wedyn gan y busnesau bach a chanolig. Gall myfyrwyr a graddedigion 'flasu gwaith' o fewn sefydliad neu fusnes bach a chanolig i gael golwg ymarferol ar swydd neu sector cyflogaeth. Gall graddedigion hefyd ddilyn cwrs byr gyda ffocws arbennig o'r enw 'Academi'r Graddedigion' sy'n gwrs dwys chwech wythnos sy'n cyflawni modiwlau allweddol ILM wedi ei gyfuno gyda lleoliad gwaith pedair wythnos.

Mae Prifysgol Bangor wedi arwain y project cydweithredol tair blynedd, Hyrwyddwyr Academiaidd Menter, ochr yn ochr â Phrifysgol Aberystwyth ac Abertawe. Mae Hyrwyddwyr Academiaidd Menter wedi eu penodi i'r Ysgolion canlynol: Busnes,

Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, Peirianeg Drydanol, Seicoleg, Dylunio Cynnyrch a'r Gyfraith. Mae swm bychan o gyllid blynyddol wedi galluogi'r Hyrwyddwyr Academaidd Menter i gymryd rhan yn y rhaglen o sefydlu gweithgareddau menter o fewn y cwricwlwm, gan gyflwyno myfyrwyr i fodolau rôl Dynamo (cronfa ddata o entrepreneuriaid lleol a ariannir gan Lywodraeth Cymru) ac entrepreneuriaid lleol a chenedlaethol eraill. Canlyniad cyffroes a llwyddiannus iawn arall o'r project Hyrwyddwyr Academaidd Menter yw'r rhaglen allgwrwlaidd, amlddisgyblaethol Menter trwy Ddylunio.

Mae enghreifftiau o gysylltiadau da rhwng cyflogwyr a'r sector academaidd mewn meysydd eraill. Er enghraifft mae Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS) a ddisgrifir yn Adran 4 hefyd yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ymchwil ôl-radd wneud projectau ymchwil sy'n berthnasol i anghenion y gymuned fusnes yn y rhanbarth. Mae'r Swyddfa Ymchwil ac Arloesi wedi cynnal lefel uchel o gydweithio gyda chyflogwyr trwy nifer o fentrau (e.e. Rhaglen Ynys Ynni, SEACAMS a BECON, cyflawni rhaglenni dysgu seiliedig ar waith i sectorau allweddol yng Nghymru) sydd wedi arwain at gysylltiadau sefydlog. Hefyd mae'r rhaglen Ymestyn yn Ehangach wedi sefydlu fforymau cyflogwyr STEM yng ngogledd ddwyrain a gogledd orllewin Cymru i adnabod anghenion prif gyflogwyr.

Mae'r rhain yn rhaglenni buddiol iawn, ond mae'r Brifysgol yn dymuno datblygu cysylltiadau cryfach rhwng cyflogwyr a'r byd academaidd. Bwriedir adolygu'r maes hwn yn ystod 2012.

Cyflogadwyedd Myfyrwyr: Gwobr Cyflogadwyedd Bangor

Menter bwysig yn 2010/11 oedd cyflwyno Gwobr Cyflogadwyedd Bangor i wella rhagolygon gyfaoedd myfyrwyr Prifysgol Bangor, gan gydnabod yr ystod ehangach o brofiadau cysylltiedig â chyflogaeth a darparu rhaglen graidd i'w helpu i lywio eu gyfaoedd. Mae'r cynllun Gwobr Cyflogadwyedd Bangor yn gweithio o fewn ysgolion academaidd ar y cyd ag adrannau gwasanaeth y Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr, cyflogwyr a gyda sefydliadau yn y sector gwirfoddol. Dyma ail flwyddyn dreialu'r cynllun, ac mae'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd o fewn wyth ysgol academaidd a bwriedir ei gyflwyno i'r brifysgol gyfan yn 2012-13.

Mae'r Rhaglen Graidd yn cynnwys gweithdai a sesiynau ar-lein i wella sgiliau rheoli gyrfa myfyrwyr (yn cynnwys ysgrifennu CV, sgiliau mewn cyfweiliad) a'u datblygiad personol a phroffesiynol (trwy fyfyrion a dadansoddi sgiliau).

Yn y Rhaglen Gweithgareddau, gellir dewis gweithgareddau o blith dewis helaeth iawn, ac mae'r strwythur yn ddigon hyblyg fel y gall myfyrwyr deilwrio'r wobwr i'w profiadau a'u dyheadau eu hunain. Mae cynllun bonws dwyieithog yn rhan o'r rhaglen sy'n cydnabod pwysigrwydd cwblhau gweithgareddau trwy gyfrwng iaith anffodol (gall gynnwys Saesneg i rai myfyrwyr Cymraeg a rhyngwladol), a manteision cyfathrebu dwyieithog ac amlieithog yn y gweithle. Rhoddir cydnabyddiaeth hefyd i weithgareddau cyd-gwrwlaidd myfyrwyr (e.e. cymdeithasau sy'n ymwneud â disgyblaethau penodol, profiadau gwaith galwedigaethol, darlithoedd gwadd, seminarau, gweithdai a chynadleddau), ynghyd â'r cyfle i fyfyrion ar eu cwricwlwm yng nghyd-destun profiadau a senarios go iawn.

Trwy roi pwyslais ar fyfyrion a dynodi sut y gellir trosglwyddo amrywiaeth eang o brofiadau prifysgol, mae Gwobr Cyflogadwyedd Bangor yn datblygu agwedd gyfannol ar gyflogadwyedd yn seiliedig ar ddewisiadau unigolion a diddordeb pob myfyrwr. Mae'r Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr yn cefnogi Gwobr Cyflogadwyedd Bangor trwy ymroddiad i gynyddu profiad gwaith, lleoliadau gwaith, interniaeth a chyfleoedd gwirfoddoli i bob myfyrwr.

Mae Gwobr Cyflogadwyedd Bangor wedi datblygu a gwella'n barhaus trwy gydol y cyfnod peilot. Mae defnyddio sylwadau gan grwpiau o fyfyrwyr a meddygfeydd 'galw i mewn' yn yr ysgolion peilot ynghyd â beirniadaeth adeiladol gan gymdeithasau Undeb y Myfyrwyr, cynrychiolwyr cwrs a swyddogion sabothol, yn golygu bod y Wobr wedi parhau i ganolbwyntio ar fyfyrwyr wrth i'r newidiadau gweithredol angenrheidiol a ddynodwyd gan staff yr ysgolion a'r gwasanaethau canolog gael eu gweithredu. Gofynnwyd i gyflogwyr, alumni a sefydliadau allanol ymwneud â'r cynllun a'i gydnabod, gan gynnig lleoliadau lle bo modd a chymryd rhan mewn cyflawni'r Rhaglen Graidd.

2.12 NIFEROEDD MYFYRWYR A DERBYN MYFYRWYR

2.12.1 Polisi Derbyn

Lluniwyd polisi derbyn y Brifysgol¹¹ i sicrhau bod y myfyrwyr a all gael budd o addysg uwch yn cael y cyfle i wneud hynny. Wrth gwrs, mae derbyn myfyrwyr yn cael ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau y glynir at bolisiâu'r Llywodraeth a'r Cyngor Cyllido mewn perthynas â niferoedd myfyrwyr, ac i gwrdd â gofynion academaidd a chyllidol y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at gynnal safonau trwy osod gofynion mynediad gofynnol ar draws bob un o Ysgolion y Brifysgol: yn gyffredinol, mae'n rhaid bod wedi llwyddo mewn o leiaf 2 lefel A neu gymhwyster cyfwerth i gael mynediad i gwrs israddedig, a gradd gyntaf a ddyfarnwyd gan Sefydliad Addysg Uwch cydnabyddedig neu gyfwerth i gael mynediad i gwrs ôl-radd. Bydd yr union ofynion mynediad a ofynnir am le ar gwrs yn amrywio yn dibynnu ar y maes pwnc.

2.12.2 Goruchwylio

Mae strategaeth recriwtio a phroses derbyn y Brifysgol yn cael ei goruchwylio gan y Grŵp Gweithredu Recriwtio a Derbyniadau¹², sy'n cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac yn adrodd i Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol. Cadeirydd y Grŵp Tasg hwn yw'r Dirprwy Is-ganghellor (Dysgu ac Addysgu), ac mae hefyd yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cyfathrebu Corfforaethol a Marchnata, y Dirprwy Gofrestrydd, Cyfarwyddwr Datblygu Rhyngwladol, Pennaeth Derbyniadau a Phennaeth Recriwtio Myfyrwyr.

Caiff targedau recriwtio eu monitro gan y Grŵp gyda chymorth dadansoddi a monitro ystadegol a ddarperir gan **Swyddfa Cynllunio ac Adnoddau** ganolog y Brifysgol¹³. Mae'r Swyddfa Cynllunio ac Adnoddau yn cyfrifo targed y nifer a dderbynnir yn seiliedig ar ragolygon ariannol ac uchafswm y myfyrwyr a ddynodir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Y Swyddfa Derbyniadau Canolog yn y Gofrestrfa Academaidd sy'n gyfrifol am oruchwylio'r holl dderbyniadau.

Mae prosesu ceisiadau yn digwydd yn ganolog yn bennaf ac yn cael ei weinyddu gan naill ai adran Swyddfa Derbyniadau Canolog y **Gofrestrfa Academaidd** neu (mewn perthynas â rhai ymgeiswyr rhyngwladol) gan y staff derbyniadau yn y **Ganolfan Addysg Ryngwladol**. Sefydlwyd y Ganolfan Addysg Ryngwladol ym mis Mehefin 2011 ac mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar geisiadau gan fyfyrwyr rhyngwladol am gyrsiau israddedig ac ôl-radd hyfforddedig. Mae pob cais o'r DU, yr UE, a cheisiadau rhyngwladol UCAS a cheisiadau ymchwil yn dal i gael eu rheoli gan y **Gofrestrfa Academaidd**. Hefyd cynigir rhai cyrsiau rhan amser yn yr ysgolion Dysgu Gydol Oes a Gwyddorau Gofal Iechyd ac mae derbyn myfyrwyr i'r cyrsiau hyn yn cael ei weinyddu gan yr ysgolion perthnasol.

Mae'r broses derbyniadau ganolog yn gweithredu ar lefel israddedigion ac yn seiliedig ar y niferoedd y cytunwyd arnynt, data ystadegol am berfformiad blaenorol a'r gofynion mynediad y cytunwyd arnynt. Caiff canlyniadau arholiadau ymgeiswyr eu gwirio yn erbyn y gofyniad mynediad gan staff y Swyddfa Derbyniadau Canolog sydd wedi eu lleoli yn y Gofrestrfa Academaidd ac yn y Ganolfan Addysg Ryngwladol. Mae pob cynnig ffurfiol a chadarnhau lle yn cael ei wneud yn ganolog. Bob blwyddyn, caiff y gofynion mynediad ar gyfer pob rhaglen eu hadolygu gan Ysgolion mewn ymgynghoriad â'r Swyddfa Derbyniadau Canolog: mae gwir raddau y myfyrwyr diweddaraf a dderbyniwyd, y tueddiadau cenedlaethol a ffactorau'r farchnad yn cael eu hystyried.

Mae polisi a threfniadau gweithredol yn rhan gynhenid o God Ymarfer Recriwtio a Derbyn y Brifysgol¹⁴. Mae gan bob Coleg staff derbyn penodedig sy'n cydweithio gyda'r Swyddfa Derbyniadau Canolog a'r Ganolfan Addysg Ryngwladol trwy restru postiio sefydledig a chyfarfodydd penodol pan fo'r angen. Cynhelir cyfarfodydd Tiwtoriaid Derbyn Israddedigion dwywaith y flwyddyn cyn ac ar ôl y cyfnod cadarnhau. Bydd y swyddfa Derbyniadau Canolog yn cysylltu'n uniongyrchol gyda Phenaethiaid Colegau cyn dechrau pob blwyddyn academaidd i adolygu gofynion mynediad a diweddarau'r wybodaeth ar-lein (e.e proffiliau mynediad UCAS) a gwybodaeth yn y prospectws.

2.12.3 Rheoli Niferoedd Myfyrwyr

O'r flwyddyn academaidd 2011/12 ymlaen, mae niferoedd myfyrwyr israddedig Cartref/UE wedi eu capio gan HEFCW. Dechreuwyd cynllunio ar gyfer y newid sylfaenol hwn mewn arferion recriwtio (o fod yn sefydliad a oedd yn recriwtio yn bennaf i fod yn sefydliad detholiadol) yn 2009/10 gyda 'chynllun peilot' o'r Brifysgol yn gosod cwtâu ar Ysgolion ar gyfer derbyniadau 2010. Gwelwyd bod y polisiâu ac arferion ar sail wybodaeth ar gyfer cylch derbyniadau mynediad 2011 a'r camau a roddwyd mewn lle i osgoi recriwtio gormod neu ddim digon yn rhai cadarn. Roedd y nifer terfynol o fyfyrwyr a dderbyniwyd yn agos iawn at y targed ar y dyddiad a ddewiswyd ar gyfer y cyfrifiad.

Fel rhan o broiect 'Gwybodaeth Fusnes' y Brifysgol, caiff gwell gwybodaeth rheoli ar y we a gwybodaeth amser real ei lledaenu'n eang yn ystod y cyfnod Cadarnhau a Chlirio

2.12.4 Ehangu Cyfranogiad a Derbyniadau

Ym Mangor, mae gan y sefydliad ymroddiad cryf i ehangu mynediad a'i arwain. Mae Grŵp Gweithredu Ehangu Mynediad y Brifysgol yn gweithredu, monitro a rheoli'r gweithgaredd ehangu mynediad. Mae'r Grŵp Gweithredol yn adrodd i'r Grŵp Tasg Dysgu ac Addysgu, fel bod y strategaeth yn cael ei chyfuno gyda strategaeth ehangach dysgu ac addysgu. Fe ymgynghorir â'r Grŵp Gweithredu ynglŷn â phenderfyniadau strategol allweddol ac mae'n helpu i roi gwybodaeth am y strategaethau Ehangu Mynediad i bob Ysgol a Choleg. Y cyswllt rhwng y tri grŵp hyn yw'r Dirprwy Is-ganghellor (Dysgu ac Addysgu) ac mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys Ehangu Mynediad.

Mae'r strategaeth Ehangu Mynediad¹⁵ ar gyfer 2011/12 i 2013/14 yn seiliedig ar y nodau canlynol. Yn y strategaeth mae'r amcanion hyn wedi eu trosi'n weithredoedd gyda mesuriadau effaith a thargedau cysylltiedig.

Dyma amcanion y strategaeth Ehangu Mynediad hollgwmpasog:

1. Codi dyheadau a gwella cyrhaeddiad, er mwyn cefnogi Derbyniadau Teg i Addysg Uwch.
2. Hybu i'r eithaf effeithiolrwydd trawsnewid a chynefino, a hybu i'r eithaf dal gafael ar fyfyrwyr a llwyddiant myfyrwyr.
3. Ehangu mynediad i sgiliau lefel uwch a chyflogadwyedd
4. Integreiddio ag agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth Prifysgol Bangor
5. Meithrin cydweithredu a phartneriaethau rhagorol.
6. Cefnogi agenda Strategaeth Ehangu Mynediad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a symud ymlaen i raglenni a modiwlau AU cyfrwng Cymraeg.
7. Ymwneud ag anghenion sgiliau cyflogwyr yn y rhanbarth a hybu datblygiad y gweithlu mewn cydweithrediad agos ag Ymestyn yn Ehangach.

Hefyd, mae Prifysgol Bangor yn arwain Partneriaeth 'Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru, sef cydweithrediad rhwng 8 sefydliad addysg uwch ac addysg bellach yng ngogledd a chanolbarth Cymru, a gyllidir gan HEFCW, i annog mynediad at addysg uwch yn arbennig mewn ardaloedd daearyddol difreintiedig.

Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer Ysgolion a Cholegau addysg bellach gyda'r amcan o godi ymwybyddiaeth am addysg uwch ac annog pobl ifanc i ystyried y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Caiff y gweithgareddau hyn eu cydlynu gan yr Adran Recriwtio Myfyrwyr ac maent yn amrywio o gyngor cyn gwneud cais a sgysiau yn rhoi arweiniad i sesiynau rhyngweithiol. Mae Rhaglen Dawn a Chyfle Prifysgol Bangor yn bodoli ers 13 mlynedd ac mae'n gweithredu mewn 13 ysgol uwchradd yng Ngogledd Cymru. Mae wedi chwarae rhan bwysig yn codi dyheadau pobl ifanc i gael mynediad i addysg uwch.

2.12.5 Newid ym mholisi'r Llywodraeth ar Fewnfudo a Recriwtio Rhyngwladol

Mae deddfwriaeth nawdd myfyrwyr Haen 4 UKBA yn gymhleth ac yn newid yn gyflym ac yn parhau i fod yn faich gweinyddol ychwanegol a sylweddol. Mae hwn ynghyd â'r Cynllun Cymeradwyo Technoleg Academaidd (ATAS) wedi ychwanegu haen arall o gymhlethdod i'r broses derbyniadau fel y bu'n rhaid ymyrryd yn aml yn ein prosesau craidd. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd y newidiadau hyn o fewn cyd-destun ei hamcanion strategol (hynny yw cynnydd sylweddol mewn recriwtio rhyngwladol) a'r angen, o ystyried 'cyflwr sefydlog', i adolygu ei hymateb cyfredol i'r her hon.

2.12.6 Rhoi ystyriaeth i ymarfer gorau

Mae'r Brifysgol yn cydweithio gyda grwpiau a mentrau cenedlaethol i sicrhau bod ei pholisi derbyn yn gyson ag arferion y sector a bod prosesau ar sail 'ymarfer gorau'. Mae staff derbyniadau yn cyfrannu at waith Grŵp Sefydlog Cymru, Grŵp Ymarferwyr Derbyniadau Cyngor y Gofrestrfa Academaidd, Grŵp Newid Defnyddiwr UCAS a hefyd mynd i rai digwyddiadau Cefnogi Proffesiynoldeb mewn Derbyniadau (SPA). Bydd papurau ymarfer gorau ac astudiaethau achos SPA yn cael eu monitro'n rheolaidd i fod yn sail wybodaeth i bolisiau sy'n datblygu.

2.12.7 Datblygiadau cyfredol ac adolygu

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod y dirwedd derbyniadau yn newid yn gyflym (e.e blaenoriaethau sefydliadol, Arolwg Prosesau Derbyniadau UCAS,

niferoedd myfyrwyr wedi eu capio, portffolio cynyddol o broffiliau cymwysterau, etc) a bod angen ymateb yn gyflym ond yn ofalus. Felly mae'r Brifysgol wrthi'n datblygu adnoddau canllawiau derbyniadau ar y we wedi eu golygu'n ganolog sy'n fwy hygyrch i staff ac ymgeiswyr hefyd. Mae'r Brifysgol o'r farn bod angen parhau i'w wella.

Er y bu traddodiad hir o roi adborth defnyddiol i ymgeiswyr mewn rhai Ysgolion (gan amlaf lle mae penderfyniadau yn cynnwys cyfweiliad e.e Addysg, Nyrsio) derbynir bod darpariaeth o'r fath yn ddymunol i bob myfyriwr lle na bu eu ceisiadau yn llwyddiannus. Mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o'r cyfleuster hwn gyda'r nod o roi adborth defnyddiol, ac ar yr un pryd osgoi baich gweinyddol trwm a thensiwn diangen. Ar hyn o bryd caiff pob cais a wrthodir eu gwirio dwywaith gan uwch staff y swyddfa derbyniadau canolog.

Er bod cyfartaledd sgoriau pwynt tariff UCAS ar gyfer israddedigion llawn amser ar gael yn rhwydd, nid oes proffiliau cymwysterau digon gronynnog (ar gyfer dyfarniadau ar wahân i safon uwch) ar gael ar hyn o bryd mewn fformat y gellir eu dadansoddi'n ystyrlon. Gwnaed llawer o waith paratoi yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf i gywiro'r anghysondeb hwn a bydd angen gwneud gwaith pellach fel y gellir rhoi dadansoddiad effeithlon o'r ystadegau i dimau recriwtio'r Coleg sydd â'r cyfrifoldeb o godi safonau mynediad. Er mai israddedigion llawn fydd yn cael y sylw cyntaf yn yr ymarfer hwn, mae angen cynyddol i wybodaeth reoli o'r fath fod ar gael ar gyfer lefelau a dulliau eraill o astudio sydd wedi eu targedu ar gyfer cynyddu recriwtio yn unol â chynllun strategol y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod y swyddogaeth derbyniadau yn chwarae rhan allweddol tuag at gyflawni ei hamcanion strategol ac yn ceisio lliniaru unrhyw amhariad posibl trwy sefydlu dulliau gweithredu wrth gefn cadarn i wrthsefyll newidiadau sylweddol mewn patrymau recriwtio a/neu golli adnoddau ffisegol neu ddynol. Mae adolygiad o'r cynlluniau wrth gefn ar y gweill ar hyn o bryd.

2.13 ASESU MYFYRWYR

2.13.1 Asesu

Mae'r Rheolau, Rheoliadau a Chod Ymarfer ar gyfer Asesu Myfyrwyr ar Raglenni Israddedig a Rhaglenni Ôl-radd Hyfforddedig¹⁶ yn rhoi gwybodaeth fanwl am asesu myfyrwyr. Mae'r Cod yn cynnwys adrannau am:

- Gwybodaeth y mae'n rhaid i fyfyrwyr ei darparu
- Cyfrifoldebau myfyrwyr
- Safoni mewnol a marcio dwbl
- Canllawiau ar gyflwyno gwaith a asesir
- Adborth i fyfyrwyr
- Cadw gwaith a asesir
- Presenoldeb myfyrwyr
- Trefniadau asesu/arholi ar gyfer myfyrwyr anabl
- Gosod a threfnu arholiadau
- Rheolau ar gyfer ystyried canlyniadau arholiadau a chynnydd myfyrwyr
- Canllawiau ar ddefnyddio arholiadau viva voce
- Dosbarthiad graddau israddedigion
- Cyfrifo dosbarthiadau gradd
- Canllawiau ar achosion ffiniol wrth ddosbarthu graddau israddedig
- Swyddogaeth a chyfrifoldebau Byrddau arholwyr

Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi pwyslais ar asesu fel offeryn i farnu cyflawniad myfyrwyr ac a ydynt wedi cyflawni deilliannau dysgu modiwlau a rhaglenni. Mae'n cydnabod bod asesu yn ymwneud â chyflawniad myfyrwyr yn ôl safonau cenedlaethol y DU, fframweithiau credyd a chymwysterau a safonau dyfarniadau. Ond ystyrir bod asesu hefyd yn ffurfiannol ac felly'n adeiladol, yn galluogi myfyrwyr i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r Cod yn diffinio egwyddorion a phrosesau asesu, a hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd disgresiwn y Bwrdd Arholi, ac yn nodi bod "asesiad yn fater o farn, nid cyfrifo yn unig gall arholwyr ddefnyddio disgresiwn a barn pan fydd manylion am holl farciau'r myfyriwr ar gael". Mae'n anodd cael cydbwysedd rhwng glynu at reoliadau ac ymarfer disgresiwn; ond gwneir defnydd adeiladol o'r trafodaethau sy'n codi, gan arwain lle bo'n briodol at addasu'r Cod.

Amcan y Cod yw sicrhau bod:

- Dilysu mewnol yn arwain at waith cwrs teg ac arholiadau lle mae geiriad y cwestiynau yn ddiamwys, bod cynnwys y modiwl yn briodol i gwblhau'r asesiad a bod amser digonol i gwblhau'r asesiad.
- Mae safoni allanol yn sicrhau bod gwaith cwrs ac arholiadau yn gyson â safonau cenedlaethol a meincnodau pynciau.
- Bod yr asesu'n ddiuedd; bod pob sgrïpt arholiad yn cael ei farcio'n ddienw.
- Bod asesu ychwanegol ar gael i wrthdroi methiant a/neu lle bo amgylchiadau personol lliniarol.

Amcan y Brifysgol yw sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybod am y rheoliadau asesu a'r gofynion ar gyfer rhaglenni astudio unigol. Hefyd rhaid i fyfyrwyr gael gwybod am unrhyw newidiadau perthnasol mewn rheoliadau asesu sy'n digwydd yn ystod eu cyfnod astudio yn y sefydliad.

2.13.2 Asesu - Safoni a Marcio Categoriäidd

Trwy gyfrwng y Cod Ymarfer ar gyfer Asesu Myfyrwyr ar Gyrsiau Israddedig ac Ôl-radd Hyfforddedig, mae'r Brifysgol yn sicrhau bod asesu myfyrwyr a dosbarthu dyfarniadau yn cael ei wneud gan ddefnyddio set o ddulliau gweithredu sy'n gyffredin drwy'r Brifysgol. Er enghraifft, mae trefn ddiffiniedig ar gyfer cyfrifo marc cyffredinol y radd gyda phwysoliad safonol ar farciau'r flwyddyn olaf, a gweithdrefnau safonol ar gyfer delio gydag achosion ffiniol. Yr amcan cyffredinol yw sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwr o dan anfantais neu'n cael mantais oherwydd unrhyw reoliadau sy'n benodol i Ysgolion. Rhaid i unrhyw wriad o reoliadau'r Brifysgol gael ei gymeradwyo gan Gadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, cyn cymeradwyo'r rhaglen.

Dangosodd dadansoddiad ystadegol ARQUE o holl fodiwlau unigol y Brifysgol bod llawer o staff yn marcio rhwng 0 a 40%, ond dim ond ychydig iawn sy'n marcio'n uwch na 75%. Mewn project peilot buddiol, newidiodd yr Ysgol Seicoleg i farcio categoriäidd (graddau llythrennau) a gwelwyd bod hyn yn llwyddiannus iawn o ran sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn yr ystod lawn o farciau. Ar ôl ymgynghori a thrafod, penderfynodd y Brifysgol bod pob Ysgol yn defnyddio marcio categoriäidd o fis Medi 2010¹⁸.

Cafodd canllawiau eu paratoi a'u dosbarthu drwy'r project Gwella Asesu ac Adborth a'r Grŵp Tasg Dysgu ac Addysgu, gyda Phwyllgor Rheoliadau'r Senedd yn cymeradwyo'r newidiadau cytunedig i'r Cod Ymarfer mewn perthynas â marcio categoriäidd ar 25 Mai 2010¹⁹. Wedyn dosbarthwyd canllawiau ar farcio categoriäidd. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi "Caniateir

marcio fel canran dim ond lle mae'r pwnc neu'r dull asesu yn galw am hynny a lle gellir canfod gwahaniaethau cymharol fychan mewn perfformiad yn gywir."

Y sail resymegol ar gyfer newid i farcio categorïaidd oedd bod pennu canran manwl i aseiniad yn awgrymu bod unrhyw farc yn gywir i'r canran agosaf. Mewn gwirionedd, gellir ystyried bod marc ar gyfer aseiniad yn gweithredu o fewn ystod. Mae hyn yn cydnabod nad oes unrhyw farc perffaith, iawn neu hollol gywir ar gyfer aseiniad, ond bod y staff academiaidd yn tueddu i fod yn hyderus bod traethawd yn dod o fewn ystod neu gategori arbennig. Mae sylwadau fel 'mae'r aseiniad hwn yn 2i uchel' neu '2ii canol' yn llawer mwy addas i bwrpas a rhesymol na marc canran manwl annilys. Mae rhai eithriadau er enghraifft mewn rhai asesiadau gwyddoniaeth lle mae'r atebion yn naill ai'n gywir neu'n anghywir. Mae marciau rhifiadol yn fwy priodol bryd hynny ac fe'u defnyddir.

2.14 DISGYBLAETH MYFYRWYR AC ARFER ANNHEG

2.14.1 Disgyblaeth Myfyrwyr

Diffinnir dulliau gweithredu'r Brifysgol ar gyfer disgyblaeth myfyrwyr mewn Ordinhad²⁰. Trwy'r uwch staff a Swyddogion Disgyblu mae'r Brifysgol yn gallu datrys bron pob achos o ddisgyblu heb orfod mynd i'r Bwrdd Disgyblu. Ar sail profiad diweddar, bydd y Bwrdd Disgyblu gan amlaf yn ystyried un neu ddau achos bob blwyddyn.

2.14.2 Ymarfer Annheg

Amcan y Brifysgol yw atal ymarfer annheg gan fyfyrwyr. Gwneir ymdrechion helaeth i roi gwybodaeth i fyfyrwyr a'u rhybuddio am ymarfer annheg ac i weithredu asesu ffurfiannol, lle gellir ymdrin â llên-ladrad anfwriadol²¹.

Trwy gyfrwng y Cod Ymarfer ar gyfer Llên-ladrad²², mae gan y Brifysgol bolisi canolog i atal, canfod ac ymateb i lôn-ladrad a rhoi hyfforddiant i staff academiaidd. Mae'r Cod yn diffinio swyddogaethau'r Sefydliad a staff academiaidd, ond mae hefyd yn pwysleisio cyfrifoldeb myfyrwyr i beidio â gweithredu'n annheg. Bydd archwiliadau, a gynhelir fel rhan o gylch archwiliadau arferol y sefydliad, yn cynnwys ystyried polisïau a gweithdrefnau Ysgolion mewn perthynas â llên-ladrad ac i ba raddau y mae'r rhain yn cydymffurfio â chanllawiau'r sefydliad.

Trwy'r Weithdrefn Ymarfer Annheg²³, gall y Brifysgol ddelio'n ffurfiol â phob digwyddiad o ymarfer annheg, gan gynnwys arholiadau a gwaith cwrs. Mae'r Weithdrefn yn cynnwys canllawiau clir ar faterion y gellir ymdrin â hwy ar lefel Ysgol a materion y mae'n rhaid i brosesau canolog y Brifysgol ymdrin â hwy (sy'n cynnwys gwrandawriad gan Banel Ymarfer Annheg). Mae'r Gweithdrefnau'n diffinio'r cosbau y gall Ysgolion eu pennu i sicrhau tegwch a chysondeb. Yn 2010 cynhaliwyd 36 gwrandawriad ymarfer annheg a chododd y nifer hwn i 60 yn 2011.

Mae'r Brifysgol wedi adolygu ei Gweithdrefn Ymarfer Annheg a bydd fersiwn diwygiedig ar gael ar gyfer y sesiwn 2012/13. Un amcan oedd llunio fersiwn a oedd yn haws i staff a myfyrwyr ei ddilyn. Amcan arall oedd datblygu set o godau o ran y cosbau y gellir eu pennu gan y Panel Canolog. Disgwylir y bydd y codio'r cosbau yn lliniaru gwaith y Pwyllgor a bydd yn rhoi diffiniad clir i'r myfyrwyr o'r cosbau y gallant eu disgwyl; gan obeithio y bydd yn ffordd arall o'u rhwystro rhag gweithredu'n annheg.

2.15 CYFLEUSTERAU ADDYSGU

Caiff addasrwydd ac effeithiolrwydd cyfleusterau dysgu mewn ystafelloedd darlithio eu monitro gan yr Is-grŵp Cyfleusterau Addysgu²⁴ (dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-ganghellor [Dysgu ac Addysgu]) sy'n adrodd i'r Grŵp Tasg Ystadau a Chyfleusterau.

Mae'r Brifysgol yn gweld yr angen i gynnal a chadw cyfleusterau ystafelloedd darlithio i ansawdd uchel. Nid oes gan y Brifysgol ddarlithfa fawr dda (Neuadd PJ Hall sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ond nid yw'n ddelfrydol). Bydd y project Pontio yn rhoi sylw i'r broblem hon trwy greu rhagor o ddarlithfeydd mawr. Mae angen uwchraddio ystafelloedd dysgu eraill hefyd. Mae'r Grŵp Cyfleusterau Addysgu yn rhoi sylw arbennig i (a) sicrhau bod adnoddau clyweled ac e-ddysgu (caledwedd a meddalwedd) ar gael ym mhob ystafell sy'n rhan o'r amserlen ganolog, (b) bod rhoi adnoddau mewn ystafelloedd o'r fath yn cyd-fynd ag anghenion yr amserlen (e.e. ystafelloedd lle nodir ar yr amserlen bod darlithoedd y modiwlau yn cael eu recordio) a (c) rhoi blaenoriaeth i ddodrefnu ac adnewyddu ystafelloedd dysgu. Yn 2011/2012 penderfynwyd gwneud cynnydd sylweddol i'r gyllideb ar gyfer ystafelloedd dysgu a labordai.

Ystyrir bod y gallu i recordio darlithoedd i gefnogi adolygu a deall cysyniadau allweddol yn allweddol o ran dysgu ac addysgu at y dyfodol. Fel rhan o'r cyd-destun hwn, ac ar ôl cynnal cynllun peilot yn 2010/11, mae rhaglen i gyflwyno meddalwedd recordio darlithoedd (Panopto) mewn ystafelloedd darlithio a hyfforddi a chefnogi staff i'w defnyddio wedi dechrau ym mhob rhan o'r Brifysgol. Mae meddalwedd recordio darlithoedd hefyd ar gael ar beiriannau pen desg staff fel bod ganddynt yr hyblygrwydd o ran beth a sut y maent eisiau recordio.

Mae Bangor yn ffodus bod yma nifer o gyfleusterau arbenigol (e.e. llong i hwylio'r moroedd, sy'n cefnogi'r ddarpariaeth yng Ngwyddorau'r Eigion, gardd fotaneg, cyfleusterau darlledu yn yr adran Astudiaethau Creadigol). Mae llawer o raglenni academaidd hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o'r amgylchedd naturiol heb ei ail sydd yma yng ngogledd orllewin Cymru, gan gynnwys nodweddion diwydiannol, archeolegol, hanesyddol yn ogystal â rhai gwyddonol.

2.16 DYSGU CYMDEITHASOL

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf mae lleoedd 'dysgu cymdeithasol' wedi eu creu mewn mewn llyfrgelloedd ym Mhrif Adeilad y Celfyddydau a Safle'r Normal, yn rhannol mewn ymateb i dueddiadau yn y sector ac mewn ymateb uniongyrchol i adborth defnyddwyr. Mae'r lleoedd hyn, trwy eu cynllun a'r defnydd o dechnoleg yn annog cydweithio ac yn cynnig gwahanol fathau o leoedd i'r defnyddwyr weithio ynddynt. Mae wedi cael effaith gadarnhaol mewn ardaloedd astudio traddodiadol eraill, er enghraifft, y lefelau tawelwch wedi cynyddu. Mae'r ardaloedd dysgu cymdeithasol yn fwy anffurfiol gyda chyfleusterau i ddefnyddio technoleg, er enghraifft sgriniau led, byrddau gwyn, wifi a chyfrifiaduron sefydlog.

2.17 STRATEGAETH ADDYSG RYNGWLADOL

Yn Chwefror 2011, ar ôl sefydlu swydd newydd Cyfarwyddwr Datblygu Rhyngwladol, cymeradwyodd Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol Strategaeth Addysg Ryngwladol²⁵ sy'n ymgorffori dyheadau'r Brifysgol i fod yn ddarparwr addysg uwch rhyngwladol blaenllaw. Mae'r Brifysgol yn teimlo ei bod yn strategaeth amserol iawn a ddatblygwyd er mwyn addysgu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr, gwyddonwyr, peirianwyr ac arlunwyr ar gyfer y farchnad fyd-eang, ac i roi i'n myfyrwyr y profiad rhyngwladol a rhyngddisgyblaethol sydd ei angen ar gyfer yr economi byd-eang. Mae amcanion allweddol y strategaeth yn cynnwys cynnydd yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol ym Mangor, datblygu nifer cyfyngedig o fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni

Bangor tu allan i'r Deyrnas Unedig, a chynnydd yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n mynd i ysgolion haf a dilyn cyrsiau byr.

Ym mis Hydref 2011²⁶, ac yn wyneb ei Strategaeth Ryngwladol sy'n datblygu, penderfynodd y Pwyllgor Gweithredu y gall y Brifysgol gymryd rhan mewn partneriaethau rhyngwladol, yn amodol ar yr amodau a ganlyn:

1. Bod safon academiaidd y sefydliad partner yn gyfryw fel bod y bartneriaeth yn cefnogi strategaeth ac enw da Prifysgol Bangor, ac yn dangos gallu i gyflwyno rhaglenni gradd o ansawdd a safon briodol.
2. Bod y cynnig yn cynnwys achos busnes cadarn, a gymeradwywyd gan y Brifysgol.
3. Bod y Brifysgol yn dilyn trefniadau cadarn iawn o ran rheoli Sicrhau Ansawdd a monitro, er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr dramor yn debyg i'r rhai a gaiff myfyrwyr ym Mangor.

2.18 RHEOLIADAU'R BRIFYSGOL

Mae strwythur rheoleiddiol y Brifysgol yn hygyrch drwy wefan y Brifysgol²⁷. Mae'r gyfres o ddogfennau sydd ar gael yn cynnwys Rheoliadau, Codau Ymarfer, Gweithdrefnau a Chanllawiau. Mae Cod Ansawdd Addysg Uwch DU yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn sail wybodaeth i'r dogfennau hyn. Gyda'i gilydd, maent yn cynrychioli 'Llawlyfr Sicrhau Ansawdd' y Brifysgol gyda Phwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn gyfrifol amdanynt, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-ganghellor (Dysgu ac Addysgu). Mae'r Pwyllgor wedi rhoi pwyslais ar symleiddio'r dogfennau hyn lle bynnag bo'n bosibl, i'w gwneud yn haws i staff a myfyrwyr gael mynediad i'r wybodaeth. Enghraifft ddiweddar yw cyfuno sawl set o reoliadau Ôl-radd Ymchwil i un ddogfen sy'n cwmpasu'r holl raglenni Ôl-radd ymchwil. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd rheoli fersiynau yr holl reoliadau, yn arbennig er mwyn sicrhau bod copïau o ddogfennau ar gyfer carfannau penodol ar gael yn rhwydd. Mae'r mynegai i reoliadau ar wefan y Brifysgol hefyd yn cynnwys gwybodaeth i ddiffinio pa reoliadau sy'n gymwys os gwneir newidiadau sy'n berthnasol i un garfan o fyfyrwyr ond ddim i un arall.

Mae rhestr o ddogfennau y mae'r Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn gyfrifol amdanynt yn cael ei hadolygu'n flynyddol. Mae hyn yn golygu y gellir dynodi'r dogfennau sydd i fod i gael eu hadolygu (yn ôl y cylch 5 mlynedd) a'r rhai sydd angen eu hadolygu am resymau eraill oherwydd ffactorau allanol. Mae adolygu'r rhestr yn flynyddol hefyd yn caniatáu i'r Pwyllgor asesu cynnydd o ran adolygu dogfennau bob blwyddyn.

Gan amlaf bydd y dogfennau sy'n cael eu hadolygu yn cael eu dosbarthu i'r Grwpiau Tasg a/neu Ysgolion yn dibynnu ar faint a natur y newidiadau arfaethedig. Hefyd mae'r Pwyllgor yn ystyried ceisiadau a chynigion gan y Grwpiau Tasg ac Ysgolion i newid rheoliadau a dogfennau eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymateb i unrhyw newidiadau i'r dogfennau a gytunwyd yn y Senedd neu faterion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor gan y Senedd.

Mae Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn adrodd i'r Senedd ac yn atebol iddi. Cyflwynir cofnodion y Pwyllgor i'r Senedd gan y Dirprwy Is-ganghellor (Dysgu ac Addysgu), cadeirydd y Pwyllgor.

2.19 SEILWAITH ACADEMAIDD A PHWYNTIAU CYFEIRIO ALLANOL ERAILL

Mae'r Brifysgol wedi sicrhau bod ei rheoliadau yn cyd-fynd â'r gwahanol adrannau yng Nghod Ymarfer DU yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Y Swyddog Rheoliadau a'r

Cofrestrydd Cynorthwyol (Sicrhau Ansawdd) sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr eu bod yn gyfredol. Gan fod gweithgareddau'r Brifysgol mor amrywiol cyfeirir at un bennod o god yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd gan amlaf yn fwy nag un o reoliadau'r Brifysgol.

Mae disgrifyddion lefel o'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi cael eu cynnwys yn Rheolau a Gweithdrefnau'r Brifysgol a'r Cod Ymarfer ar Asesu Myfyrwyr a'r Rheoliadau ar gyfer rhaglenni Ol-radd Ymchwil. Defnyddir y rhain, ynghyd â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a'r datganiadau meincnodi priodol fel pwyntiau cyfeirio pan fydd rhaglenni newydd yn cael eu hystyried neu raglenni presennol yn cael eu hadolygu. Bydd rhaglenni sydd angen cael eu hachredu gan PSRB yn cynnwys eu gofynion hefyd. Rhaid llenwi Ffurflenni Manylebau Rhaglenni ar gyfer pob rhaglen. Rhoddir gwybod am unrhyw newidiadau i reoliadau'r Brifysgol i Benaethiaid Ysgolion, Cyfarwyddwyr Coleg Dysgu ac Addysgu, Cyfarwyddwyr Astudiaethau Ôl-radd a Fforwm Gweinyddwyr y Brifysgol.

Crynodeb	
Cryfderau:	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Rhaglen Gwella Ansawdd wedi ei sefydlu ers 2007. • Darparu cyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. • Datblygu Strategaeth Addysg Ryngwladol
Datblygiadau dyfodol:	<p>at y</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen i uwchraddio ystafelloedd dysgu (cwblhau'r cyfnod cyntaf erbyn Gorffennaf 2012) • Cynllun gweithredu wedi ei wreiddio yn y Strategaeth Dysgu ac Addysgu i ledaenu canlyniadau'r Rhaglen Gwella Ansawdd (dechrau ei weithredu Mawrth 2012). • Adolygu cysylltiadau gyda chyflogwyr

ADRAN 3

**SICRHAU ANSAWDD A SAFONAU: Y DREFN SICRHAU ANSAWDD AR GYFER
ISRADDEDIGION AC ÔL-RADDEDIGION HYFFORDDIG.**

Mae'r brifysgol wedi datblygu set o drefniadau, a ddisgrifir ac a ddadansoddir isod, er mwyn sicrhau ansawdd a safonau academaidd astudiaethau israddedig ac ôl-raddedig hyfforddedig.

Mae Cod Ymarfer y Brifysgol ar Gymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni²⁸ yn amlinellu'r broses cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni. Mae'r prosesau'n defnyddio pwll arbenigol o staff academaidd sydd â phrofiad o ddilysu (Y Pwll Dilysu), myfyrwyr, aseswyr allanol a chynrychiolwyr cyrff proffesiynol fel y bo'n briodol. Mae'r drefn cyflwyno ac ystyried rhaglenni a modiwlau newydd yn cael ei chymeradwyo gan Senedd y Brifysgol yn yr hydref. Mae amserlen archwiliadau ansawdd mewnol a digwyddiadau ailddilysu'n cael ei rheoli gan y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu. Rhaid i'r holl raglenni hyfforddedig gydymffurfio naill ai â Rheoliadau Graddau Israddedig Modiwlau neu â Rheoliadau Rhaglenni Ôl-raddedig Hyfforddedig fel y bo'n briodol. Doethuriaethau Proffesiynol (h.y. rhaid i raddau ymchwil sy'n cynnwys elfen hyfforddedig gydymffurfio hefyd â Rheoliadau Rhaglenni Ymchwil Ôl-raddedig. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar raglenni hyfforddedig. Disgrifir y drefn ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn adran 4.

3.1 CYMERADWYO RHAGLENNI

Yn ddiweddar mae'r brifysgol wedi diwygio ei phrosesau cymeradwyo rhaglenni dechreuol, fel y bydd yn goruchwyllo'r broses yn fanylach er mwyn canfod unrhyw broblemau allweddol yn fuan, cyn i'r ysgol ddechrau paratoi manyleb lawn o'r rhaglen.

Yn y camau dechreuol rhaid i'r ysgol(ion) sy'n cyflwyno'r rhaglen lenwi Amlinelliad Rhaglen a ystyrir gan y Panel Craffu ar Raglenni Newydd. Mae'r panel hwn, dan gadeiryddiaeth Cadeirydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu, yn 'gwirio ansawdd' yr holl raglenni newydd a gyflwynir trwy fonitro agweddau allweddol gan gynnwys cydymffurfiaid â rheoliadau'r brifysgol a thystiolaeth o ymgynghori mewnol ac allanol. Bydd yn sicrhau bod y cynigion wedi eu hastudio a'u cymeradwyo gan yr ysgol a'r coleg, yn monitro datblygiad cyrsiau/modiwlau tebyg ar draws ysgolion a cholegau ac yn sicrhau bod y cymwysterau'n cyd-fynd â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.

Yn y cam hwn bydd y panel naill ai'n argymhell y rhaglen i Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol (gan gyflwyno neu heb gyflwyno pryderon penodol) neu'n gofyn i'r ysgol sy'n cyflwyno'r rhaglen ei hailystyried cyn ei hailgyflwyno i'r panel i'w hystyried eto. Lle bo'n briodol bydd Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol yn ystyried argymhellion y panel a materion adnoddau a materion eraill. Dim ond pan fydd rhaglen wedi ei chymeradwyo gan Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol y gellir symud ymlaen i'w dilysu²⁹.

Defnyddir trefniadau gwahanol i roi cymeradwyaeth ddechreuol i gynigion sy'n cynnwys partner allanol, yn unol â'r rhai a ddiffinnir yng Nghod Ymarfer Darpariaeth Gydweithredol y Brifysgol³⁰ neu yn y Llawlyfr Dilysu³¹ fel y bo'n briodol.

Unwaith y bydd rhaglen newydd wedi ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredu gall symud ymlaen wedyn i Banel Dilysu. Yn y cam hwn mae angen cynnig llawn gan gynnwys manyleb rhaglen a disgrifiadau modiwl. Cadeirir paneli dilysu gan Gadeirydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu neu'r sawl a enwebir ganddo ac fe'u cyfansoddir yn y fath fodd fel bod staff academaidd cymwys a phrofiadol yn gallu craffu ar y cynigion. Maent yn cynnwys cynrychiolydd o'r Pwll Dilysu (nad yw'n aelod o'r ysgol sy'n cyflwyno), yr Arbenigwr Pwnc Allanol a benodir, cynrychiolydd staff academaidd o ddisgyblaeth gysylltiedig (nad yw'n aelod o'r ysgol sy'n cyflwyno), corff proffesiynol neu gynrychiolydd cyflogwr, lle bo'n briodol, y Cofrestrydd Academaidd (neu'r sawl a enwebir ganddo) ac ysgrifennydd y panel a benodir gan y Cofrestrydd Academaidd. Fel rhan o'r broses ddilysu, mae gofyn i ysgolion sy'n cyflwyno enwebu tri arbenigwr pwnc allanol posibl; dewisir un o'r rhain gan Gadeirydd y Grŵp Tasg

Sicrhau Ansawdd a Dilysu. Ni ddefnyddir arholwyr allanol cyfredol fel Aseswyr Allanol ar Baneli Dilysu. Mae'r Panel Dilysu'n mynd ati i graffu'n fanwl ar y dogfennau ac mae'n cyfarfod â thîm y cwrs i drafod y cyflwyniad ac i ofyn am eglurhad ar unrhyw faterion yn ôl y gofyn. Darperir templedi i helpu i wneud penderfyniadau, adrodd a manylu ar unrhyw gamau gweithredu dilynol sydd eu hangen. Yn ddiweddar cyflwynwyd 'Canllawiau i aelodau paneli dilysu' i helpu i sicrhau cysondeb prosesau ar draws rhaglenni a digwyddiadau dilysu. Gofynnir i Baneli Dilysu sicrhau'n benodol bod nodau a deilliannau rhaglenni'n cyd-fynd ag enw a lefel y cymhwyster arfaethedig. Rhaid iddynt sicrhau hefyd fod y rhaglenni'n bodloni gofynion Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a bod ystyriaeth briodol wedi ei rhoi i ddatganiadau meincnod ac unrhyw ofynion perthnasol gan gyrff proffesiynol. Bydd y Panel Dilysu'n sicrhau hefyd y bydd trefniadau cyflwyno'r rhaglen yn ei galluogi i gyflawni ei hamcanion arfaethedig trwy ystyried cynnwys y rhaglen, y dulliau addysgu, dysgu ac asesu ac unrhyw ofynion arbenigol megis gwaith project neu ddysgu ar leoliad. Rhoddir ystyriaeth arbennig hefyd i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy a pha mor hygyrch yw rhaglenni i fyfyrwyr ag anableddau.

Y Gofrestrfa Academaidd sy'n rheoli ac yn cydlynu'r trefniadau hyn yn ganolog. Gofynnir i Arbenigwyr Pwnc Allanol ysgrifennu adroddiad byr ar ôl pob Digwyddiad Dilysu. Er bod y brifysgol bob amser yn ceisio gwella ei threfniadau, teimla fod y broses ddilysu ar ei gwedd bresennol yn rhoi hyder bod rhaglenni newydd wedi cael eu hastudio a'u gwirio'n briodol cyn eu cyflwyno.

3.2 CYMERADWYO MODIWLAU

Rhaid i bennaeth yr ysgol roi'r sêl bendith derfynol i bob modiwl newydd (ar ôl ei ystyried a'i gymeradwyo gan yr ysgol) a rhaid ei gymeradwyo wedyn naill ai adeg dilysu/aiddilysu neu gan y Panel Cymeradwyo Modiwlau Newydd. Cadeirir y panel hwn gan gadeirydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu ac mae'n cynnwys y Cyfarwyddwr Addysgu a Dysgu (neu ei enwebai) o bob un o'r colegau, Swyddog Amserlennu'r Brifysgol, y Gweinyddwr Cymwysterau, y Cofrestrydd Academaidd (neu ei enwebai) ac ysgrifennydd panel a benodir gan y Cofrestrydd Academaidd. Mae templed a nodiadau arweiniad i lenwi'r ffurflen, gan gynnwys ysgrifennu deilliannau dysgu, ar gael ar wefan y Gofrestrfa Academaidd. Mae'r Panel yn gwirio, yn benodol, strategaeth ddysgu'r modiwl, a fydd yn rhaid i gyfranwyr fynd trwy broses ddatgelu CRB, bod y deilliannau dysgu'n addas i lefel y cymhwyster, bod yr asesu'n gysylltiedig â'r deilliannau ac nad yw myfyrwyr yn cael eu gorasesu neu eu tanasesu. Gall y Panel gymeradwyo'r modiwl (yn llawn neu'n amodol ar fân addasiadau i'w cwblhau cyn ei gyhoeddi ym mlwyddlyfr modiwlau'r brifysgol) neu ei gyfeirio'n ôl at yr ysgol.

3.3 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O RAGLENNI A MODIWLAU HYFFORDDDEDIG: QA1 a QA2

Mae'r brifysgol yn mynnu bod yr holl raglenni israddedig ac ôl-raddedig hyfforddedig yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac mae'n darparu templedau³² i gynorthwyo yn y broses. Bwriad y prosesau monitro yw annog adfyfrio beirniadol gan drefnwyr modiwlau a rhaglenni gan ddefnyddio adborth gan fyfyrwyr, arholwyr allanol, timau addysgu a data ar gyflwyniad myfyrwyr. Cynhelir adolygiadau modiwlau (ar ffurflenni QA2) o fewn ysgolion. Ni chyflwynir y rhain i'r Gofrestrfa Academaidd ond creffir arnynt yn ystod archwiliadau ansawdd mewnol (gweler isod).

Mae rhywfaint o hyblygrwydd o fewn prosesau adolygu modiwlau, fel bod ysgolion unigol yn gallu defnyddio'r rhai sydd yn eu barn hwy'n fwyaf "addas i'r pwrpas". Er enghraifft, bydd rhai ysgolion yn defnyddio holiadur ar-lein ac eraill yn defnyddio holiaduron papur ar ddiwedd y modiwl. Mae adborth o gyfarfodydd carfannau, grwpiau ffocws a phwyllgorau staff-myfyrwyr i gyd yn rhoi mewnbwn i'r broses adolygu modiwl. Mae'r brifysgol hefyd yn defnyddio arf ystadegol pwerus - ARQUE

[Asesu Ansawdd Canlyniadau yn Arholiadau'r Brifysgol] - i roi dadansoddiad meintiol o berfformiad myfyrwyr ym mhob modiwl. Mae ARQUE yn cymharu perfformiad myfyrwyr ar un modiwl â'u perfformiad ar fodiwlau eraill, yn galluogi adnabod effeithiau cynlluniau gradd ac yn edrych ar dueddiadau dros gyfnod o amser. Darperir nodiadau arweiniad i helpu i ddehongli allbwn ARQUE. Darperir allbwn ARQUE i bob ysgol ac fe'i hystyrir hefyd gan drefnwyr modiwl yn ystod y broses adolygu. Mae'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu hefyd yn craffu ar adroddiad ARQUE sefydliadol³³. Mae hyn yn ei alluogi i adnabod ac edrych ymhellach ar unrhyw fodiwlau lle mae tueddiadau anarferol, er enghraifft modiwlau lle mae'r gyfradd fethu'n gyson uchel neu lle mae'r marciau'n pegynnu.

Adolygir yr holl raglenni gradd yn flynyddol a darperir templed (ffurflen QA1) i helpu yn y broses. Mae'r adolygiad hefyd yn ystyried y cynnydd a wnaed wrth weithredu newidiadau a gynigiwyd yn y flwyddyn flaenorol ac mae gofyn i drefnydd y rhaglen ddatblygu cynllun gweithredu sy'n cynnwys materion a godwyd gan arholwyr allanol a myfyrwyr ac yn adolygiadau modiwlau unigol. Mae'r broses adfyfrio a'r camau gweithredu blynyddol hyn yn annog gwelliannau parhaus yn y rhaglen.

Cyflwynir yr holl ffurflenni QA1 i'r Gofrestrfa Academaidd ac fe'u hystyrir ar ôl eu derbyn gan y Cofrestrydd Cynorthwyol (Sicrhau Ansawdd). Darperir adroddiad cryno³⁴ ar y ffurflenni QA1 ar gyfer y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu. Mae'r ffurflenni hyn yn dangos a roddwyd sylw digonol i gynllun datblygu'r flwyddyn flaenorol, sylwadau'r Arholwyr Allanol a gwerthusiadau myfyrwyr. Dychwelir ffurflenni nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf hyn i'r Ysgol i'w hailysgrifennu'n fwy eglur a manwl a'u hailgyflwyno. Pan fydd ffurflen QA1 rhaglen wedi ei derbyn gan y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu mae'r cylch adolygu blynyddol yn dod i ben.

Os ydyw rhaglen hyfforddedig bresennol wedi newid yn sylweddol ers ei dilysu'n wreiddiol rhaid ei hailddilysu hefyd, hyd yn oed os nad yw 5 mlynedd wedi mynd heibio. Mae'r dilyniant digwyddiadau a gyflwynwyd yn 2010/2011 fel a ganlyn;

1. Ddwy flynedd cyn ailddilysu - Mae aelod o'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu'n bresennol ym Mwrdd Arholi'r ysgol yn yr haf (neu'r hydref) i arsylwi ac i sicrhau bod y trefniadau a ddilynir yn cydymffurfio â rheoliadau'r brifysgol.
2. Flwyddyn cyn ailddilysu - cynhelir archwiliad ansawdd mewnol o'r ysgol.
3. Ailddilysir y rhaglenni.

Mae'r holl ddigwyddiadau'n cael eu hadrodd i'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu ac yn cael eu hystyried ganddo. Oherwydd bod cymaint o fonitro canolog, cred y brifysgol fod y trefniadau adolygu hyn yn gadarn a'u bod yn fecanwaith pwysig i sicrhau ansawdd a safonau.

3.4 ARCHWILIADAU ANSAWDD MEWNOL

Mae'r brifysgol yn cynnal cylch pum mlynedd sy'n cynnwys archwiliad ansawdd mewnol³⁵ ac ailddilysu cyrsiau, sydd yn ei barn hi'n ganolog i'w system sicrhau ansawdd.

Bydd archwiliadau ansawdd mewnol yn rhoi cyfle i ysgolion asesu eu cynnydd eu hunain ac i'r brifysgol gael adborth annibynnol gan fyfyrwyr ac arbenigwr pwnc allanol. Hefyd mae archwiliadau'n ei gwneud yn bosib canfod unrhyw feysydd lle mae angen sylw yn y broses ddilysu sydd i ddod. Gall yr Archwiliadau Ansawdd Mewnol ystyried:

- safonau addysgu a dysgu mewn modiwlau;
- dulliau asesu yn eu perthynas â deilliannau dysgu, cynnwys y cwrs, strategaethau dysgu a sgiliau trosglwyddadwy;
- cynnydd myfyrwyr

- cefnogaeth ac arweiniad i fyfyrwyr yn yr ysgol;
- cynrychiolaeth myfyrwyr yn yr ysgol;
- Y wybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr;
- unrhyw ddarpariaeth gydweithredol;
- Addysgu cyfrwng Cymraeg (os yw'n berthnasol);
- Lleoliadau gwaith (os ydynt yn berthnasol);
- Darpariaeth i gefnogi, hyfforddi, goruchwyllo a monitro myfyrwyr ymchwil;
- Systemau adborth gan gynnwys adroddiadau arholwyr allanol, adborth gan gyrrff proffesiynol neu statudol (os yw'n berthnasol);
- gwerthusiadau modiwlau a chyrsgiau myfyrwyr;
- defnyddio a gweithredu Cynlluniau Adolygu a Datblygu Blynyddol (ffurflenni QA1);
- Canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol; PTES. PRES (fel y bo'n berthnasol)
- cynefino a hyfforddiant, a datblygu staff;
- Arsylwi Cydweithwyr yn y broses addysgu.

Bydd y panel archwilio'n sicrhau hefyd bod ysgolion yn cydymffurfio â rheoliadau a chodau ymarfer y brifysgol ac yn gweithredu Strategaeth Addysgu a Dysgu'r brifysgol.

Fel rheol mae ymweliad archwilio'n para diwrnod cyfan ac yn cynnwys:

- [a] Archwilio dogfen hunanwerthuso, cofnodion y pwyllgorau perthnasol a'r holl ddogfennau eraill sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn ysgol.
- [b] Cyfarfod(ydd) gyda phennaeth yr ysgol a staff sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar addysgu a dysgu (e.e. arholiadau, gofal bugeiliol, derbyniadau).
- [c] Cyfarfod(ydd) gyda chynrychiolwyr myfyrwyr, israddedigion, ôl-raddedigion hyfforddedig ac ymchwil.
- [d] Cyfarfod(ydd) gyda staff eraill sy'n cymryd rhan mewn sicrhau ansawdd ac/neu addysgu a dysgu (e.e. aelodau staff newydd/ gweinyddwyr).
- [e] Cyfarfodydd, lle bo'n briodol, gydag unrhyw staff perthnasol yn y Coleg e.e. Cyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu'r Coleg, Cyfarwyddwyr Ymchwil, Cyfarwyddwr Ysgol y Graddedigion.

Cadeirir y panel gan Gadeirydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu ac mae'n cynnwys aelod arall neu aelod blaenorol o'r Grŵp Tasg neu Gyfarwyddwr Addysgu a Dysgu Coleg, un Uwch Asesydd Allanol, y Cofrestrydd Cynorthwyol (Sicrhau Ansawdd a Gwella). Gwahoddir ysgolion i enwebu tri pherson a allai weithredu fel asesydd allanol. Ni ddylai'r unigolyn hwn fod yn arholwr allanol cyfredol neu ddiweddar yn yr ysgol ac o ddewis dylai wybod am brosesu a threfniadau sicrhau ansawdd. Cadeirydd y panel archwilio sy'n dewis yr asesydd allanol. Mae cynrychiolydd myfyrwyr wedi bod yn aelod llawn o'r holl baneli archwilio ers 2008. Fel rheol bydd naill ai Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Llywydd UMCB, neu'r Is-Lywydd Addysg a Lles ar y panel.

Un ddogfen allweddol yn y broses archwilio yw'r ddogfen hunanwerthuso a baratowyd gan yr ysgol.

Ers hydref 2008 mae ysgolion wedi cael ffurflen hunanwerthuso benodol³⁶. Mae'r ffurflen yn seiliedig ar God Ansawdd QAA a rheoliadau'r brifysgol, ac mae gofyn i ysgolion roi sgoriau iddynt eu hunain yn erbyn cyfres o osodiadau ac i amlygu meysydd cryfder a meysydd lle mae angen gwella. Mae'r ffurflen yn cynnwys adrannau ar: Raglenni academaidd, addysgu a dysgu, asesu ac adborth, myfyrwyr ymchwil, cyfranogiad a phrofiad myfyrwyr a datblygiad staff academaidd. Mae'r ffurflen hon wedi bod yn effeithiol oherwydd ei bod yn sicrhau bod yr holl feysydd perthnasol yn cael sylw. Diweddarwyd y ffurflen yn 2011 i gynnwys darpariaeth gydweithredol.

Mae'r broses archwilio a'r amserlen cyfarfodydd wedi eu teilwra i ffitio strwythur a gweithrediad ysgolion unigol. Mae'r Tîm Archwilio'n gallu croesgyfeirio rhwng y wybodaeth yn y dogfennau â'r wybodaeth a gesglir mewn cyfarfodydd. Mae'r adroddiad archwilio'n tanlinellu'r cryfderau mewn ysgol a hefyd mae'n rhestru unrhyw bwyntiau gweithredu i'r ysgol eu hystyried mewn perthynas â safonau academaidd, ansawdd y cyfleoedd dysgu a chynnal a chadw ansawdd a safonau. Gellir cynnwys hefyd faterion i'r brifysgol eu hystyried. Caiff yr adroddiad archwilio ei ystyried gan y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu ac anfonir copïau at yr Is-ganghellor a'r Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu).

Mae'r ysgol a'r brifysgol ill dwy'n cael blwyddyn i ymateb i'r pwyntiau gweithredu. Ystyrir yr ymatebion gan y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu ac os bernir eu bod yn foddhaol hysbysir yr ysgol fod y cylch archwilio wedi dod i ben. Pan fydd mater yn destun pryder penodol gellir gofyn i'r ysgol ymateb o fewn cyfnod byrrach. Ar ôl blwyddyn, os nad yw'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu'n fodlon ar y cynnydd neu ar y ffordd yr ymatebwyd i'r pwyntiau gweithredu, gall ofyn ar i Gadeirydd ac Ysgrifennydd y Panel Archwilio gael ymweld â'r ysgol eto er mwyn trafod y pwyntiau gweithredu'n fanylach neu fod archwiliad mewmol dilynol yn cael ei gynnal yn yr ysgol rhwng blwyddyn a thair blynedd ar ôl yr archwiliad dechreuol.

Teimla'r brifysgol fod y system hon yn gweithredu'n effeithiol, ei bod yn ddull o adnabod ymarfer da yn ogystal â materion sydd angen mynd i'r afael â hwy, a'i bod yn rhoi sicrwydd rhesymol ar ystod o faterion ansawdd. Ond os yw archwiliadau'n gadarn byddant yn adnabod materion y mae angen mynd i'r afael â hwy ac mae hyn yn wir am system Bangor. O ganlyniad mae'r brifysgol yn dymuno atgyfnerthu'r drefn trwy gyflwyno adolygiad canol tymor o ysgolion fydd yn helpu i fonitro cynlluniau gweithredu a sicrhau cydymffurfriad

3.5 AILDDILYSU RHAGLENNI

Yn ôl rheoliadau'r brifysgol rhaid ailddilysu pob rhaglen israddedig ac ôl-raddedig hyfforddedig bob pum mlynedd³⁷. Gall ailddilysu ddigwydd cyn hynny os ydyw rhaglen yn newid yn sylweddol. Fel arfer mae ysgolion yn manteisio ar y cyfle hwn i ddiwygio a diweddarw cwrwla. Mae'n sicrhau hefyd fod y brifysgol yn nodi unrhyw newidiadau mewn cyrsiau a modiwlau sy'n digwydd oherwydd 'drifft yn y cwrwclwm'. Cyfansoddir paneli ailddilysu yn yr un ffordd â phaneli cymeradwyo ac maent yn cynnwys staff mewmol ag arbenigedd perthnasol ac sy'n annibynnol ar yr ysgol sy'n cyflwyno ynghyd ag arbenigwr pwnc allanol. Ni ddefnyddir arholwyr allanol cyfredol fel aelodau o'r paneli ailddilysu. Mae ailddilysu yn cynnwys ystyried:

- Manyleb pob rhaglen;
- disgrifiadau modiwl pob modiwl sydd i'w ailddilysu ac unrhyw fodiwlau newydd;
- copïau o ffurflenni QA1 diweddar;
- copïau o adroddiadau arholwyr allanol diweddar;
- copi o'r Archwiliad Ansawdd Mewmol mwyaf diweddar sy'n berthnasol i'r rhaglenni;
- copïau o lawlyfrau cwrs.

Mae'r Panel Ailddilysu yn mynd ati i graffu'n fanwl ar y dogfennau ac yn cwrdd â thîm y cwrs i drafod y cyflwyniad a cheisio eglurhad ar unrhyw faterion yn ôl y gofyn. Mewn sawl ystyr mae'r broses yn union yr un peth â'r broses cymeradwyo rhaglenni er yn yr achos hwnnw mae'r pwyslais yn fwy ar y rhesymeg dros newidiadau a sail y newidiadau a gynigiwyd, eu heffaith ar fyfyrwyr a chwricwla. Fel yn achos y drefn cymeradwyo rhaglenni caiff y trefniadau hyn eu rheoli a'u cydlynu'n ganolog gan y Gofrestrfa Academaidd. Mae gofyn i Aseswyr Allanol lenwi adroddiad cryno ar ol pob digwyddiad ailddilysu ac ystyrir yr adroddiadau hyn gan y Swyddog Sicrhau Ansawdd - Dilysu. Paratoir adroddiad blynyddol ar weithgarwch ailddilysu, sy'n tynnu

sylw at unrhyw bryderon generig neu benodol ac fe'i hystyriir gan y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu.

Mae digwyddiadau archwilio, dilysu ac ailddilysu hefyd yn rhoi cyfleoedd i staff drafod yn anffurfiol ymysg ei gilydd ac yn y modd hwn caiff y prosesau hyn eu mireinio a'u gwella. Mae'r brifysgol yn cydnabod bod peth dyblygu'n digwydd rhwng yr Archwiliad Ansawdd Mewnol a'r digwyddiadau ailddilysu ac mae'n ymchwilio ar hyn o bryd i'r posibilrwydd o gyfuno'r rhain. Fel arbrawf dechreuol cyfunwyd y broses archwilio a'r broses ailddilysu cyrsiau yn y Ganolfan Saesneg i Fyfyrrwyr Tramor yn 2010/11. Ailadroddir yr arbrawf hwn yn yr Ysgol Cerddoriaeth yn 2011/12.

Mae'r brifysgol yn ystyried bod ei systemau archwilio, monitro, adolygu ac ailddilysu'n rhannau allweddol bwysig o'i phroses sicrhau ansawdd a safonau. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar dystiolaeth, yn dreiddgar ond yn gefnogol, yn llym ond yn adeiladol. Gwneir defnydd helaeth o bwyntiau cyfeirio allanol ac arbenigwyr pwnc a staff mewnol profiadol nad ydynt yn rhan o'r ysgol sy'n cyflwyno. Hefyd yn sgil y prosesau hyn gall y brifysgol arfarnu ei systemau cynnal a gwella ansawdd a safonau'n barhaus.

3.6 DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG

Fel y dywedwyd mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y brifysgol wedi ehangu yn y blynyddoedd diweddar. Mae arweiniad ar asesu a safoni gwaith myfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan o'r Cod Ymarfer Asesu. Mae tua 200 o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn dilyn proses benodi addas, a defnyddir staff cyfrwng Cymraeg yn y prosesau Sicrhau Ansawdd (e.e. ar baneli cymeradwyo, archwiliadau ansawdd mewnol etc.) Ers 2007 pan gafodd y brifysgol statws prifysgol annibynnol, mae wedi gallu gwahodd arholwyr allanol o sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru. Nid oedd hyn yn bosib pan ddyfarnwyd graddau Prifysgol Cymru.

3.7 ACHREDIAD GAN ASIANTAETHAU ALLANOL

Mae cyrsiau mewn Addysg, Iechyd, Seicoleg, y Gyfraith a Gwaith Cymdeithasol y mae angen i Gyrrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio eu hachredu ³⁸ a chraffu arnynt yn amodol ar ofynion ychwanegol yn unol ag amserlenni a threfniadau'r corff proffesiynol. Mae gofynion monitro ac adrodd y gwahanol gyrrff hyn yn amrywio, fel ei bod yn bosib mewn rhai achosion ddal digwyddiadau dilysu ac ailddilysu ar y cyd, a dro arall nid yw'n bosib.

Mae'r cyrrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio yn sicrhau bod safonau a chynnwys rhaglenni prifysgol perthnasol wedi eu gosod ar y lefel gywir ac yn cwrdd â gofynion proffesiynol fel bod graddedigion yn 'addas i ymarfer' yn eu maes dewisol. Mae'r cyrrff perthnasol hefyd yn cynnig ffordd ychwanegol, annibynnol a phwysig o wirio ansawdd a safonau.

Caiff adroddiadau arolygiadau ac adolygiadau gan Gyrrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio eu derbyn yn y Gofrestrfa Academiaidd a'u hystyried gan y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu. Ymdrinnir ag unrhyw faterion neu bryderon difrifol sy'n codi fel y bo'n briodol, fel arfer trwy swyddfeydd y Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu), y Dirprwy Gofrestrydd neu'r Cofrestrydd fel y bo'n briodol.

Mae llawer o ysgolion yn y brifysgol wedi ceisio ac wedi cael achrediad proffesiynol i'w rhaglenni academiaidd er mwyn codi safonau a hybu cyflogadwyedd graddedigion. Cânt eu cefnogi yn y broses hon gan staff y Gofrestrfa Academiaidd ac adroddir am unrhyw gyrsiau a achredir i'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu.

3.8 ARHOLWYR ALLANOL

3.8.1 Rhaglenni hyfforddedig

Mae'r brifysgol yn credu bod y system arholwyr allanol yn parhau i chwarae rhan allweddol bwysig mewn sicrhau ansawdd a safonau. Manylir ar hyn yn y Cod Ymarfer Arholwyr Allanol.³⁹ Cymeradwyir penodiadau arholwyr allanol gan Gadeirydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu, ar ôl eu henwebu gan yr ysgol berthnasol, ac anfonir llythyrau penodi ffurfiol gan y Gofrestrfa Academaidd.

Cred y brifysgol fod y broses benodi'n gweithio'n effeithiol ac yn hybu annibyniaeth ac asesu diduedd, gan sicrhau bod arbenigwyr yn y pynciau academaidd dan sylw'n cael eu penodi.⁴⁰ Mae gofyn i bob ysgol gydymffurfio â rheolau dewis arholwyr allanol. Caiff y ffurflen enwebu ei llenwi, ei llofnodi gan bennaeth yr ysgol a'i hanfon i'r Gofrestrfa Academaidd i'w phrosesu. Rhestr wirio yw'r cwestiynau ar y ffurflen enwebu sy'n dangos a ydyw'r enwebai'n cwrdd â meini prawf dewis y brifysgol ai peidio. Mae'r Gofrestrfa Academaidd hefyd yn cynnal gwiriadau ychwanegol i sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn gywir, er enghraifft, trwy wirio statws yr enwebai a sicrhau nad oes dim penodiadau cilyddol. O bryd i'w gilydd gwelir wrth wirio bod pethau ar goll neu'n anghywir yn y ffurflen enwebu. Os felly gellir gofyn i ysgolion ddarparu gwybodaeth ychwanegol a chaiff yr enwebiad ei ystyried gan Gadeirydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu.

Lle gwyddys nad yw'r enwebai'n cwrdd â'r meini prawf dewis, mae gofyn i'r ysgol ddarparu CV cryno a datganiad cefnogi gan bennaeth yr ysgol. Ystyrir pob achos o'r fath gan y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu. Bob blwyddyn gwrthodir nifer fechan o enwebiadau.

Un o gryfderau'r broses benodi yw bod y Gofrestrfa Academaidd yn craffu ar bob enwebiad. Mae hyn yn bell o fod yn ymarfer mewn enw, a chaiff ysgolion eu herio'n rheolaidd ar faterion yn ymwneud ag enwebiadau.

Mae'r brifysgol yn cynnal diwrnod cynefino i arholwyr allanol newydd ar raglenni hyfforddedig yn yr hydref⁴¹. Argymhellir yn gryf bod arholwyr newydd yn dod i'r digwyddiad hwn ond nid yw'n orfodol. Cyfeirir y rhai sy'n methu bod yn bresennol at gyflwyniadau Diwrnod Cynefino 2009 sydd ar wefan y brifysgol:

<http://www.bangor.ac.uk/ar/main/quality/inductionCD/index.htm>

Mae gofyn i bob arholwr allanol ar raglenni hyfforddedig ysgrifennu adroddiad⁴² (cyn cael tâl), a chaiff pob adroddiad gan arholwr allanol ei dderbyn a'i adolygu gan y Cofrestrydd Cynorthwyol (Sicrhau Ansawdd) yn y Gofrestrfa Academaidd. Crynhoir y negeseuon allweddol yn yr adroddiadau (y rhai cadarnhaol a'r rhai negyddol) gan y Cofrestrydd Cynorthwyol (Sicrhau Ansawdd) a'u hystyried gan y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu⁴³. Gwrandewir ar awgrymiadau a beirniadaethau a gweithredir arnynt. Trosglwyddir unrhyw faterion brys i Gadeirydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu, sy'n eu trafod gyda phennaeth yr ysgol. Os oes angen, tynnir sylw'r Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu) at y pryderon hefyd. Disgwylir i ysgolion fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir gan eu harholwr allanol yn y Cynllun Adolygu a Datblygu Blynyddol perthnasol. Os yw'r broblem yn un sylweddol iawn, gall y Grŵp Tasg ofyn i ysgol weithredu ar fyrder a rhoi ymateb ynghyd â thystiolaeth ei bod wedi cymryd camau gweithredu priodol⁴⁴.

Mae'r brifysgol yn symud ar hyn o bryd tuag at system o ddelio ag Adroddiadau Arholwyr Allanol ar y we⁴⁵. Mae hyn yn rhannol mewn ymateb i adroddiad diweddar gan yr UUK ar Arholwyr Allanol ac yn rhannol er mwyn

gwneud prosesau mewnol yn fwy effeithlon. Mae'r ffurflen ddiwygiedig yn symlach o ran ei diwyg a bydd yn hwyluso prosesau adolygu ac adrodd trwy ganiatáu trosglwyddo gwybodaeth yn electronig. Mae'n ymgorffori'r arweiniad ym Mhennod B7 o God Ansawdd y QAA: Arholi allanol

Mae'r brifysgol yn barnu ei bod yn briodol bod yr elfennau allweddol o adroddiadau arholwyr allanol ar gael i fyfyrwyr ond mae'n derbyn nad yw hyn wedi bod yn wir bob amser. Bydd menter newydd i sicrhau bod hyn yn digwydd o fewn strwythurau ysgolion yn cael ei chyflwyno yn 2011/12.

Cred y brifysgol bod sylwadau arholwyr allanol bron yn ddieithriad yn gadarnhaol, a cheir cyfeiriadau mynych at safonau academaidd uchel, ac at gefnogaeth a gofal bugeiliol effeithiol i fyfyrwyr. Mae arholwyr allanol yn aml yn darparu awgrymiadau adeiladol ynghylch y cwricwlwm ac ynghylch trefniadau asesu (marcio categorïaidd etc.) Cred y brifysgol bod eu dadansoddiadau'n gwneud cyfraniad allweddol i sicrhau ansawdd a safonau.

3.8.2 Graddau Ymchwil

Mae'r system arholi graddau ymchwil yn allanol yn ddrych o'r system graddau israddedig ac ôl-raddedig hyfforddedig. Mae gofyn i arholwyr allanol myfyrwyr gradd ymchwil lenwi cyfres o 3 ffurflen ganlyniadau ac adrodd⁴⁶, gan adrodd ar y traethawd ymchwil, yr arholiad viva voce a'r canlyniad, a chan roi sylwadau ar y broses arholi'n gyffredinol. Adolygir y ffurflenni adrodd gan y Cofrestrydd Cynorthwyol (Sicrhau Ansawdd) ac ystyrir crynodeb gan y Grwp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu. Fel rheol, mae arholwyr allanol yn cyflwyno dadansoddiad manwl o waith ymgeiswyr a'u rhesymau dros ddyfarnu'r canlyniad a roddwyd. Mae llawer yn disgrifio'r broses arholi fel un deg, briodol, drefnus neu wedi ei rheoli'n dda. Bydd arholwyr allanol yn aml yn tynnu sylw at y ffaith bod cadeirydd yn bresennol yn yr arholiad viva voce fel elfen o ymarfer da.

3.9 ASTUDIO'N RHAN AMSER

Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i gefnogi myfyrwyr rhan amser er nad yw'r ddarpariaeth sydd ar gael yn eang. Gall myfyrwyr astudio'n rhan amser yn y rhan fwyaf o ysgolion ar lefel israddedig neu ôl-raddedig, ond dim ond nifer cymharol fach sy'n gwneud hynny. Mae rhai ysgolion yn cynnig rhaglenni penodol sydd wedi eu teilwra i anghenion penodol myfyrwyr rhan amser e.e. MA/MEd a'r cyrsiau ôl-gofrestru yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd.

Mae'r Ysgol Dysgu Gydol Oes yn arbenigo mewn darparu cyrsiau rhan amser wedi eu hanelu at oedolion. Mae cynnig graddau anrhydedd BA rhan amser mewn Astudiaethau Cymdeithasol, Astudiaethau Cyfun a Chelfyddyd Gain, Gradd Sylfaen mewn Datblygu Cymunedol ac Astudiaethau Camddefnyddio Cyffuriau a Rhaglenni Ôl-radd Mewn Astudiaethau Menywod a Datblygu Cymunedol. Mae cynigion yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i ddilysu tair rhaglen radd ran amser ar gyfer 2012 - BA Dyniaethau, BA Astudiaethau Seicogymdeithasol mewn Defnyddio Sylweddau ac MA mewn Celfyddyd Gain. Hefyd mae'r ysgol yn cynnig modiwl annibynnol 10 neu 20 credyd ar lefel 4. Mae myfyrwyr sy'n llwyddo i gwblhau 120 o gredydau'n gymwys i gael Tystysgrif Astudiaethau Agored. Wrth i ffioedd godi mae niferoedd myfyrwyr wedi gostwng mewn blynyddoedd diweddar - yn 2008-09 cofrestrwyd 173 o fyfyrwyr ar raddau cyntaf rhan amser ond yn 2011/12 cofrestrwyd 141⁴⁷.

Mae prif ganolfan yr ysgol ym Mangor ac mae 6 o staff llawn amser ac amrywiaeth o staff rhan amser yn cynnig rhaglenni drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a gyflwynir mewn cymunedau a gweithleoedd ar draws gogledd Cymru. Gall myfyrwyr ddilyn ychydig o gyrsiau ar-lein hefyd a dyma un maes mae'r ysgol yn ceisio ei

ddatblygu fel rhan o'i hymgais i gynnig darpariaeth ran amser hyblyg trwy ddulliau dysgu cyfunol. Mae'r Ysgol Dysgu Gydol Oes yn gweithio hefyd gyda nifer o bartneriaid, yn cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau statudol a gwirfoddol a grwpiau cymunedol ar draws Gogledd Cymru. Maent yn cydweithio'n agos hefyd â sefydliadau partner megis Coleg Llandrillo a Phrifysgol Glyndŵr, yn ogystal â'r Ganolfan Rheolaeth a'r Ysgol Busnes yn fewnol yn y bartneriaeth "Elevate Cymru" i hyrwyddo a datblygu cyrsiau i fusnesau bach a chanolig.

Mae'r Ysgol Dysgu Gydol Oes yn credu'n gryf, fel y brifysgol yn gyffredinol, ei bod o'r pwys mwyaf bod myfyrwyr yn cael cefnogaeth trwy gydol eu hamser yn y Brifysgol. Caiff myfyrwyr gradd diwtor personol ac mae myfyrwyr sy'n astudio modiwlau byr yn y gymuned hefyd yn gallu cael cefnogaeth, help a chynghor gan staff Dysgu Gydol Oes llawn amser sy'n wybodus ac yn cydymdeimlo ag anghenion y myfyriwr hŷn. Hefyd darperir cynghor cynhwysfawr i fyfyrwyr hŷn rhan amser ar ffioedd, nawdd a chyffleoedd am fwrsariaethau. Cynigir modiwl sgiliau astudio i fyfyrwyr israddedig newydd a sesiynau galw heibio i fyfyrwyr o'r ail flwyddyn ymlaen. Rhennir yr arbenigedd hwn ar draws y brifysgol hefyd, ac mae sesiynau galw heibio ar sgiliau astudio ar gael i'r holl israddedigion, a chysylltir ag ysgolion eraill i drafod anghenion dysgu myfyrwyr hŷn rhan amser.

Mae'r ysgol yn cydymffurfio hefyd â Chodau Ymarfer, Rheolau a Rheoliadau'r brifysgol ac mae'n ddarostyngedig i'r un trefniadau ansawdd caeth ag ysgolion eraill yn y brifysgol.

3.10 DYSGU HYBLYG A GWASGAREDIG

3.10.1 Darpariaeth Dysgu o bell

Dim ond dau gymhwyster a gyflwynir yn y brifysgol trwy ddysgu o bell yn unig, sef MSc mewn Coedwigaeth⁴⁸ ac MBA Banciwr Siartredig⁴⁹ yn Ysgol Busnes Bangor.

Yn fras, mae'r ddau gwrs yn cynnig cyfuniad o ddarllen a gwybodaeth gyfeiriedig ar-lein, ynghyd â gweithdai wyneb yn wyneb neu ysgolion haf. Mae myfyrwyr yn derbyn adborth ar asesu ffurfiannol a chrynodol. Mae'r rhaglenni hyn yn ddarostyngedig i'r un trefniadau adrodd a phrosesau Sicrhau Ansawdd ag unrhyw raglen arall.

3.10.2 'Canolfan Llundain'

Mae Ysgol Busnes Bangor wedi ymateb i angen a fynegwyd gan ymgeiswyr rhyngwladol ac yn cynnig rhaglenni Meistr yn ei Chanolfan yn Llundain. Cyflwynir y rhaglenni hyn gan academyddion o Fangor. Mae Canolfan Llundain wedi ei lleoli yn Nhŵr Broadgate ar Primrose Street. Dechreuodd y myfyrwyr cyntaf ym mis Medi 2011. Mae Ysgol Busnes Bangor wrthi'n recriwtio ail garfan o fyfyrwyr i ddechrau ym mis Ionawr 2012. Adeg ysgrifennu mae 37 o fyfyrwyr wedi eu cofrestru, ac mae 2 aelod staff yn edrych ar eu hól yng Nghanolfan Llundain, sef y Cyfarwyddwr Astudiaethau a'r Rheolwr Gweinyddol.

Ym mis Hydref 2011 daeth y Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu) ynghyd â'r Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr a Phennaeth y Llyfrgell a TG i ymweld â Chanolfan Llundain i sicrhau bod y gyfundrefn yn cwrdd â disgwyliadau'r myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar y cyrsiau.

Ym maes dysgu gwasgaredig mae'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu yn bwriadu monitro gweithgareddau. Bydd angen adolygu'r Cod Ymarfer presennol er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n addas i'r pwrpas.

3.11 GWYBODAETH REOLI

3.11.1 Dangosyddion Perfformiad

Mae'r Swyddfa Cynllunio ac Adnoddau'n darparu set o ddangosyddion perfformiad Sicrhau Ansawdd bob blwyddyn a dynnir o'r ffurflen HESA⁵⁰. Caiff y dangosyddion perfformiad hyn eu hystyried gan y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu a lle bo angen, gwahoddir ysgolion i ymateb i ystadegau anarferol. Cynhwysir y dangosyddion perfformiad hefyd ar ffurf electronig fel rhan o'r dogfennau cefnogol i archwiliadau ansawdd mewnol. Mae'r set ddata allweddol yn cynnwys yr elfennau canlynol Ystadegau Recriwtio, Proffil Poblogaeth Ysgol, Dosbarthiadau Graddau Cyntaf.

Cynhyrchwyd ystadegau dal gafael ar fyfyrwyr ac maent yn rhan o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gyflwynir i'r Cyngor bob chwarter. Hefyd yn gynnar yn y flwyddyn academaidd mae myfyrwyr sy'n gadael y brifysgol, a'u rhesymau dros wneud hynny yn cael eu monitro'n wythnosol a chaiff unrhyw bryderon eu hadrodd i'r Pwyllgor Gweithredu. Ond mae llunio data ystyrion sy'n dangos cyfraddau dal gafael ar fyfyrwyr o flwyddyn i flwyddyn, a gwahaniaethu rhwng myfyrwyr sy'n rhoi'r gorau iddi yn ystod y flwyddyn academaidd, a'r rhai hynny sy'n methu â symud ymlaen i'r cam nesaf o'u rhaglen astudio, wedi bod yn dipyn o her. Mae'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu yn gweld hyn fel maes pwysig i'w ddatblygu yn y dyfodol.

3.11.2 Setiau Gwybodaeth allweddol

Ar hyn o bryd mae'r brifysgol yn adolygu ei threfniadau er mwyn gallu cyhoeddi set o wybodaeth i fyfyrwyr yn unol â gofynion menter 'Set Gwybodaeth Allweddol' y Llywodraeth er mwyn sicrhau bod yr holl sefydliadau addysg uwch yn meddu ar wybodaeth hygyrch a thryloyw fydd ar gael i ddarpar-fyfyrwyr. Sefydlwyd Grŵp Llywio ac mae wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd. Cadeirir y grŵp gan y Cyfarwyddwr Cynllunio, ac mae'n cynnwys y Dirprwy Gofrestrydd, Pennaeth Recriwtio Myfyrwyr, ynghyd â chynrychiolwyr coleg, y Gofrestrfa Academaidd a'r Swyddfa Cynllunio ac Adnoddau. Gwnaed cynnydd sylweddol eisoes ac mae'r grŵp yn hyderus y bydd yn cwblhau'r gwaith cyn y dyddiad cau gofynnol.

3.11.3 Deunydd Recriwtio

Mae'r wybodaeth ar y wefan yn ymwneud â rhaglenni astudio yn cael ei pharatoi a'i chynnal gan adran Cyfathrebu a Marchnata'r brifysgol mewn cysylltiad â'r Gofrestrfa Academaidd ac ysgolion academaidd. Cyhoeddir y wybodaeth hon i roi arweiniad cyffredinol i fyfyrwyr sy'n cyrraedd y brifysgol ac nid yw'n rhan o unrhyw gontract a gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a gyhoeddir ar wefan y brifysgol. Tîm gwe'r brifysgol (sy'n cynnwys staff o'r adrannau Cyfathrebu a Marchnata a TG) sy'n dwyn y cyfrifoldeb cyffredinol am ddylunio, cysodi a rhedeg y wefan ac mae'n darparu gwasanaeth i ddiweddarau cynnwys y wefan yn Gymraeg a Saesneg. Pennaeth yr ysgol yn gyfrifol am gynnwys gwefan pob ysgol.

Adran Cyfathrebu a Marchnata'r brifysgol sy'n cymryd y cyfrifoldeb cyffredinol am gyhoeddi'r prospectws, ar y cyd ag ysgolion academaidd ac adrannau canolog eraill y brifysgol. Bydd ysgolion academaidd yn cynhyrchu deunydd recriwtio ar y cyd â'r Adran Cyfathrebu a Marchnata, a'r ysgol yn gyfrifol am y cynnwys sy'n gysylltiedig â phynciau astudio academaidd.

3.12 RHAGLENNI ADDYSG BROFFESIYNOL

3.12.1 Gofal iechyd

Mae trefniadau sicrhau ansawdd yr holl gyrsiau gwyddorau gofal iechyd yn dilyn patrwm tebyg i feysydd pwnc eraill. Cyflwynir y cyrsiau hyn mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yng ngogledd Cymru, ac â rhai ymddiriedolaethau yn Lloegr, sydd yn cynnig lleoliadau ymarfer i fyfyrwyr o Fangor.

Ystyrir bod y trefniadau cydweithredol hyn yn rhai risg isel. Cymeradwyir cyrsiau gan ddilyn trefniadau safonol y brifysgol ac mae cynrychiolydd o'r corff statudol neu reoleiddio perthnasol yn mynychu digwyddiadau dilysu ac ailddilysu, yn unol â'u gofynion. Mae'r trefniadau ar gyfer lleoliadau ymarfer yn cyflawni'r gofynion a ddiffinnir yng Nghod Ymarfer Dysgu ar Leoliad y brifysgol.⁵¹ Mae'r partneriaid yn darparu lleoliadau gwaith ac mae eu staff yn asesu addasrwydd myfyrwyr i ymarfer, fel arfer trwy asesu eu cymwyseddau yn erbyn meincnodau a meini prawf a ddiffinnir gan y corff statudol neu reoleiddio perthnasol. Cefnogir myfyrwyr gan fentor neu diwtor clinigol tra byddant yn y gweithle ac mae'r staff hyn yn cymryd rhan mewn cyrsiau paratoi cymeradwy a hyfforddiant gloywi blynyddol a ddarperir gan yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd i'w helpu i gyflawni eu swyddi. Ym mhob disgyblaeth mae perthynas weithio gref ac effeithiol rhwng y mentoriaid a'r tiwtoriaid yn yr ysbytai a'r staff cyfatebol yn y brifysgol.

Caiff y cyrsiau a'r modiwlau hyn eu monitro gan ddilyn trefniadau safonol y brifysgol. Mae cyfleoedd i fyfyrwyr roi adborth ar eu lleoliadau trwy gyfrwng holiaduron diwedd modiwl a'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr. Hefyd rhaid i'r cyrsiau hyn gael eu monitro'n flynyddol gan y cyrff statudol neu reoleiddio⁵², yn unol â'r trefniadau a ddiffinnir gan bob un. Caiff adroddiadau o adolygiadau monitro blynyddol cyrff proffesiynol eu cyflwyno a'u trafod o fewn ysgolion a llunnir cynllun gweithredu os oes angen. Caiff adroddiadau eu hystyried gan Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu'r brifysgol hefyd ac maent yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddir yn ystod prosesau archwilio ansawdd mewnol.

Yn ogystal ag adolygu gwaith ysgrifenedig myfyrwyr gwahoddir arholwyr allanol bob blwyddyn i ymweld â lleoliadau a chwrdd â detholiad o fyfyrwyr a mentoriaid.

3.12.2 Gwaith Cymdeithasol

Mae'r brifysgol wedi darparu hyfforddiant proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol mewn cydweithrediad ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol (wedi eu cymeradwyo gan Gyngor Gofal Cymru) am dros 40 mlynedd, i ddechrau fel DipSW/MA ôl-raddedig, ac yna ers 2005-6, fel BA mewn Gwaith Cymdeithasol. Fel ym meysydd iechyd ac addysg, mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi darparu lleoliadau i fyfyrwyr ac wedi asesu eu haddasrwydd i ymarfer.

Yn dilyn adolygiad yn 2010, a ysgogwyd gan anawsterau wrth gysoni'r agweddau academaidd a phroffesiynol yn y bartneriaeth rhwng y brifysgol a'r awdurdod lleol, mae'r brifysgol wedi dirwyn y rhaglen BA i ben. Mae wrthi ar hyn o bryd yn datblygu rhaglen ôl-raddedig mewn gwaith cymdeithasol.

Mae trafodaethau ar y gweill yn awr, gyda darparwyr lleoliadau lleol a Chyngor Gofal Cymru, a'r bwriad yw y bydd y brifysgol yn dilysu'r radd hon yn 2012.

3.12.3 Graddau Rhynglanw a Lleoliadau

Ar wahân i'r rhaglenni gradd ym meysydd iechyd, addysg a gwaith cymdeithasol mae nifer o raglenni gradd eraill y brifysgol yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr gael gwaith neu brofiad gwaith perthnasol arall. Yn achos cyrsiau ieithoedd modern mae hyn ar ffurf 'blwyddyn allan' mewn sefydliad partner cymeradwy tramor lle mae myfyrwyr yn cael cyfle i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth am iaith a diwylliant eu pwnc gradd.

Mae rhai graddau cyntaf ar gael ar ffurf graddau 'rhynglanw', lle mae myfyrwyr yn treulio amser y tu allan i'r brifysgol, fel arfer mewn gwaith cyflogedig. Mae nifer llai o raglenni'n cynnwys modiwl 'lleoliad gwaith'.

Rhaid cymeradwyo pob trefniant o'r fath wrth ddilysu rhaglen. Mae'n bosib ennill credydau mewn rhai lleoliadau. Diffinnir y drefn datblygu a chymeradwyo trefniadau unigol yng Nghod Ymarfer Dysgu ar Leoliad y brifysgol.

3.13 DARPARIAETH GYDWEITHREDOL

Mae'r Brifysgol wedi cymryd rhan mewn partneriaethau ers blynyddoedd lawer mewn meysydd lle mae hi'n darparu addysg a hyfforddiant proffesiynol - ym maes iechyd, gwaith cymdeithasol, seicoleg glinigol ac addysg. Mae'r trefniadau llwyddiannus hyn, er enghraifft gyda byrddau iechyd y GIG, ysgolion, etc., wedi galluogi myfyrwyr Bangor i ymgymryd â lleoliadau ymarfer mewn sefydliadau lleol a thrwy hynny gyflawni gofynion y cyrff rheoleiddio proffesiynol neu statudol perthnasol. Maent wedi darparu carfannau o raddedigion, llawer ohonynt yn siaradwyr Cymraeg, sydd erbyn hyn yn gwasanaethu'r cymunedau lle cawsant eu hyfforddi.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymateb i fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi eu hanelu at ehangu mynediad i addysg uwch a chynyddu darpariaeth addysg uwch mewn addysg bellach. Yn y 1990au, gwnaed hyn trwy sefydlu nifer bychan o drefniadau breiniol gyda cholegau addysg bellach lleol i gyflwyno rhaglenni HNC a HND a gymeradwywyd gan Fangor, dan drwydded gan Edexcel. Rhagwelwyd hefyd y byddai'r ddarpariaeth hon yn fodd o ehangu mynediad ac annog myfyrwyr i symud ymlaen i gyrsiau prifysgol, ond mewn gwirionedd, ychydig o hynny sydd wedi digwydd, ac nid yw'r Brifysgol yn rhagweld twf yn y maes hwn. Mae mwyafrif y cyrsiau hyn wedi eu terfynu erbyn hyn, ac o 2012, dim ond dau fydd yn parhau'n weithredol, fel rhan o strategaeth ryngwladoli'r Brifysgol.

Yn y gorffennol, cymerodd yr Ysgol Ddiwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol ran mewn cryn dipyn o weithgarwch cydweithredol, trwy ddwy ganolfan academaidd yn yr ysgol. Roedd y gyntaf, sef Canolfan Astudiaethau'r Weinidogaeth, yn cynnwys partneriaethau gydag esgobaethau trwy wahanol ranbarthau'r DU. Roedd yr ail, sef y Ganolfan Astudiaethau Pentecostaidd a Charismatig, yn cynnwys cysylltiadau gyda Choleg Mathersey Hall, Coleg Diwinyddol Regents a sefydliadau yn y Ffindir, Singapore, yr Almaen, yr Unol Daleithiau ac Ynysoedd y Philipinau. Yn dilyn 'archwiliad thematig' mewnol sylweddol o ddarpariaeth freiniol a chydweithredol yn 2008/9⁵³, penderfynodd Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol⁵⁴ y dylid eu terfynu. Rhoddwyd cytundebau terfynu yn eu lle gyda'r partneriaid hyn i gyd er bod y myfyrwyr oedd wedi cofrestru ar y pryd wedi cael cwblhau eu cyrsiau. Bydd y myfyrwyr olaf ar y rhaglenni hyn yn cwblhau eu cyrsiau yn 2012.

Yn 2012, derbyniodd Gyngor y Brifysgol (er o anfodd) gynnig Cymru gyfan wedi ei gefnogi gan HEFCW i derfynu rhaglenni gradd mewn Diwinyddiaeth ym Mangor a chyfuno addysgu israddedig ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Yn fwy diweddar, nododd Lywodraeth Cymru, yn ei dogfen strategol 'Trawsnewid Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru - Medi 2008' bod angen 'integreiddio'n llawnach waith ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch a darparwyr ôl-16 eraill, i drawsnewid y ffyrdd y cyflwynir darpariaeth addysg a hyfforddiant'. Roedd hefyd yn disgwyl i 'ddarparwyr dysgu ffurfio Partneriaethau Dysgu daearyddol a sectoraidd' – erbyn mis Tachwedd 2008. Fel y nodwyd eisoes, sefydlodd y Brifysgol gysylltiadau gyda choleg addysg bellach lleol, sef Coleg Llandrillo, ac ers hynny mae hi wedi dilysu rhaglenni yno.

Fel sefydliadau eraill, mae'r Brifysgol yn cymryd rhan mewn cynlluniau cyfnewid Ewropeaidd ac mae hi wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar wrth ennill cyllid allanol ar gyfer rhaglenni Meistr trawswladol gyda phrifysgolion yn Ewrop a gogledd America trwy'r rhaglen Erasmus Mundus. Mae hi hefyd yn cydweithredu gyda nifer bychan o asiantaethau lleol y mae eu haelodau staff yn cyflwyno modiwlau arbenigol ar rai rhaglenni galwedigaethol. Disgrifir y rhain isod.

3.13.1 Cymeradwyo a Monitro Darpariaeth Gydweithredol

Yng ngoleuni profiad ac mewn ymateb i gyhoeddi fersiwn diwygiedig adran 2 y Cod Ymarfer gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch, mae'r Brifysgol wedi cryfhau a ffurfioli ei gweithdrefnau cymeradwyo a monitro darpariaeth gydweithredol. Roedd y broses hon yn cynnwys:

1. diffinio rheolau i drefniadau partneriaeth a'r gweithdrefnau cymeradwyo a monitro sydd ynghlwm wrth bob un. Ymgorfforwyd y rhain yn fersiwn diwygiedig Cod Ymarfer Darpariaeth Gydweithredol a Llawlyfr Dilysu'r Brifysgol;
2. sefydlu Grŵp Craffu Partneriaethau allanol, wedi ei gadeirio gan y Dirprwy Is-ganghellor Addysgu a Dysgu, i ystyried pob cynnig partneriaeth a sicrhau cysondeb o ran prosesau mewnol a gwneud penderfyniadau;
3. sefydlu dwy swydd weinyddol ym maes sicrhau ansawdd er mwyn galluogi'r Brifysgol i gadw golwg ganolog a chadarn ar ei darpariaeth gydweithredol.

Disgrifir gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer sefydlu a chymeradwyo rhaglenni cydweithredol yng Nghod Ymarfer Darpariaeth Gydweithredol a'r Llawlyfr Dilysu; Ceir rhestr o bartneriaethau gweithredol yn y Gofrestr Ddarpariaeth Gydweithredol⁵⁵. Mae nodi, dadansoddi a rheoli risg yn ganolog i'r gweithdrefnau diwygiedig. Mae pob modiwl a phob cwrs ym Mhrifysgol Bangor sydd ynghlwm wrth bartneriaeth wedi ei gymeradwyo ac yn cael ei fonitro'n unol â gofynion Cod Ymarfer ar gyfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni neu Lawlyfr Dilysu'r Brifysgol ac maent i gyd yn ddarostyngedig i ofynion arholi allanol.

Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi'r prif drefniadau sicrhau ansawdd sy'n berthnasol i'r gwahanol fathau o bartneriaeth.

3.13.2 Cytundebau Cydweddu

Mae cytundebau cydweddu yn caniatáu i fyfyrwyr sydd wedi cwblhau cynllun astudio diffiniedig mewn sefydliad partner cymeradwy symud ymlaen i lefel 6, ac yn eithriadol i lefel 7, ar gwrs gradd yn y Brifysgol. Dan reoliadau'r Brifysgol, mae'r wybodaeth a ddefnyddir i bennu dosbarth gradd myfyriwr yn seiliedig ar y marciau a geir ar lefel 5 a 6. Pan fydd myfyriwr yn symud ymlaen yn syth i lefel 6, mae dosbarth y radd yn seiliedig ar farciau lefel 6 yn unig. O'r herwydd, mae'r Brifysgol yn cydnabod bod yr ail o'r ddau yn peri mwy o risg na'r cyntaf, ac mae'n cymryd camau i leihau'r risg gymaint â

phosib trwy fapio'r cyrsiau yn y sefydliad partner yn erbyn y modiwlau y byddai'r myfyrwyr wedi eu hastudio yn y Brifysgol.

Am nifer o flynyddoedd, sefydlwyd cytundebau cydweddu fesul achos yn dilyn trafodaeth rhwng yr ysgol ac adran dderbyniadau'r Gofrestrfa Academaidd. Ond adolygwyd y sefyllfa hon yn ofalus wrth inni ystyried ein strategaeth ryngwladol, ac yn dilyn y cyfarwyddyd estynedig a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch. Datgelodd hyn rywfaint o anghysondebau yn hyd a manylebau'r cytundebau ac yng ngwybodaeth y Brifysgol am ei phartneriaid ac am y cyrsiau y byddai myfyrwyr yn eu hastudio yn y sefydliadau hynny.

Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau yn yr haf 2011, cymerir camau yn awr i alluogi'r Brifysgol i gryfhau ei gweithdrefnau a sefydlu man cychwyn a set safonedig o ddogfennau ar bob partneriaeth. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

1. Asesiad risg ac adroddiad diwydrwydd dyladwy ar y sefydliad partner
2. Mapio'r cyrsiau y mae'r myfyrwyr yn eu cwblhau yn y sefydliad partner yn erbyn y modiwlau y byddai'r myfyrwyr wedi eu hastudio ym Mangor a deilliannau dysgu'r rhaglen
3. Cytundeb cydweddu⁵⁶ safonedig y mae'n rhaid i'r Dirprwy Is-ganghellor Addysgu a Dysgu ei lofnodi. Mae hyn yn rhoi manylion y cydweithio, yn cynnwys enwau'r unigolion yn y ddau sefydliad sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar y bartneriaeth. Mae disgrifiadau o'r modiwlau y mae'r myfyrwyr yn eu hastudio yn y sefydliad partner ynghlwm wrth y cytundeb, ynghyd â'r cynlluniau marcio a'r rheolau symud ymlaen. Mae'r cytundeb hefyd yn rhoi manylion am y safonau sy'n rhaid i'r myfyrwyr eu cyrraedd cyn symud ymlaen, gan gynnwys unrhyw ofynion iaith Saesneg.

Mae myfyrwyr sy'n dod i'r Brifysgol dan gytundeb cydweddu yn cyrraedd ar ddechrau'r Wythnos Groeso ac felly maent yn mynd trwy'r un prosesau cynefino â myfyrwyr y flwyddyn gyntaf. Mae'r Ysgol Busnes, sydd â'r nifer fwyaf o gytundebau, wedi penodi Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Rhyngwladol yn ddiweddar i roi cefnogaeth ychwanegol i fyfyrwyr tramor yr ysgol. Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2011/12, newidiodd y Brifysgol ei system gofnodion myfyrwyr er mwyn hwyluso'r broses o olrhain perfformiad y myfyrwyr hyn ym Mangor a darparu gwybodaeth yn ôl i staff yr ysgolion a'r partneriaid.

3.13.3 Cymwysterau Deuol

Mae'r Brifysgol yn cymryd rhan mewn pedwar cynllun cymhwyster deuol ar hyn o bryd. Mae'r cynlluniau hyn i gyd yn para am gyfnod penodedig ac maent yn gysylltiedig â chyllid grant allanol a enillwyd trwy broses gystadleuol. Maent i gyd yn gysylltiedig â phartneriaid pwysig yn Ewrop a Gogledd America. Mae myfyrwyr yn cwblhau nifer diffiniedig o gredydau yn y sefydliad partner ac yna caiff y credydau eu trosglwyddo i Fangor. Mae'n rhaid i'r Brifysgol gymeradwyo'r sefydliad partner a mapio'r cwricwlwm y bydd y myfyrwyr yn ei astudio yn erbyn y modiwlau y byddai'r myfyrwyr wedi eu hastudio ym Mangor a deilliannau'r rhaglen. Mae rheoliadau'r Brifysgol ar gyfer rhaglenni ôl-radd hyfforddedig yn diffinio uchafswm y credydau y gellir eu trosglwyddo. Yn y cynlluniau hyn, caiff modiwlau a thraethodau Prifysgol Bangor eu marcio gan staff y Brifysgol a'u goruchwylio gan yr arholwr allanol a benodir gan Brifysgol Bangor.

3.13.4 Graddau a Ddyfernir ar y Cyd

Dim ond dwy radd ar y cyd a gynigir gan y Brifysgol, sef cynllun PhD rhwng Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth gyda'r Ganolfan Addysg Uwch ac Ymchwil mewn Amaethyddiaeth Drofannol (CATIE) yng Nghosta Rica⁵⁷ a PhD gyda Phrifysgol Bologna⁵⁸. Mae deng myfyriwr wedi ennill doethuriaeth dan gynllun CATIE ers ei sefydlu rhai blynyddoedd yn ôl. Adolygwyd y rhaglen gan y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu yn 2010/11. Sefydlwyd y cynllun gyda Phrifysgol Bologna yn y Gofrestrfa Academaidd ac ar hyn o bryd mae un myfyriwr PhD wedi ei gofrestru ar y cynllun.

3.13.5 Cytundebau Breiniol

Fel y nodwyd eisoes, o 2012/13 dim ond dwy raglen freiniol (gyda llai na 35 o fyfyrwyr i gyd) sy'n parhau yn weithredol. Yn y ddau achos, mae'r rhaglen yn y sefydliad partner yn gysylltiedig ag ysgol academaidd gytras yn y Brifysgol. Rheolir y cyswllt gan fwrdd rhaglen ar y cyd, gyda chynrychiolwyr o'r ddau sefydliad a chadeirydd sy'n uwch aelod o'r ysgol, sy'n adrodd i fwrdd astudiaethau'r ysgol. Goruchwylir y ddarpariaeth yn ganolog gan yr Uned Sicrhau Ansawdd a Dilysu. Cymeradwywyd y rhaglen trwy drefn arferol y Brifysgol, ond roedd y drefn hefyd yn cynnwys ymweliad â'r sefydliad partner i adolygu'r cyfleusterau sydd ar gael i gefnogi'r rhaglen. Mae'n rhaid i'r ysgol ym Mangor gymeradwyo'r holl staff dysgu yn y sefydliad partner a chedwir copiâu o'u CVs ar ffeil. Caiff y rhaglenni eu cyflwyno a'u monitro'n unol â gweithdrefnau a ddiffiniwyd yn rheoliadau'r Brifysgol ar gyfer rhaglenni HNC/D. Penodir arholwyr allanol gan y Brifysgol ac maent yn adrodd yn uniongyrchol i'r Brifysgol. Yn ogystal â hyn, mae'n ofynnol bod y Brifysgol yn rhoi adroddiad monitro blynyddol⁵⁹ i brif arholwr Edexcel. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn nodi bod safonau academaidd y cymwysterau hyn yn gyson â'r rhai sydd mewn grym yn genedlaethol ac maent wedi canmol y gefnogaeth fugeiliol a ddarperir i fyfyrwyr gan staff y sefydliad partner.

Mae adborth gan y byrddau rhaglen ar y cyd a'r dystiolaeth a gasglwyd mewn archwiliadau ansawdd mewnol yn nodi bod y trefniadau cydweithredol hyn yn gweithio'n eithaf da ar y cyfan, ond bod lle i wella'r cyfathrebu rhwng y partneriaid, ac yn benodol rhwng yr ysgol academaidd a'r coleg AB. Mae penodi swyddog sicrhau ansawdd yn 2011 i ymdrin yn benodol â phartneriaethau wedi hwyluso hyn ac wedi galluogi'r Brifysgol i sicrhau bod y rhaglenni hyn yn cael mwy o oruchwyliaeth ganolog.

3.13.6 Dilysu Allanol

Mewn ymateb i fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru a nodwyd uchod, mae'r Brifysgol wedi dilysu rhaglenni gradd sylfaen a rhaglenni gradd anrhydedd yng Ngholeg Llandrillo'n ddiweddar (a ddilyswyd cyn hynny gan Brifysgol Cymru)⁶⁰. Roedd y broses gymeradwyo yn cynnwys dau gam, y cyntaf i alluogi Coleg Llandrillo fel sefydliad i ddyfarnu graddau Prifysgol Bangor, ac yr ail i ddilysu'r rhaglenni gradd unigol.

Roedd cam 1 yn cynnwys ystyried trefniadau llywodraethu a rheoli Coleg Llandrillo a'i weithdrefnau o ran sicrhau a gwella ansawdd, asesu myfyrwyr, hybu dysgu a chefnogaeth myfyrwyr (yn cynnwys mynediad a symud ymlaen). Ystyriodd y tîm adolygu hefyd ei gysylltiadau â chymheiriaid academaidd a phroffesiynol a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi rhaglenni. Roedd y broses gymeradwyo yn cynnwys craffu ar ddogfennau ac ymweliad â'r sefydliad. Cadeirydd Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu'r Brifysgol oedd cadeirydd y panel cymeradwyo ac roedd y panel hefyd yn cynnwys un aelod allanol. Cam 2 oedd y gwaith o ddilysu rhaglenni unigol, ac roedd hynny'n cynnwys aseswyr allanol i bob cymhwyster.

O ddechrau'r datblygiad hwn, roedd y Brifysgol yn ymwybodol bod Coleg Llandrillo eisoes yn meddu ar brofiad sylweddol o weithredu rhaglenni AU trwy gysylltiadau gyda sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru a bod hynny wedi cael ei ganmol yn Adolygiad Datblygiadol Cymru yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch ym mis Mehefin 2008. Ond, cydnabu hefyd bod mwy o risgiau'n gysylltiedig â dilysu allanol na rhaglenni breiniol a threfniadau trosglwyddo credydau. Felly, ar yr un pryd â hyn, datblygodd y Brifysgol 'llawlyfr dilysu'. Cymeradwywyd y llawlyfr gan Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd ym mis Ionawr 2011. Mae'r llawlyfr yn disgrifio'n fanwl y gweithdrefnau y mae rhaglenni dilysedig yn gweithredu oddi tanynt, gan gynnwys y canlynol:

- Rheolaeth y Brifysgol o ddarpariaeth ddilysedig
- Cymeradwyo sefydliadau i gyflwyno rhaglenni dilysedig
- Dilysu rhaglenni
- Rheoli rhaglenni dilysedig
- Penodi safonwyr a'u swyddogaeth
- Arholwyr allanol
- Gwella ansawdd
- Sicrhau ansawdd
- Derbyn myfyrwyr, cofrestru a therfynu astudiaethau
- Rheoliadau academiaidd
- Asesu
- Cefnogaeth a chyfarwyddyd i fyfyrwyr
- Llais/cynrychiolwyr myfyrwyr
- Cymwysterau a thystysgrifau
- Cytundeb a threfniadau ariannol
- Rheoli data a chofnodion

Goruchwylir yr holl raglenni gan safonwyr ac arholwyr allanol a benodir gan y Brifysgol.

Yn 2011, cafodd argymhelliad a ragfynegwyd yn strategaeth addysg ryngwladol y Brifysgol ei gymeradwyo gan Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol - gyda chefnogaeth Cyngor y Brifysgol - sef y dylid ystyried cynigion i ddilysu rhaglenni tramor, yn amodol ar amodau llym. Mae'r amodau hyn yn cynnwys diwidrwydd dyladwy o ran y sefydliad dan sylw, a gweithdrefnau sicrhau ansawdd cadarn iawn. Cyn ystyried unrhyw gynigion, mae'r Brifysgol yn bwriadu dysgu gan y sefydliadau sydd wedi ymgymryd yn llwyddiannus â 'dilysu rhyngwladol', er mwyn cadw arfer gorau yn y DU mewn cof a chryfhau'r gweithdrefnau dilysu'n unol â hynny. Crybwyllwyd partneriaethau posib eisoes, ond nid oes unrhyw gynigion ffurfiol wedi eu hystyried eto.

3.13.7 Darpariaeth gydweithredol yng nghyd-destun y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Sefydlwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i "helaethu, datblygu ac ehangu'r amrywiaeth o gyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhrifysgolion Cymru." Cyflawnir hyn trwy hwyluso cydweithredu rhwng sefydliadau, trwy gyllido datblygiad rhaglenni a thrwy gyfrannu at hyfforddi staff dysgu newydd. Nid oes gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol bwerau dyfarnu graddau na'r awdurdod i gyflwyno modiwlau â chredydau yn ei enw ei hun. Prifysgolion Cymru sydd â'r cyfrifoldeb o ddyfarnu graddau a chymeradwyo cyrsiau a modiwlau. Mae pob prifysgol yn gyfrifol am sicrhau ansawdd ei rhaglenni, yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a hwylusir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'n rhaid i unrhyw fodiwl a gynigir dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gael ei gymeradwyo gan bob sefydliad sy'n cymryd rhan (gan

gynnwys, lle bo'r angen, gweithdrefnau'r sefydliadau ar gyfer partneriaethau cydweithredol). Mae'n rhaid i bob prifysgol sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth a hwylusir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r deilliannau dysgu sy'n rhaid i fyfyrwyr eu cyflawni. Mae'n rhaid i bob darpariaeth hefyd gydymffurfio â gofynion a disgwyliadau pob prifysgol. Mae pob prifysgol hefyd yn gyfrifol am les a chefnogaeth ei myfyrwyr ei hun. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn darparu porth ar y we ('Y Porth') a gall myfyrwyr o amryw o sefydliadau gael mynediad at adnoddau dysgu ar y cyd trwyddo, ond y sefydliadau a gymeradwyodd y modiwlau sy'n gyfrifol am gynnwys ac ansawdd y deunydd sydd ar gael.

3.14 CWRICWLA CYFFREDIN

Mae'r Brifysgol yn gweithredu dwy raglen – Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon a Thystysgrif Ôl-radd mewn Cyfieithu – sydd â chwricwla cyffredin a ddysgir ym Mhrifysgol Bangor a phrifysgol arall yng Nghymru. Yn y ddau achos, mae myfyrwyr yn derbyn cymhwyster gan y sefydliad y maent wedi eu cofrestru ynddo. Oherwydd natur a strwythur y trefniadau partneriaeth, nid ydym yn ystyried bod risg uchel ynghlwm wrth y mentrau hyn.

3.14.1 Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon

Agorwyd Canolfan Hyfforddi Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru ym mis Medi 2010. Mae hi'n un o dair canolfan debyg yng Nghymru ac yn fenter ar y cyd rhwng prifysgolion Aberystwyth a Bangor i reoli a chyflwyno addysg gychwynnol gydweithredol i athrawon yng ngogledd a chanolbarth Cymru. Sefydlwyd y ganolfan newydd i gydymffurfio ag agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Ail-gyflunio Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon (HAGA) yng Nghymru, ac yn dilyn argymhellion Adolygiad Furlong ar Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru (2006). Mae'n rhan o gynghrair strategol ehangach rhwng Aberystwyth a Bangor, a Bangor sy'n arwain y fenter gydweithredol arbennig hon.

Mae'r bartneriaeth yn cynnwys rheoli a chyflwyno portffolio o raglenni HAGA. Dim ond ym Mangor y cyflwynir yr holl raglenni cynradd (israddedig ac ôl-raddedig) a rhywfaint o'r ddarpariaeth uwchradd israddedig. Cynigir y rhaglen uwchradd ôl-raddedig (TAR) yn y ddau sefydliad, ac mae pob un o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ac eithrio dau, yn cael eu cynnig yn un o'r prifysgolion yn unig. Dysgir tua 45% o'r ddarpariaeth TAR uwchradd ym Mangor.

Mae'r rhaglen TAR uwchradd wedi ei chyd-gynllunio a'i chyd-ddilysu gan y ddwy brifysgol ac felly dysgir modiwlau cyffredin ym Mangor ac yn Aberystwyth. Er bod hon yn fenter gydweithredol, mae myfyrwyr yn cofrestru naill ai ym Mangor neu Aberystwyth, fel y bo'n briodol, ac yn cael eu dysgu ac yn ennill eu cymwysterau yn y sefydliad hwnnw. Mae'r ddau sefydliad yn gyfrifol am sicrhau a gwella ansawdd ei raglenni ei hun ac felly mae'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd sy'n berthnasol i'r cymhwyster ym Mangor yr un fath â'r rhai sy'n berthnasol i bob rhaglen arall ym Mhrifysgol Bangor. Ond mae'r ganolfan wedi sicrhau bod ei phrosesau SA cyffredin yn bodloni gofynion y ddwy brifysgol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethau mawr ym mhrofiad y myfyrwyr, p'un a ydynt yn fyfyrwyr ym Mangor neu Aberystwyth. Mae'r ganolfan hefyd wedi sicrhau bod rheolau, rheoliadau a gweithdrefnau'r brifysgol sy'n berthnasol i fyfyrwyr ym Mangor yn debyg i'r rhai sy'n berthnasol i fyfyrwyr yn Aberystwyth. Er enghraifft, ymdrinnir â honiadau o ymarfer annheg, cwynion gan fyfyrwyr ac apeliadau dan weithdrefnau'r brifysgol berthnasol.

Mae gan Fangor ac Aberystwyth eu harholwyr allanol eu hunain ar y rhaglenni HAGA, ond penodwyd arholwr allanol ar y cyd yn ddiweddar i'r cwrs TAR uwchradd ar y cyd, er mwyn adrodd ar ansawdd a safonau ar draws y ganolfan.

Mae strwythur rheolaeth y ganolfan yn cynnwys bwrdd rheoli sy'n gyfrifol am benderfyniadau strategol, ynghyd ag amrywiaeth o grwpiau tasg gweithredol (e.e. TAR Uwchradd, TGCh, Marchnata) sy'n adrodd iddo. Mae'r bwrdd rheoli'n adrodd yn fewnol ym Mangor i fwrdd astudiaethau'r Ysgol Addysg a bwrdd rheoli'r Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Sefydlwyd bwrdd academiaidd ar y cyd yn y ganolfan yn ddiweddar i fonitro'r prosesau SA yn benodol ac i ystyried materion academiaidd eraill yn y portffolio rhaglenni. Gan fod y prifysgolion yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion cynradd ac uwchradd ledled y rhanbarth, sefydlwyd dau bwyllgor llywio i'r partneriaethau (cynradd ac uwchradd) yn y ganolfan er mwyn sicrhau bod yr ysgolion partneriaeth yn cyfrannu at gynllun a chynnwys y rhaglenni. Mae'r ddau bwyllgor yn adrodd i fwrdd rheoli'r ganolfan, ac yn achos Bangor, maent hefyd yn adrodd i fyrddau rhaglen yr Ysgol Addysg.

3.14.2 Tystysgrif Ôl-radd mewn Cyfieithu

Dysgir y Dystysgrif Ôl-radd mewn Cyfieithu ar y cyd gan Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth ac Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r dystysgrif yn gymhwyster proffesiynol i gyfieithwyr ac fe'i sefydlwyd i ateb y galw (gan Fwrdd yr Iaith, cyflogwyr ac eraill) am gyfieithwyr y gellir tystio i'w gallu yn ôl safonau caeth ac y gellir gwarantu safon eu gwaith.

3.15 ERASMUS A CHYNLLUNIAU CYFNEWID ISRADEDIG RHYNGWLADOL ERAILL

Mae'r Brifysgol yn cymryd rhan yng nghynlluniau cyfnewid myfyrwyr ERASMUS. Dyfarnwyd 'Siarter Prifysgol Estynedig Erasmus' iddi yn 2007 a gaiff ei adnewyddu yn 2013 pan fydd y rhaglen newydd yn dechrau. Wrth ddechrau cyswllt gyda phartner newydd, mae'r Swyddog Cyfnewidiadau Rhyngwladol yn cynnal archwiliad i sicrhau bod y partner hefyd yn ddeiliad Siarter Prifysgol ERASMUS. Mae llofnodi cytundeb ERASMUS⁶¹ yn ymdrech ar y cyd rhwng y Swyddog Cyfnewidiadau a'r cydlynedd cyfnewidiadau/rhyngwladol yn yr ysgol berthnasol, gan gymryd i ystyriaeth y cyrsiau mae'r myfyrwyr yn bwriadu eu hastudio yn y sefydliad partner a'r cyrsiau y byddent wedi eu hastudio ym Mangor. Yn ogystal â hyn, mae gofyn i fyfyrwyr yn yr Ysgol leithoedd Modern dreulio blwyddyn dramor mewn prifysgol Ewropeaidd. Yr opsiynau yn y cyd-destun hwnnw yw gweithio fel cymhorthydd dysgu, lleoliad Erasmus, lleoliad gwaith (wedi ei drefnu gan y myfyriwr) neu gyfuniad o'r tri. Mae Cod Ymarfer Dysgu ar Leoliad y Brifysgol yn diffinio'r drefn ar gyfer gwneud y trefniadau hyn. Mae myfyrwyr yn rhoi adborth ar eu profiadau cyfnewid pan fyddant yn dychwelyd i'r Brifysgol a defnyddir yr adborth hwnnw wrth benderfynu a ddylid anfon myfyrwyr i'r un sefydliad yn y dyfodol. Cymerir 'blwyddyn dramor' rhwng ail a thrydedd flwyddyn cyrsiau israddedig. Caiff unrhyw gredydau a enillir fel rhan o'r rhaglenni cyfnewid eu cofnodi ar drawsgrifiad y myfyrwyr, ond ni chaiff y marciau eu cynnwys wrth gyfrifo dosbarthiad eu graddau.

3.16 CYFRANIADAU ALLANOL I RAGLENNI BANGOR (un modiwl neu fwy)

Mae'r Ysgol Addysg a'r Ysgol Dysgu Gydol Oes yn cynnal nifer bychan o fodiwlau sy'n cynnwys cytundebau partneriaeth gydag asiantaethau neu sefydliadau academiaidd allanol y mae eu staff yn darparu addysgu arbenigol mewn meysydd pwnc penodol.

Ym mhob achos, defnyddir gweithdrefnau arferol y Brifysgol i ddilysu, monitro a sicrhau ansawdd y modiwlau. Caiff y staff dysgu allanol eu cymeradwyo a'u cefnogi gan staff penodol yn yr ysgol berthnasol yn y Brifysgol. Maent yn mynd i gyfarfodydd ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau datblygu staff. Yn ogystal â hyn, mae pob tiwtor ar y rhaglenni a gynigir gan yr Ysgol Dysgu Gydol Oes yn cael copi o'r llawlyfr i diwtoriaid. Caiff gwaith y myfyrwyr ei farcio yn y lle cyntaf gan staff o'r sefydliad partner ac yna ei ail-farcio gan aelod o staff Prifysgol Bangor ac mae hefyd ar gael i'r arholwr allanol a benodir gan Fangor. Mae myfyrwyr yn rhoi adborth trwy holiaduron ar ddiwedd modiwlau a chysiau a chânt eu hadolygu trwy weithdrefnau arferol y Brifysgol.

3.17 RHAGLENNI ÔL-RADD HYFFORDDedig

Mae cynllun strategol y Brifysgol ar gyfer 2011-2015 yn nodi mai darparu addysgu a dysgu rhagorol yw un o'i chwe blaenoriaeth. Mae'r nod strategol o ymgymryd ag adolygiad o'r portffolio ôl-radd hyfforddedig yn gysylltiedig â hyn er mwyn sicrhau ei fod yn ddeniadol i fyfyrwyr ac er mwyn cynyddu niferoedd ôl-raddedigion (ôl-raddedigion hyfforddedig ac ôl-raddedigion ymchwil) 50% yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

Pwyllgor Ôl-radd y Senedd a gadeirir gan y Dirprwy Is-ganghellor Addysgu a Dysgu sy'n gyfrifol am yr holl drefniadau i fyfyrwyr ôl-raddedig ac mae'r pwyllgor hwnnw'n adrodd i'r Senedd.

Ym mis Mai 2010, crëwyd swydd newydd, sef Cyfarwyddwr Myfyrwyr Ôl-radd Hyfforddedig, i gyflawni'r nod o ddatblygu astudiaethau ôl-radd hyfforddedig i'r farchnad ryngwladol, ac mae'r cyfarwyddwr newydd yn aelod o Bwyllgor Ôl-radd y Senedd.

Yn 2010, datgelwyd y canlynol gan adolygiad o'r ddarpariaeth ôl-radd hyfforddedig:

- 1) bod angen strategaethau ôl-radd hyfforddedig ar lefel y brifysgol, y colegau/ysgolion;
- 2) Bod angen hybu gwerthuso profiad myfyrwyr ôl-radd hyfforddedig ar lefel y rhaglen;
- 3) Bod angen cynllunio graddau ôl-raddedig hyfforddedig mewn ffordd fwy hyblyg a chyfoes er mwyn cefnogi'r gwaith o ryngwladoli'r cwricwlwm;
- 4) Nad oedd gan lawer o ysgolion aelod staff academiaidd oedd yn gyfrifol am ddarpariaeth ôl-radd hyfforddedig.

O ganlyniad, datblygodd y Brifysgol strategaeth ôl-radd hyfforddedig a chynllun gweithredu ar gyfer 2010-2013 gyda saith amcan. Yn 2011, dechreuodd y Brifysgol gynllun gwella sy'n gysylltiedig â chynllunio cwricwlwm a diwygio rhaglenni ôl-raddedig hyfforddedig. Mae'r cynllun gwella yn un o wyth o strategaethau gwella sy'n ffurfio strategaeth ar y cyd Aber/Bangor ar gyfer addysgu a dysgu ac ehangu mynediad.

Mae camau strategaeth ôl-radd hyfforddedig y Brifysgol yn datblygu'n dda. Yn gyffredinol, mae'r cynnydd hwnnw wedi cael hwb yn dilyn creu Canolfan Addysg Ryngwladol, swydd y Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr, ac ymestyn y system o gynrychiolwyr myfyrwyr i gynnwys cyrsiau ôl-radd hyfforddedig, yn Undeb y Myfyrwyr ac yn Fforwm Ymchwil Myfyrwyr Ôl-radd. Ymhellach, ym mis Hydref 2011, crëwyd fforwm cyfarwyddwyr cyrsiau ôl-radd hyfforddedig ysgolion (gyda chynrychiolwyr myfyrwyr) er mwyn sicrhau bod y strategaeth ôl-radd hyfforddedig yn cael ei thrafod a bod gwybodaeth gywir yn llifo rhwng ysgolion/colegau, grwpiau tasg a'r Gofrestrfa Academiaidd.

Yn benodol, mae'r ffaith bod 18 o'r 23 ysgol wedi cyflwyno strategaethau ôl-radd hyfforddedig ar gyfer blwyddyn academiaidd 2011 yn dyst i'r cynnydd, a'r ffaith bod

pob ysgol wedi cyflwyno strategaeth (naill ai ar wahân neu ar y cyd fel coleg) ym mis Mawrth 2012. Yn ychwanegol at hyn, 29.5% oedd cyfradd ymateb y Brifysgol i'r PTES; mae hwn yn ganlyniad ardderchog o gymharu â'r cyfartaledd yn genedlaethol, sef 17.9%, yn enwedig gan mai dyma'r tro cyntaf i'r arolwg cael ei gynnal. Roedd y canlyniadau o ran ansawdd yr addysgu a dysgu'n gryf o gymharu â'r cyfartaledd yn genedlaethol. Mae'r canlyniadau llawn a'r camau nesaf i'w cymryd yn sgil yr arolwg wedi eu lledaenu ledled y Brifysgol. Yn wir, yng nghyfarfod cyntaf y cyfarwyddwyr ôl-radd hyfforddedig cafwyd trafodaeth fanwl am y canlyniadau a chafodd canllawiau asesu ac adborth y Brifysgol eu dosbarthu. Trafodwyd hefyd gynlluniau gwella colegau/ysgolion (yng nghyd-destun cynlluniau gweithredu rhyngwladoli).

Gan fod Bangor yn brifysgol â phwyslais ar ymchwil, credwn ei bod ar flaen y gad ym maes addysgu/ymchwil. Amlygir ansawdd yr ymarfer hwn yng nghanlyniadau'r PTES sy'n ymwneud â thraethodau hir a goruchwyliaeth. Ymhellach, o ran cyflogadwyedd, roedd canlyniadau'r myfyrwyr yn fwy ffafriol o dipyn na'r cyfartaledd yn genedlaethol. Ein rhaglenni Meistr 'traddodiadol' ar sail ymchwil sydd wrth wraidd hyn. Ond mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen iddi feddwl mewn ffordd fwy hyblyg am ei darpariaeth. Mae nifer o fentrau ar y gweill yn y cyd-destun hwn, yn cynnwys project peilot yng Ngholeg y Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad sy'n edrych ar ddulliau hyblyg o gynllunio cwricwlwm, yn cynnwys tystysgrifau a diplomâu cyn-Meistr sy'n cynnwys modiwlau Saesneg, a rhaglenni MSc sy'n cynnwys modiwl dewisol 20 credyd.

Mynediad i Radd Meistr (ATM)

Mae Mynediad i Radd Meistr (ATM) yn chwaer broject i broject Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Gwybodaeth (KESS) (gweler adran 4 am ragor o fanylion) sy'n cefnogi darpariaeth Meistr hyfforddedig. Mae Mynediad i Radd Meistr (ATM) yn broject Cydgyfeiriant ESF Cymru gyfan dan arweiniad Prifysgol Abertawe gyda chefnogaeth rhaglen gydgyfeiriant Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Llywodraeth Cymru. Nod y project yw datblygu'r sgiliau uwch sydd eu hangen i ddatblygu'r economi gwybodaeth yng Nghymru trwy ariannu lleoedd ar gyrsiau Meistr hyfforddedig sy'n gysylltiedig â sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i bob lle a ariannir trwy'r cynllun fod yn gysylltiedig â chyflogwr yn rhanbarth Cydgyfeiriant Cymru er mwyn i'r cyflogwr hwnnw ddarparu lleoliad gwaith sy'n para am fis. Yn y tair blynedd academiaidd ddiwethaf, mae Bangor wedi cael y nifer canlynol o leoedd ar gyrsiau Meistr hyfforddedig trwy'r cynllun ATM, mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau yn cynnwys y diwydiannau creadigol, TGCh, biowyddoniaeth ac astudiaethau amgylcheddol.

2009/10 = 19

2010/11 = 49

2011/12 = 63

Am y ddwy flynedd sy'n weddill o'r cynllun ATM cyfredol (2012/13 a 2013/14), bydd gan Fangor dros 70 o leoedd y flwyddyn. Rydym wedi cynnwys gweithdai hyfforddi unwaith eto sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i weithio gyda'r cwmni partner ac sy'n amlygu'r gwahaniaeth rhwng disgygliadau'r sefydliad academiaidd a disgygliadau cwmnïau.

CRYNODEB

Cryfderau:

- Gweithdrefn systematig ac eglur i gymeradwyo rhaglenni a

Datblygiadau
dyfodol:

modiwlau.

- System effeithiol o archwiliadau ansawdd mewnol – yn enwedig y ffaith bod cynrychiolydd myfyrwyr yn rhan o'r timau archwilio.
- Cyflwyno adolygiadau tymor canol – rhwng yr archwiliadau ansawdd mewnol – er mwyn monitro mwy ar gydymffuriad (o fis Medi 2012).
- Yng nghyd-destun darpariaeth gydweithredol, cryfhau'r prosesau o fonitro, gwerthuso a meicnodi ein gweithdrefnau a'n strwythurau er mwyn parhau i wella ansawdd (erbyn mis Mehefin 2012).
- Cyfuno prosesau ailddilysu ac archwiliadau ansawdd mewnol, mae hyn yn cael ei dreialu mewn rhai ysgolion ar hyn o bryd (o fis Ionawr 2012).
- Yng nghyd-destun dysgu gwasgaredig, cynnal adolygiad o ofynion cyfredol y cod ymarfer er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau'n addas i'r diben (erbyn mis Hydref 2012).

ADRAN 4

ASTUDIAETHAU YMCHWIL ÔL-RADD

4.1 RHAGARWEINIAD

Mae Prifysgol Bangor yn brifysgol â phwyslais ar ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae cryfhau ansawdd a maint ymchwil a menter yn flaenoriaeth allweddol o fewn y Cynllun Strategol ar gyfer 2010-2015.

Ar hyn o bryd, mae Bangor yn y 40 uchaf o ran ymchwil yn y DU, ar sail incwm o ymchwil, a hefyd yn un o'r 3% uchaf o sefydliadau AU y byd. Yn ôl yr Ymarfer Asesu Ymchwil a gynhaliwyd yn 2008, nodwyd ymchwil gyda'r goreuon yn y byd ym mhob un o 19 maes pwnc a asesir yn y Brifysgol, a chafodd bron i 50% y graddau uchaf sef 3* a 4*. Ceir gweithgaredd ymchwil mewn Colegau, Ysgolion neu yn un o ganolfannau ymchwil y Brifysgol, a gall gynnwys cydweithrediad â sefydliad academaidd arall, asiantaeth allanol neu bartner diwydiannol. Fodd bynnag, yn ôl Rheoliadau'r Brifysgol ar Raglenni Ymchwil Ôl-radd⁶³, rhaid i bob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig fod â goruchwyliwr sy'n aelod llawn-amser o staff academaidd yr Ysgol neu'r Coleg lle mae wedi'i g/chofrestru.

Y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil a Menter) sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol, ar lefel Weithredol, dros faterion cysylltiedig ag ymchwil ôl-radd. Mae gan bob Ysgol Gyfarwyddwr Astudiaethau Ôl-radd. Yn yr adran hon o'r ddogfen, disgrifir y trefniadau a geir ar gyfer Rhaglenni Ymchwil Ôl-radd.

4.2 FFRAMWAITH SEFYDLIADOL

Rheoliadau'r Brifysgol ar Raglenni Ymchwil Ôl-radd sy'n diffinio gofynion pob cymhwyster. Lle bo hynny'n briodol, ceir arweiniad pwnc-benodol mewn Ysgolion a Cholegau academaidd, er enghraifft, ar faterion iechyd a diogelwch, ar ben y rheoliadau hyn. Mae Cod Ymarfer y Brifysgol ar Sicrhau Ansawdd a Safonau Academaidd Rhaglenni Ymchwil⁶⁴ yn diffinio'r drefn sydd wedi'i sefydlu er mwyn arwain y gwaith o weithredu'r rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys adrannau ar yr amgylchedd ymchwil, dewis, derbyn, goruchwyllo, monitro ac adolygu myfyrwyr; datblygu ymchwil a medrau eraill; dulliau o roi adborth; asesu; camymddygiad yng nghyswllt ymchwil; materion moesegol ac ymelwa ar hawliau eiddo deallusol; cynrychiolaeth myfyrwyr. Disgrifir y ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer myfyrwyr ag anabledau yn y Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth ar gyfer Myfyrwyr Anabl. Mae gofynion o ran arholi allanol wedi'u diffinio yng Nghod Ymarfer y Brifysgol ar Arholi Allanol, Graddau Ymchwil. Ceir cyfarwyddyd ychwanegol ar gyfer rhaglenni ymchwil cydweithredol yn y Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol.

Yn 2009, cynhaliodd y Brifysgol adolygiad o bwys ar reoliadau Ymchwil Ôl-radd, er mwyn osgoi dyblygu a chreu dogfen sengl y gallai staff a myfyrwyr gyfeirio ati. Arweiniodd yr adolygiad hwn at reoliad unigol a oedd yn ymgorffori'r hyn a fodolai gynt mewn rheoliadau ar wahân yng nghyswllt amrywiaeth o raglenni Ymchwil Ôl-radd.

Mae'r rheoliadau a'r codau ymarfer hyn ar gael i oruchwylwyr a myfyrwyr ar wefan y Gofrestrfa Academaidd. Mae'r un wybodaeth ar gael hefyd yn y Llawlyfr i Fyfyrrwyr Ymchwil a Goruchwylwyr⁶⁵. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar y wefan, mewn fformat mwy hydrin, a chyfeirir myfyrwyr ati yn ystod eu cyfnod cynefino.

Mae'r Brifysgol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i fonitro ei myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a'u rhaglenni. Adolygir yn ganolog adroddiadau o'r holl bwyllgorau goruchwyllo myfyrwyr, sy'n cynnwys adborth gan fyfyrwyr, ac adroddir ar faterion o bwys wrth Bwyllgor Ôl-radd y Senedd⁶⁶, sy'n adrodd yn uniongyrchol wrth Senedd y Brifysgol. Lle ceir pryderon, bydd Cadeirydd Pwyllgor y Senedd a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Addysgu a Dysgu) yn edrych ymhellach ar y rhain gyda myfyrwyr ac Ysgolion unigol. Mae'r Brifysgol hefyd yn cymryd rhan yn yr Arolwg Profiad Ymchwil

Ôl-radd (PRES), a ystyrir gan y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu a Phwyllgor Ôl-radd y Senedd. Mae'r cyfraddau ymateb yn y PRES dipyn is nag yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr, felly mae angen bod ychydig yn ofalus wrth drin y canlyniadau. Serch hynny, mae'r adroddiad yn rhoi manylion am bwyntiau gweithredu ar gyfer ysgolion unigol, a ddilynir o fewn y Colegau.

Mae'n ofynnol ar i bob Ysgol adfyfrio ar ei darpariaeth ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn y ddogfen hunan-werthuso y mae'n ei llenwi ar gyfer yr archwiliad ansawdd mewnol (gweler adran 3). Mae panelau archwilio hefyd yn cyfarfod â myfyrwyr ôl-raddedig presennol i geisio eu barn ar drefniadau'r Ysgol neu'r Coleg ar gyfer cynefino, hyfforddiant a chefnogaeth. Bydd Grŵp Tasg y Brifysgol dros Sicrhau Ansawdd a Dilysu hefyd yn adolygu a monitro'n gyson adroddiadau gan Arholwyr Allanol myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Os bydd unrhyw faterion yn achosi pryder, dilynir hwy trwy Bwyllgor Ôl-radd y Senedd a thrwy ohebu ag Ysgolion penodol. Pwyllgor Ôl-radd y Senedd sy'n adolygu trefnau a rheoliadau ymchwil ôl-radd.

4.3 YSGOLION GRADDEDIGION

O fewn y fframwaith rheoleiddiol, penodwyd Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-radd (o blith staff academiaidd uwch) i gydlynu mentrau ymchwil ôl-radd. Pan ddaeth y swyddogaeth hon yn wag yn 2011, cafwyd ail-werthusiad. Mae'r Brifysgol yn anelu at gryfhau arweinyddiaeth gweithgareddau ymchwil ôl-radd, ac wrthi ar hyn o bryd yn trafod y posibilrwydd o sefydlu Ysgolion Graddedigion ym mhob Coleg a phenodi Pennaeth Ysgolion Graddedigion i'r Brifysgol, a fyddai'n gyfrifol am gydlynu gweithgareddau ymchwil ôl-radd. Fel rhan o'r datblygiad hwn, bydd pob Coleg yn sefydlu Ysgol Graddedigion ac yn penodi penaethiaid ar lefel Golegol a fyddai'n cydlynu gweithgareddau o fewn eu Colegau, wrth i'r cyfrifoldeb am ansawdd a safonau barhau wrth y man darparu o fewn Ysgolion academiaidd. Mae rhai Colegau eisoes wedi sefydlu Ysgolion Graddedigion. Disgwylir y bydd yr holl Golegau wedi gwneud trefniadau yn ddiweddarach yn 2012.

Amcan y strwythur newydd hwn yw cynnig mwy o gydlyniad yn y profiad ymchwil ôl-radd yn y Brifysgol, ac adnabod a rhannu arfer da. Cydnabyddir bod Ysgolion, yn hanesyddol, wedi tueddu i ddatblygu trefniadau ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn annibynnol ar ei gilydd. Gall y gofynion, ac felly'r darpariaethau, fod yn wahanol ym mhob Coleg, ond byddai disgwyl i'r Ysgolion Graddedigion gydlynu hyfforddiant ynglŷn â medrau a'r gwaith o ddatblygu graddau MRes, darparu cyrsiau arbenigol, cynnal cynadleddau ôl-radd, datblygu trefnau i sicrhau arfer da ym maes hyfforddi a goruchwyllo myfyrwyr, a chyfrannu at y cyrsiau hyfforddi i oruchwylwyr. Byddai Pennaeth Ysgol Graddedigion y Brifysgol yn adrodd wrth y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil a Menter) ac yn aelod o Grŵp Tasg y Brifysgol ar Strategaeth. Byddai Pennaeth yr Ysgolion Graddedigion hefyd yn aelod o Bwyllgor Ôl-radd Senedd y Brifysgol.

Bydd cyfrifoldebau Pennaeth yr Ysgolion Graddedigion yn cynnwys y canlynol:

- [1] goruchwyllo a chynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu'r Ysgolion Graddedigion newydd.
- [2] datblygu strategaeth ymchwil ôl-radd o fewn fframwaith cynllunio'r Brifysgol
- [3] rheoli gweithgareddau'r Ysgolion Graddedigion, ar y cyd â Phenaethiaid Ysgolion Graddedigion y Colegau, er mwyn cael y buddion mwyaf, rhannu arfer da, ac i sicrhau bod targedau'n cael eu cyrraedd a bod darpariaeth gyfunol yn digwydd.
- [4] adrodd wrth y D-IG (Ymchwil a Menter) a Phwyllgor Ôl-radd y Senedd.
- [5] sicrhau bod anghenion y Brifysgol o ran ymchwil ôl-radd yn cael eu hadnabod ac yn cael sylw.
- [6] cydlynu a rheoli ceisiadau am gyllid ar gyfer ymchwil ôl-radd.

- [7] hwyluso'r gwaith o wella symud ymlaen a chwblhau yng nghyswllt ymchwil ôl-radd.
- [8] monitro gweithrediad trefnau sicrhau ansawdd o fewn Colegau
- [9] cefnogi datblygiad gweithgareddau ymchwil rhyng-ddisgyblaethol.
- [10] cysylltu â chwmnïau cyfrannog er mwyn gwella cyfleoedd cydweithredol.
- [11] olrhain cyrchfannau myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a chreu cysylltiadau â chyn-fyfyrwyr.

Dyma brif amcanion yr Ysgolion Graddedigion:

- [1] hyrwyddo hyfforddiant a datblygiad i raddedigion, a gwella statws a chydabyddiaeth gweithgaredd ymchwil ôl-radd o fewn y Brifysgol a'r tu allan iddi.
- [2] cynyddu nifer y myfyrwyr ymchwil ôl-radd sy'n aros ac yn cwblhau eu gwaith.
- [3] sicrhau bod systemau cymorth bugeiliol ar gael ac ar waith.
- [4] gwella'r gwaith o dderbyn, marchnata a recriwtio ôl-raddedigion.
- [5] hyrwyddo'r gwaith o rannu arfer da wrth oruchwylio, a gwella arferion gwaith goruchwylwyr ar draws yr Ysgolion Graddedigion.
- [6] sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Choncordat y Cynghorau Ymchwil ar gymorth a hyfforddiant yng nghyswllt ymchwil ôl-radd.
- [7] archwilio'r posibilïadau o ran datblygu modiwlau ôl-radd cyffredin sy'n cynnwys hyfforddiant rhyng-ddisgyblaethol.
- [8] hyrwyddo cymuned o ddysgu gweithredol (trwy gynadleddau, seminarau, colocwia).
- [9] yn y tymor hir, datblygu a chryfhau cydweithredu rhwng meysydd ymchwil a chydweithio rhwng Ysgolion.

Ar ben hynny, i sicrhau bod y Brifysgol yn ymwybodol o'r datblygiadau a'r arfer diweddaraf sy'n dod o'r gymuned ôl-radd, boed trwy ymchwil neu drwy ddysgu, mae staff o'r Uned Datblygu Academaidd yn mynd i ddigwyddiadau a drefnir gan yr Academi Addysg Uwch, gan gyfrannu gwybodaeth a ddysgant yno tuag at seminarau a hyfforddiant ym Mangor (gweler adran 6).

4.4 YR AMGYLCHEDD YMCHWIL

Mae'r Brifysgol yn darparu i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig amgylchedd sy'n annog ymchwil o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gyfleusterau llyfrgell, adnoddau ar y we, labordai, safleoedd ymchwil maes a chyfleusterau cyfrifiadurol. Goruchwylir myfyrwyr gan staff cymwysedig sy'n weithgar mewn ymchwil, a hynny'n aml gyda thimau ymchwil. Bydd yr Ysgol a allai dderbyn darpar-fyfyrwyr yn craffu ar eu cynigion ymchwil, i sicrhau bod yr adnoddau ar gael fel y gellir cwblhau'r gwaith arfaethedig. Mae'r Brifysgol yn diffinio hawliau a chyfrifoldebau myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Cyhoeddir y rhain yng Nghod Ymarfer y Brifysgol ar Sicrhau Ansawdd a Safonau Academaidd Rhaglenni Ymchwil, ac yn y Llawlyfr ar gyfer Myfyrwyr a Goruchwylwyr Ymchwil. Mae'r manylion yn cynnwys hawliau o ran adnoddau ffisegol, disgwyliadau o ran goruchwylio, a hawliau o ran cynrychiolaeth ac apêl.

Mae 'Tu Hwnt i Ffiniau' yn gynhadledd flynyddol a drefnir gan y gymuned ymchwil ôl-raddedig ar gyfer eu cyd-fyfyrwyr ym Mangor a'r thu hwnt. Mae'n rhoi cyfleoedd i ymchwilwyr o Ysgolion y celfyddydau a'r gwyddorau rwydweithio ar archwilio persbectifau newydd, ac yn gyfle i ôl-raddedigion, ar gyfnod cynnar yn eu gyrfaedd, gyflwyno eu gwaith. Yn dilyn sefydlu'r Fforwm Myfyrwyr Ôl-raddedig (gweler paragraff 4.11), bwriedir creu yn ei le gynhadledd ryng-ddisgyblaethol a chyd-rhwng y Prifysgolion, i'w chynnal yn y gwanwyn.

4.5 CYFLOGADWYEDD – KESS

Mae Project Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS) yn gynllun datblygu sgiliau uwch i Gymru gyfan sy'n cael ei arwain gan Brifysgol Bangor ar ran 9 sefydliad AU yng Nghymru. Mae'n cael cyllid cyfatebol, yn rhannol, gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio gwella perfformiad economaidd y rhanbarth trwy fuddsoddi mewn medrau. Mae KESS yn cefnogi projectau ymchwil cydweithredol (graddau Meistr Ymchwil a graddau PhD) gyda phartneriaid busnes yn rhanbarth Cydgyfeiriant Cymru (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd). Mae KESS yn para o Fai 2009 tan Awst 2015, a bydd yn darparu 420 o ysgoloriaethau PhD a Meistr. £33m yw cyfanswm gwerth y project gyfanswm ac, ym Mangor, mae KESS wedi arwain at 101 o leoedd ychwanegol ar gyfer PhD ac MRes.

Datblygu medrau uwch yn y rhanbarth yw canolbwynt y project. Mae cyfranogiad gan bartneriaid menter allanol (busnesau a sefydliadau eraill) yn rhoi i'r cyfranogwyr brofiad o gynnal projectau ymchwil sy'n berthnasol i anghenion y gymuned fusnes yn y rhanbarth. Mae KESS wedi ein galluogi i sefydlu dulliau newydd ac arloesol o ddarparu hyfforddiant ymchwil ôl-radd, gan gyfrannu at amgylchedd ymchwil Bangor. Rydym yn rhagweld y caiff y darpariaethau arloesol hyn eu prif-ffrydio, am eu bod yn amlwg yn ymdrin ag anghenion yr amgylchedd cyflogaeth sy'n dod i fodolaeth. Mae'r elfennau Meistr Ymchwil a PhD wedi eu hintegreiddio â rhaglen hyfforddi sgiliau uwch, sy'n arwain at Gymhwyster Datblygu Sgiliau Ôl-radd. Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys cydran orfodol o hyfforddiant preswyl (Ysgol Graddedigion KESS) sy'n archwilio medrau ar gyfer cydweithredu, datblygu busnes, menter gymdeithasol a datblygiad cynaliadwy trwy senarios sydd, yn eu tro, yn gwella medrau cyfathrebu, gan ddylanwadu ar waith tîm etc. Mae'r PSDA yn rhoi cyfleoedd i ôl-raddedigion KESS ddewis cyrsiau hyfforddi/ datblygu sy'n ateb eu hanghenion fel unigolion. Mae eu cyllideb KESS yn eu galluogi i archwilio dewisiadau o ran hyfforddi gyda chyrrff proffesiynol o fewn eu disgyblaeth, a thrwy'r sianelau hynny, cael eu hadnabod fel ymchwilwyr o fewn eu cyd-destun cysylltiedig. Cynigir hefyd weithdai sy'n dod â'r goruchwyliwyr academiaidd a'r rhai o'r cwmnïau at ei gilydd, ar y cyd â chyfranogwyr KESS, i edrych ar arfer da, problemau a sialensiau, a hynny trwy gyfres o astudiaethau achos.

Trwy ei Grŵp Ymchwil Strategaeth Ymchwil⁶⁷ a'i Grŵp Tasg REF⁶⁸, mae'r Brifysgol yn oruchwylio'n gyson ansawdd yr ymchwil, ac yn cymryd golwg strategol ar y modd y dyrennir adnoddau er mwyn gwella'r amgylchedd ymchwil.

4.6 DEWIS, DERBYN A CHYNEFINO – MYFYRWYR YMCHWIL ÔL-RADEDIG

Mae Cod Ymarfer y Brifysgol ar sicrhau Ansawdd a Safonau Academiaidd Rhaglenni Ymchwil Ôl-radd yn diffinio dulliau gweithredu yng nghyswllt dewis, derbyn a chynefino. Mae gofynion derbyn wedi'u diffinio'n glir ar wefan y Brifysgol ac yn y Prosbectws ar gyfer Ôl-raddedigion. Yn wahanol i astudiaeth is-radd, lle ceir trefn dderbyn ganolog, yr Ysgolion sy'n dewis myfyrwyr ymchwil ôl-radd, a'r Gofrestrfa Academiaidd sy'n trin y ceisiadau hynny'n ganolog wedyn.

Mae polisïau'r Brifysgol yn sicrhau na chaiff myfyrwyr eu derbyn oni bai eu bod wedi ennill cymwysterau priodol cyn cychwyn ar raglen ymchwil ôl-radd. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth o gymwysterau academiaidd a medrau iaith priodol (Cymraeg neu Saesneg, yn ôl yr iaith y cwblheir yr ymchwil ynddi). Mae'r adran a allai dderbyn y myfyriwr yn craffu'n ofalus ar dystiolaeth o gymwysterau academiaidd, a hefyd ar dystlythyrau academiaidd. Fel rheol, dau aelod staff sy'n cymryd rhan yn y penderfyniad i ddewis myfyrwyr. Yn arferol, y goruchwyliwr arfaethedig a Phennaeth yr Ysgol (neu'r Cyfarwyddwr Astudiaeth Ôl-radd) fydd y rhain. Bydd y staff derbyn yn sicrhau bod cymwysterau ymgeisydd yn briodol ar gyfer astudiaeth ôl-radd, ac yn gwirio unrhyw gymwysterau nad ydynt yn safonol.

Mae Cod Ymarfer y Brifysgol ar Sicrhau Ansawdd a Safonau Academaidd Rhaglenni Ymchwil hefyd yn diffinio polisi'r Brifysgol ar gyfarwyddo a chyflwyno myfyrwyr. Cynhelir sesiwn gynefino, a drefnir yn ganolog, yn flynyddol, y mae'r holl fyfyrwyr ymchwil newydd wedi'u gwahodd iddi. Mae hon yn cynnwys anerchiadau cyflwyno gan y D-IG dros Ymchwil a Menter a'r Cofrestrwydd Academaidd, ynghyd ag anerchiadau gan oruchwylwyr a myfyrwyr, i egluro sut y mae trefnau goruchwyllo a threfnau eraill yn gweithio. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys cyflwyniadau i Undeb y Myfyrwyr, Gwasanaethau Myfyrwyr, y Fforwm Myfyrwyr Ymchwil a'r Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr Cynnar. Mae adborth yn dangos bod y cyfranogwyr yn werthfawrogol iawn o'r digwyddiad. Anfantais bosibl yw nad yw'n cael ei gynnal ond unwaith y flwyddyn, ac mae'r Brifysgol wrthi ar hyn o bryd yn ystyried p'un a fyddai'n fuddiol cynnal digwyddiad cyffelyb yn Ionawr.

Ochr yn ochr â'i chynllun Arwain Cyfoed llwyddiannus ar gyfer israddedigion, yng ngwanwyn 2012, lansiodd y Brifysgol ei chynllun Arweinwyr Ôl-raddedigion⁶⁹. Mae myfyrwyr ôl-raddedig presennol, a enwebwyd gan Ysgolion neu Golegau, yn rhoi cymorth i myfyrwyr ôl-raddedig newydd trwy eu helpu i ymgyswrtio â'r Brifysgol a'r gymuned o'i chwmpas. Rhoddir pwyslais arbennig ar dargedu'r rhai sy'n 'newydd i Fangor', yn enwedig myfyrwyr rhyngwladol. Darperir hyfforddiant canolog i'w cynorthwyo yn eu swyddogaeth. Mae'r uned Cyrsiau Iaith Saesneg i Fyfyrwyr Tramor (ELCOS) hefyd yn cynnal sesiynau cyfarwyddo a chynefino i fyfyrwyr rhyngwladol newydd fel rhan o'i rhaglenni cyn sesiynau. Mae Cod Ymarfer y Brifysgol ar Sicrhau Ansawdd a Safonau Academaidd Rhaglenni Ymchwil hefyd yn gofyn am i bob Ysgol neu Goleg fod â'i raglen gynefino ei hun, a gynhelir ym Medi bob blwyddyn, gyda chyflwyniad anffurfiol i'r rhai sy'n cychwyn yn gynharach yn y flwyddyn.

4.7 GORUCHWYLLO YMCHWIL ÔL-RADEDEDIGION

Yn ôl Rheoliadau'r Brifysgol ar Raglenni Ymchwil Ôl-radd, rhaid i oruchwylwyr myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig fod â chymwysterau addas a meddu ar y medrau pwnc-benodol sy'n angenrheidiol ar gyfer y project arfaethedig. Caiff rychwant a meysydd pwnc projectau ystyriaeth ofalus yn ystod y drefn dderbyn cyn i fyfyrwyr gael eu dynodi i oruchwylwyr. Caiff myfyrwyr un neu fwy o gyd-oruchwylwyr, yn ogystal â'u prif oruchwylwyr. Lle bo angen mwy nag un goruchwylwyr, nodir yn glir pwy yw'r prif oruchwylwyr (e.e. pan gaiff darlithydd newydd ei m/fentora).

Rhaid i'r holl staff nad ydynt eisoes wedi goruchwyllo myfyrwyr PhD gwblhau hyfforddiant cyn iddynt ddod yn oruchwylwyr. Mae'r Uned Datblygu Academaidd yn trefnu'r sesiynau hyfforddi hyn, a gynhelir ddwywaith y flwyddyn⁷⁰. Ar ben hynny, mae hefyd yn cynnal datblygiad proffesiynol ymchwilwyr, a hynny trwy weithdai a seminarau rheolaidd, a hefyd trwy adnoddau ar-lein. Caiff staff sy'n gweithredu fel goruchwylwyr am y tro cyntaf eu cyplysu â goruchwylwyr profiadol ar gyfer o leiaf un myfyriwr PhD cyn cael eu cadarnhau'n brif oruchwylwyr. Pwyllgor Goruchwyllo, a'i gylch gorchwyl yn cynnwys goruchwyllo a chynorthwyo, fel ei gilydd, sy'n monitro cynnydd yr holl fyfyrwyr ymchwil. O fewn pob Ysgol, ceir Cyfarwyddwr Astudiaethau Ôl-radd⁷¹, sy'n goruchwyllo'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr, ac y gall myfyrwyr gysylltu â hwy er mwyn cael eglurhad ar unrhyw faterion a fo'n ymwneud â goruchwyllo. Gall myfyrwyr hefyd hysbysu'r Gofrestrfa Academaidd am unrhyw anawsterau a fo ganddynt. Bydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu yn ystyried unrhyw bryderon ynglŷn â goruchwyllo a godir gan Arholwyr Allanol, ac yn gweithredu arnynt.

Caiff goruchwylwyr a myfyrwyr wybod am gyfrifoldebau goruchwylwyr myfyrwyr ymchwil trwy God Ymarfer y Brifysgol ar Sicrhau Ansawdd a Safonau Academaidd Rhaglenni Ymchwil, a hefyd trwy'r Llawlyfr ar gyfer Myfyrwyr a Goruchwylwyr Ymchwil. Mae swyddogaeth a chyfrifoldebau goruchwylwyr yn cynnwys diffinio'r project ymchwil, rhoi cyfarwyddyd ar ddewis cyrsiau mewn medrau trosglwyddadwy neu hyfforddiant arall a fo'n ofynnol; cadw cysylltiad â'r myfyriwr, bod ar gael; rhoi

cyngor manwl; gosod targedau ar gyfer cwblhau gwaith; rhoi gwaith yn ôl gyda sylwadau adeiladol; trefnu cyflwyniadau; adolygu cynnydd; sicrhau bod cyfleusterau'n ddigonol; cyngori ar faterion cysylltiedig ag iechyd a diogelwch; cyngori ar enwebu Arholwr Allanol; egluro'r drefn arholi; a gweithredu fel mentor personol yn ôl yr angen.

Mae lefel y goruchwyllo wedi'i diffinio yng Nghod Ymarfer y Brifysgol ar sicrhau Ansawdd a Safonau Academaidd Rhaglenni Ymchwil. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Goruchwyllo yw sicrhau y darperir goruchwliaeth ddigonol. Mae gan Benaethiaid Ysgolion gyfrifoldeb i sicrhau nad yw dyletswyddau adrannol eraill a ddynodir i oruchwylwyr yn cael effaith andwyol ar lefel y gynhaliaeth a roddant i fyfyrwyr unigol.

4.8 TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Mae Cod Ymarfer y Brifysgol ar Sicrhau Ansawdd a Safonau Academaidd Rhaglenni Ymchwil yn diffinio'r dulliau a ddefnyddir i fonitro a chefnogi cynnydd myfyrwyr. Mae'r rhain yn cynnwys swyddogaeth y Pwyllgor Goruchwyllo a'r goruchwylwr.

Mae Pwyllgorau Goruchwyllo'n gyfrifol am adolygu cynnydd myfyrwyr ac adrodd arno. Rhaid i'r pwyllgor adolygu cynnydd cyn diwedd y flwyddyn gyntaf o astudiaeth (*pro rata* yn achos myfyrwyr rhan-amser) er mwyn penderfynu a all myfyriwr barhau â'r PhD ynteu gael ei (h)ail-raddio i wneud MPhil. Bydd y pwyllgor yn cynnal mwy o adolygiadau blynyddol hyd nes bod y thesis wedi'i gyflwyno. Mae Pwyllgorau Adolygu'n adrodd gan ddefnyddio ffurflenni penodol⁷² sy'n dogfennu cynnydd a wnaethpwyd ers yr adolygiad blaenorol, y targedau sydd i'w cyrraedd erbyn yr adolygiad nesaf, manylion am fedrau neu am hyfforddiant a gafwyd, ac unrhyw faterion o bwys neu bryderon mae'r myfyriwr wedi'u crybwyll. Mae'r ffurflenni hefyd yn dogfennu canlyniad adolygiad y pwyllgor ac yn cynnwys cadarnhad y myfyriwr ynglŷn â chywirdeb yr adroddiad. Ar y dechrau, mae'r Gofrestrfa Academaidd yn bwrw golwg fanwl ar yr adroddiadau hyn, a bydd unrhyw rai sy'n achosi pryder yn mynd at un o'r ddau Bwyllgor Monitro PhD. Mae'r naill yn cael adroddiadau ar fyfyrwyr colegau'r Celfyddydau a'r Dyniaethau, Busnes, Gwyddorau Cymdeithas a'r Gyfraith, ac Addysg, a'r llall yn cael adroddiadau myfyrwyr yn y colegau Gwyddorau Naturiol, Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol a Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad. Cadeirir y pwyllgorau monitro gan Gyfarwyddwr Astudiaethau Graddedigion ar lefel Golegol, ac mae Cyfarwyddwr Astudiaethau Ôl-radd pob Ysgol yn bresennol. Caiff y myfyriwr, yr Ysgol neu Bwyllgor Ôl-radd y Senedd, fel y bo'n briodol wybod am unrhyw faterion o bwys neu achosion o bryder a ganfyddir. Bydd Pwyllgor Ôl-radd y Senedd yn derbyn ac yn ystyried cofnodion y Pwyllgor Monitro, ac yn adrodd arnynt i'r Senedd.

4.9 DATBLYGU SGILIAU YMCHWIL A SGILIAU ERAILL

Yn dilyn o'r ddarpariaeth 'dan nawdd Roberts' ar gyfer sgiliau, mae gan y Brifysgol Raglen Datblygu Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa (ERDP) sy'n agored i'r holl fyfyrwyr ymchwil ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddilyn modiwlau a chyrsgiau a fydd yn cyfrannu at eu datblygiad personol a phroffesiynol. Mae'r cyrsiau a'r modiwlau'n cynnwys medrau ymchwil *inter alia*, medrau TG a thrin data, ystadegau ac ysgrifennu academaidd. Cydlynir y rhaglen gan yr Uned Datblygu Academaidd (UDA) yn yr Ysgol Addysg ac fe'i cyflwynir fel partneriaeth rhwng yr UDA ac ysgolion a cholegau academaidd. Mae'r rhaglen yn cydnabod bod amrywiaeth sylweddol rhwng y dulliau ymchwil a ddefnyddir mewn gwahanol ddisgyblaethau, a hefyd ym mhrofiad blaenorol myfyrwyr ymchwil a'r amser y gallant ei roi i'w gwaith. O'r herwydd, mae'n hyblyg a gellir ei haddasu at anghenion projectau ymchwil myfyrwyr unigol (ac mae darpariaeth ERDP yn dilyn patrwm y Fframwaith Datblygu Ymchwil). I'w cynorthwyo i gynllunio eu rhaglen ac i fonitro eu cynnydd, gall myfyrwyr gwblhau Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi a Chynllunydd Datblygiad Proffesiynol ar-lein.

Mae Colegau ac Ysgolion hefyd yn darparu hyfforddiant seiliedig ar ddisgyblaeth i fyfyrwyr ôl-raddedig, mewn technegau a dulliau gweithredu a hefyd yn nefnydd cyfarpar, yn ôl gofynion eu gwaith ymchwil.

4.10 DULLIAU O ROI ADBORTH

Mae gan y Brifysgol sawl dull o gael adborth ar raglenni ymchwil. Er enghraifft, Pwyllgor Ôl-radd y Senedd⁷³ sy'n ystyried canlyniadau o PRES. Gellir trosglwyddo sylwadau adrannau academaidd ar unrhyw agweddau a fo'n ymwneud â rhaglenni ymchwil ôl-radd, trwy'r Cyfarwyddwr adrannol dros Astudiaethau Ôl-radd, i Bwyllgor Ôl-radd y Senedd. Gall y Pwyllgor ystyried unrhyw faterion o'r fath. Gellir trosglwyddo sylwadau gan fyfyrwyr ôl-raddedig, trwy Gadeirydd y Fforwm Myfyrwyr Ôl-raddedig, i Bwyllgor Ôl-radd y Senedd. Gall myfyrwyr unigol roi adborth i'r goruchwyliwr neu'r Pwyllgor Goruchwylio fel rhan o'r drefn fonitro flynyddol. Mae gwahoddiad hefyd i fyfyrwyr anfon unrhyw sylwadau a fo ganddynt, yn gyfrinachol, i'r Gofrestrfa Academaidd, fel rhan o'r arolwg blynyddol. Bydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu yn ystyried unrhyw sylwadau gan Arholwyr Allanol ac yn anfon unrhyw faterion a fo'n achosi pryder ymlaen at y D-IG dros Addysgu a Dysgu. Mae'r D-IG dros Addysgu a Dysgu yn cadeirio'r Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu a hefyd Bwyllgor Ôl-radd y Senedd, fel y gellir codi materion wedyn ym mha un bynnag o'r rhain a fo'n briodol.

4.11 Y FFORWM MYFYRWYR ÔL-RADEDEDIG

Yn dilyn cyfnod o drafod ac ymgynghori, mae'r Fforwm Myfyrwyr Ôl-raddedig wedi disodli Fforwm Myfyrwyr Ymchwil y Brifysgol (a oedd ar gyfer ôl-raddedigion ymchwil yn unig). Mae hwn yn agored i holl fyfyrwyr Ôl-raddedig y Brifysgol, p'un a fyddont yn fyfyrwyr ymchwil, yn hyfforddedig, yn llawn-amser neu'n rhan-amser. Dyma ei amcanion:

1. Creu pont gyfathrebu rhwng myfyrwyr ôl-raddedig a staff uwch y Brifysgol.
2. Creu ymrsonfa gymdeithasol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig hen a newydd yn y Brifysgol, a meithrin cysylltiadau academaidd a chymdeithasol rhyngddynt.

Mae gan y fforwm hwn ddau aelod ar Bwyllgor Ôl-radd y Senedd, a cheir eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod, yn rhoi cyfle iddynt adrodd ar unrhyw faterion yr hoffent eu codi.

4.12 ASESU

Mae trefn asesu'r Brifysgol yng nghyswllt graddau ymchwil wedi'i diffinio'n fanwl yn Rheoliadau'r Brifysgol ar Raglenni Ymchwil Ôl-radd ac yn ei Chod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Safonau Academaidd Rhaglenni Ymchwil. Mae'r rhain yn pennu cyfyngiadau ar nifer geiriau, canllawiau ar elfennau hyfforddedig lle bo hynny'n briodol, a chanllawiau ar baratoi'r thesis. Mae'r rheoliadau hefyd yn diffinio'r disgwyliadau ar gyfer graddau ymchwil, fel y caiff myfyrwyr ddatganiad ynglŷn â'r math o waith a ddisgwylir oddi wrthynt o ran cynnwys a gwreiddioldeb.

Mae trefniadau asesu yn diffinio cyfansoddiad byrddau arholi a'r drefn i'w dilyn ar gyfer dewis Arholwr Allanol. Rhaid i'r holl fyrddau arholi fod â Chadeirydd (Pennaeth yr Ysgol/ Adran neu rywun a enwebir), yn ogystal â'r arholwyr allanol a mewnol. Mae'r dewisiadau sydd ar gael i'r Byrddau Arholi wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau ar Raglenni Ymchwil Ôl-radd, ac ar gael i fyfyrwyr. Mae gofynion o ran arholi allanol wedi'u diffinio yng Nghod Ymarfer y Brifysgol ar Arholi Allanol, Graddau Ymchwil (gweler adran 3.8 am wybodaeth am arholwyr allanol ar gyfer graddau ymchwil).

4.13 CYNRYCHIOLAETH GAN FYFYRWYR

Gall y Fforwm Myfyrwyr Ymchwil a myfyrwyr unigol gyfleu sylwadau myfyrwyr ar raglenni ymchwil fel rhan o'r drefn fonitro flynyddol. Mae'r mathau hyn o gynrychiolaeth yn fodd i roi sylw i bryderon cyffredinol a phryderon gan unigolion. Gall myfyrwyr hefyd gael cynrychiolaeth ar bwyllgorau staff-myfyrwyr Ysgolion, neu ar Fyrddau Astudiaethau, lle gellir codi materion sy'n benodol i Ysgolion. Mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn mynd i gyfarfodydd Byrddau Tasg, lle gall ef/hi gynrychioli buddiannau myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

4.14 CWYNIION AC APELIADAU

Ychydig yn unig o gwynion ffurfiol y mae'r Brifysgol wedi'u cael gan fyfyrwyr ymchwil. Cafwyd 2 gwyn ffurfiol yn 2010 (1 PhD, 1 MPhil) ac 1 yn 2011. Pan ddaw cwyn i law, disgwylir i ymdrechion gael eu gwneud i'w datrys trwy drafodaeth rhwng y myfyriwr a'r goruchwyliwr, neu gan Gadeirydd y Pwyllgor Goruchwylio. Yn achos materion na ellir eu datrys trwy hyn, cyfeirir hwy at y Cyfarwyddwr Astudiaethau ôl-radd a/neu at Bennaeth yr Ysgol. Os bydd myfyriwr yn dal yn anfodlon yn dilyn y trafodaethau hyn, caiff ef/hi ddilyn Trefn ffurfiol y Brifysgol ar gyfer Anghydfodau. Yn ôl y Drefn hon, bydd rhywun annibynnol (D-IG Addysgu a Dysgu, oni bai iddo/ iddi fod yn gysylltiedig â'r achos o'r blaen) yn ymchwilio i'r mater ac yn penderfynu a ddylid galw Pwyllgor Ymchwiliad. Mae hawliau myfyrwyr i fynd ag achos i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol wedi'u hegluro yn y Drefn Anghydfod.

Mae gan y Brifysgol drefn apelio ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, sydd wedi'i disgrifio ar y wefan Reoliadau⁷⁴. Mae'r drefn hefyd wedi'i nodi yn y Llawlyfr.

CRYNODEB	
Cryfderau:	<ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd â gweithgarwch ymchwil • Trefn ffurfiol a manwl o ran monitro myfyrwyr ôl-raddedig
Datblygiadau yn y Dyfodol	<ul style="list-style-type: none"> • Yr ymrwymiad i ddatblygu Ysgolion Graddedigion ar draws y Brifysgol, i sicrhau mwy o gysonder o ran y cyfleoedd a'r gefnogaeth a gaiff myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig (yn cynnwys medrau ymchwil, hyfforddiant a threfniadau goruchwylio) (erbyn Mawrth 2013).

ADRAN 5

PROFIAD MYFYRWYR A'R AMGYLCHEDD DYSGU

5.1 STRATEGAETH GWELLA PROFIAID MYFYRWYR

Mae Prifysgol Bangor wedi rhoi pwys mawr bob amser ar ansawdd y profiad cyffredinol a gaiff ei myfyrwyr. Mae llawer yn ystyried awyrgylch gymharol gryno a chyfeillgar y campws yn un o'i nodweddion mwyaf deniadol: dywed llawer iawn o alumni wrthym eu bod yn ystyried Bangor yn 'lle arbennig'. Yn 2010, cyflwynwyd cynllun pwysig i adolygu a chyfoethogi'r profiad a gaiff myfyrwyr. Yn gyntaf, cafwyd swydd newydd Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr. Fe wnaeth y sawl a benodwyd ddechrau yn y swydd yn Hydref 2010 gyda chylch gorchwyl i ddatblygu Strategaeth Profiad Myfyrwyr ffurfiol, a hefyd i reoli Canolfan Gwasanaethau Myfyrwyr y Brifysgol. Yn 2011, ychwanegodd y Brifysgol at y pwyslais yn y maes hwn drwy sefydlu swydd newydd bellach Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr), sydd yn ymgorffori cyfrifoldeb ar lefel Weithredol dros brofiad myfyrwyr, cefnogaeth i fyfyrwyr, llety preswyl a chwaraeon.

Yn hydref 2011, cafodd y Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr⁷⁵ (gweler isod) ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredu a chan y Senedd. Mae'r Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr, a ysgrifennwyd mewn cydweithrediad ag Undeb y Myfyrwyr Bangor, yn dilyn ymgynghori ar draws y Brifysgol, yn adeiladu ar gryfderau presennol Prifysgol Bangor, ymateb i'r cyd-destun cenedlaethol a nodi blaenoriaethau allweddol i'w datblygu dros y 3 blynedd nesaf. Mae'n cymryd i ystyriaeth ddangosyddion perfformiad allweddol, megis yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr, yn ogystal â chyhoeddiadau megis un HEFCW *Strategic Approach to the Student Experience* and NUS' *Surfing the Wave: The Future Landscape of the Student Movement*.

Wrth wraidd y Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr mae ymrwymiad y Brifysgol i ymwneud â'i myfyrwyr mewn ffordd gydweithredol er mwyn datblygu'r profiad a gaiff y myfyrwyr. Ymysg blaenoriaethau allweddol mae'r canlynol:

- Cefnogaeth i fyfyrwyr ddod dros rwystrau i gynnydd academiaidd oherwydd amrywiadau mewn cefndir neu brofiad; yn arbennig, datblygir Canolfan Sgiliau Astudio i roi cyngor a gwybodaeth ar bob agwedd ar ymarfer academiaidd.
- Adolygiad o safonau'r Brifysgol yn ymwneud ag asesu ac adborth, er mwyn sicrhau fod yr holl fyfyrwyr yn cael eu trin yn gyfartal.
- System gadarn o gynrychiolwyr cyrsiau
- Trefn ar draws y Brifysgol er mwyn lledaenu'n gyflym ddatblygiadau arloesol mewn addysgu a dysgu.
- Cysondeb yn ansawdd adnoddau dysgu a chyfleusterau addysgu ar draws rhaglenni gradd.
- Rhoi mwy o ystyriaeth i'r sialensiau unigryw a wynebwr gan fyfyrwyr rhan-amser
- Adolygiad o'r rhaglenni cyd anrhydedd ac anrhydedd cyfun

Mae'r strategaeth hefyd yn ymrwymo'r Brifysgol i ddatblygu'r profiad ôl-radd a chryfhau'r gymuned ôl-radd, cefnogi datblygiadau cyfrwng Cymraeg, buddsoddi yng Nghymhwyster Cyflogadwyedd Bangor, cynllunio cyfleusterau a gwasanaethau mewn partneriaeth, a chynyddu'r sicrwydd fod yr holl fyfyrwyr yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau cefnogi.

Mae dull gweithredu strategol Prifysgol Bangor i ddatblygu'r profiad a gaiff myfyrwyr wedi'i seilio ar ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth rhwng staff a myfyrwyr ar draws pob agwedd ar weithgareddau'n ymwneud â myfyrwyr. Ysgrifennwyd y Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr fel canlyniad proses ymgynghori a gynhaliwyd mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr. Fe wnaeth y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr gynnal cyfarfod ymgynghori ar y cyd lle daeth 60 o staff a

myfyrwyr ynghyd i drafod themâu allweddol o ran gwella a chyfoethogi profiad myfyrwyr. Yn dilyn yr achlysur cydweithredol hwn cafwyd arolwg ar y we yn gwahodd holl staff a myfyrwyr i rannu eu barn a'u syniadau ar gryfderau a gwendidau profiad myfyrwyr ym Mangor.

Gweithredir y strategaeth drwy gynllun gweithredu sy'n nodi targedau a llinellau amser penodol ar gyfer gweithredu'r strategaeth, ac mae'n cael ei chyfnerthu gan Siarter Myfyrwyr y Brifysgol. Goruchwylir gweithredu'r strategaeth gan grŵp llywio, sy'n cynnwys pedwar o gynrychiolwyr o Undeb y Myfyrwyr, ynghyd â deg aelod staff Academaidd a Gwasanaethau Canolog. Mae'r grŵp yn adrodd i Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol drwy'r DIG Myfyrwyr.

5.2 CYNLLUN FFFIOEDD

Yn dilyn cyflwyno ffioedd dysgu uwch at 2012/13 (£9,000 p.a. yn achos Bangor), roedd angen i'r Brifysgol ar gais HEFCW lunio cynllun ffioedd yn dangos sut y byddai 30% o'r incwm ffioedd ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi 'Cyfle Cyfartal' a 'Hyrwyddo Addysg Uwch.' Mae cynllun ffioedd y Brifysgol yn cynnwys darparu bwrsariaethau i fyfyrwyr o gefndiroedd incwm isel a rhai sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg; buddsoddi pellach mewn ehangu mynediad a'r 'Rhaglen Dawn a Chyfle'; datblygu Canolfan Sgiliau Astudio a gwell cefnogaeth les i fyfyrwyr; aelodaeth am ddim o holl glybiau chwaraeon a chymdeithasau Undeb y Myfyrwyr; ac ehangu Cymhwyster Cyflogadwyedd Bangor a Gwirfoddoli Myfyrwyr.

5.3 CYFRANOGIAD MYFYRWYR

5.3.1 Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb y Myfyrwyr ar wahân i'r Brifysgol yn gyfreithiol, a diffinnir ei berthynas â'r Brifysgol mewn Memorandwm Cytundeb, a adolygwyd ac a ddiwygiwyd ddiwethaf yn Awst 2010. Mae gan Grŵp Tasg Undeb y Myfyrwyr, sy'n cyfarfod fel rheol 4 gwaith y flwyddyn, gyfrifoldeb ffurfiol dros reoli'r berthynas ag Undeb y Myfyrwyr a hefyd sicrhau bod cyfrifoldebau'r Brifysgol dan Ddeddf Addysg 1994 yn cael eu cyflawni. Mae hefyd yn trafod unrhyw faterion sydd o ddiddordeb neu o bryder i'r ddwy ochr. Mae'r Brifysgol yn cyflogi staff a leolir yn Undeb y Myfyrwyr ac sy'n atebol i Gyfarwyddwr yr Undeb. Ceir hefyd Banel Cyswllt Undeb y Myfyrwyr sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion staffio. Mae Undeb y Myfyrwyr, ar y cyd â swyddogion y Brifysgol, ar hyn o bryd yn adolygu fframwaith Undeb y Myfyrwyr, gyda'r bwriad o sicrhau ei fod yn parhau i weithredu'n effeithlon ac effeithiol wrth i amgylchiadau newid.

Ceir cyswllt anffurfiol hefyd rhwng swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr a swyddogion y Brifysgol - mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr), yn ogystal â chyda'r Is-Ganghellor, y Cofrestrydd a swyddogion eraill, ac mae'r Brifysgol yn ystyried y cyswllt anffurfiol hwn yn fuddiol iawn.

Mae'r Brifysgol yn cydweithio'n agos ag Undeb y Myfyrwyr yr ystyria sy'n darparu gwasanaeth hanfodol bwysig i fyfyrwyr. Yn ogystal â chynrychioli myfyrwyr mewn amryfal ffyrdd (gweler isod), mae gweithgareddau'r Undeb yn sail i fywyd cymdeithasol, diwylliannol a chwaraeon y myfyrwyr. Mae ystod y diddordebau a geir yng nghlybiau a chymdeithasau Undeb y Myfyrwyr yn eang iawn ac, o 2012, yn unol â Chynllun Fffioedd Bangor, bydd aelodaeth o gymdeithasau Undeb y Myfyrwyr am ddim i fyfyrwyr.

5.3.2 Fforwm Myfyrwyr

Dan fesurau y cytunwyd arnynt yn 2004 i gryfhau'r prosesau ymgynghori yn y Brifysgol, mae'r Brifysgol yn gweithredu'r Fforwm Myfyrwyr⁷⁶, sy'n cyfarfod 3 neu 4 gwaith y flwyddyn. Mae'r Fforwm hwn, a gadeirir gan yr Is-Ganghellor, (ac sy'n cynnwys uwch reolwyr eraill, megis y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysgu a Dysgu), Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr), y Cofrestrydd, y Dirprwy Gofrestrydd a Chyfarwyddwr Ystadau) hefyd yn cynnwys swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr a myfyrwyr eraill yn cynrychioli grwpiau neilltuol. Er enghraifft, mae cynrychiolwyr myfyrwyr ôl-radd, myfyrwyr cyfrwng Cymraeg, myfyrwyr rhyngwladol etc. yn aelodau. Bydd y Fforwm yn derbyn gwybodaeth am wahanol ddatblygiadau yn y Brifysgol a bydd myfyrwyr yn cael cyfle i godi unrhyw faterion sy'n peri pryder iddynt.

5.3.3 System Cynrychiolwyr Cyrsiau

Mae Cynrychiolwyr Cyrsiau yn rhan allweddol o ddarpariaeth addysgol sefydliad. Gallant roi adborth ar asesu, fframwaith cyrsiau, a phrofiad academaidd cyffredinol eu cyd-fyfyrwyr, i staff yn yr Ysgolion a'r Colegau ac i Undeb y Myfyrwyr (UyM). Mae ymwneud a chefnogaeth staff ar lefel Ysgol a Choleg yn hollbwysig i lwyddiant y system. Yn y gorffennol cydnabuwyd nad oedd Ysgolion cystal am gyhoeddi adborth i fyfyrwyr ar gamau a gymerwyd i wella darpariaeth.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2009/2010 fe wnaeth Undeb y Myfyrwyr, mewn cydweithrediad agos â'r Brifysgol, ymgymryd â phroject arbrofol i gryfhau ac ymestyn fframwaith traddodiadol pwyllgorau staff-myfyrwyr drwy gyflwyno system Cynrychiolwyr Cyrsiau wedi'i chysylltu ag Undeb y Myfyrwyr. Yn 2009 dim ond 35 o gynrychiolwyr myfyrwyr swyddogol oedd gan y Brifysgol, er bod yna lawer mwy yn anffurfiol o fewn Ysgolion; erbyn 2010, yn dilyn y project, cofnodwyd 225 o gynrychiolwyr gan UyM. At flwyddyn academaidd 2011/2012, etholwyd cynrychiolwyr myfyrwyr newydd erbyn Tachwedd 2011, ond nid oedd yr holl Ysgolion wedi cwblhau'r broses enwebu. Yn dilyn y cynllun arbrofol yn 2009/10 fe wnaeth yr Is-lywydd Addysg a Lles yn Undeb y Myfyrwyr ddatblygu'r system gynhwysfawr newydd hon a gymeradwywyd gan y Senedd yn Hydref 2011⁷⁷. Mae'r Brifysgol yn ystyried hyn yn welliant mawr, ac mae llawer o'r clod yn ddyledus i Is-lywydd Addysg a Lles UyM.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn darparu holl gefnogaeth weinyddol i'r system cynrychiolwyr, ac mae'n gwahodd yr holl fyfyrwyr sy'n gysylltiedig â'r cynllun i ddod i Hyfforddiant Cynrychiolwyr Cyrsiau UyM a chyfarfodydd Chyngor Cynrychiolwyr Cyrsiau UyM ddwywaith y semester. Darparodd y Brifysgol gyllid (cyllid Addysgu a Dysgu) i gael Cydlynedd Cynrychiolwyr Myfyrwyr ar gyfer 2011-2012. Bydd y penodiad newydd hwn yn gyfrifol am sicrhau fod gan bob Ysgol gynrychiolwyr cyrsiau etholedig yn unol â gofynion y cynllun. Mae holl gynrychiolwyr myfyrwyr newydd yn cael hyfforddiant gan UyM ar fframweithiau UyM, cynrychiolaeth a democratiaeth. Maent hefyd yn cynnig cefnogaeth ar eu gwefan <http://www.undeb.bangor.ac.uk/coursereps/>.

Dan y drefn hon, etholir Cynrychiolwyr Myfyrwyr gan y myfyrwyr i gynrychioli myfyrwyr ar bwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr. Mae Ysgolion Academaidd yn gyfrifol am gynnal etholiadau yn unol â'r canllawiau⁷⁸ a roddwyd iddynt, a dylai Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr mewn Ysgolion gyfarfod o leiaf ddwywaith bob semester. Caiff gofynion newydd ar gyfer cynrychiolwyr myfyrwyr Colegau eu cyflwyno yn ystod 2012/13.

Mae'r Brifysgol yn rhoi cefnogaeth lawn i'r cynllun hwn a arweinir gan Undeb y Myfyrwyr ac mae'n croesawu'r cyfraniad gwerthfawr mae'r system yn ei wneud. Caiff cydymffurfiaeth Ysgolion a Cholegau â'r System Cynrychiolwyr Cyrsiâu ei monitro fel rhan o gylch y brifysgol o Archwiliadau Ansawdd Mewnol, gan adrodd i'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu. Gall problemau brys yn ymwneud â chydymffurfio â'r System Cynrychiolwyr Cyrsiâu, sydd angen sylw y tu allan i'r cylch archwiliadau, gael eu cyfeirio gan yr Is-lywydd Addysg a Lles at y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysgu a Dysgu).

5.3.4 Cynrychiolaeth myfyrwyr ar gyrff gwneud penderfyniadau

Ceir cynrychiolwyr myfyrwyr (swyddogion Undeb y Myfyrwyr yn bennaf) ar Gyngor y Brifysgol, y Senedd, ac ar y rhan fwyaf o Grwpiau Tasg (e.e. Grwpiau Tasg yn ymdrin â materion rheolaethol fel Ystadau a Chyfleusterau, yn ogystal â chydag Addysgu a Dysgu, y Llyfrgell, TG, Gwasanaethau Myfyrwyr etc)⁷⁹. Yn ogystal, cafwyd cynrychiolydd myfyrwyr ar Bwyllgorau Penodi i rai swyddi sefydliadol uwch allweddol – megis y Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr) a'r Cyfarwyddwr Chwaraeon a Hamdden.

5.4 ADBORTH GAN FYFYRWYR

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod adborth gan ei myfyrwr yn agwedd hollbwysig ar ei phrosesau sicrhau a gwella ansawdd. Mae gan fyfyrwyr nifer o sianelau sy'n rhoi adborth i'r Brifysgol yn ymwneud â sicrhau a gwella ansawdd.

5.4.1 Adborth gan y Myfyrwyr yn Gyffredinol

Fel mater o bolisi ceir cynrychiolwyr myfyrwyr (drwy Bwyllgor Gweithredu Undeb y Myfyrwyr) ar banelau archwilio ansawdd mewnol, ac mae'r panel archwilio bob amser yn cyfarfod â grŵp sy'n cynrychioli myfyrwyr cyn cyfarfod ag aelodau staff. Ymhellach, mae'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu ar hyn o bryd yn ystyried cynnwys 'Cyflwyniad Ysgrifenedig gan Fyfyrwyr' yn y dogfennau sydd eu hangen ar gyfer archwiliad.

5.4.2 Gwerthuso Modiwlau

Mae angen i bob Ysgol ddefnyddio ffurflen addas i werthuso modiwlau, a all fod yn gopi caled neu ar-lein. Mae cydlynwyr modiwlau'n defnyddio hon ar ddiwedd modiwl i gael adborth gan y myfyrwyr a fu'n dilyn y modiwl. Dylai unrhyw adborth o'r fath gael sylw ar gynllun adolygu a datblygu blynyddol y modiwl (ffurflen QA2 a bwydo i mewn i'r ffurflen QA1), a hefyd ei drafod lle bo'n briodol ym Mhwyllgor Addysgu a Dysgu'r Ysgol. Mae crynodeb o'r gwerthusiadau modiwl ar gyfer y flwyddyn academaidd flaenorol yn cael ei ystyried gan banelau archwilio ansawdd mewnol.

5.4.3 Arolwg Mewnol Myfyrwyr

Yn 2011, penderfynodd y Brifysgol ailsefydlu arolwg mewnol boddhad myfyrwyr. Daeth yr un flaenorol i ben yn fuan ar ôl i'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr ddechrau gan fod pryderon ynghylch gorgyffwrdd a dyblygu. Cynhelir yr arolwg mewnol newydd at ddiwedd semester 2 yn 2012 a bydd wedi'i anelu at israddedigion ym mlwyddyn un a dau, a defnyddir yr un cwestiynau â'r rhai a geir yn yr ACM.

5.4.4 Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr

Mae'r Brifysgol wedi cymryd rhan yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr ers ei lansio yn 2005. Mae'r canlyniadau'n rhoi gwybodaeth werthfawr am y

meysydd y mae ein myfyrwyr yn llai bodlon yn eu cylch. Caiff canlyniadau'r Brifysgol ei hun eu dadansoddi'n fanwl ac adroddir arnynt i'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu (GTSAD)⁸⁰ ac i'r Senedd; ystyrir adroddiad cryno hefyd gan Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol. Cynhyrchir adroddiad manwl gyda chanlyniadau'n cael eu cyflwyno ar lefel Ysgol a rhaglen hefyd, ac fe'i hystyrir gan y GTSAD a'i ddosbarthu i Benaethiaid Ysgolion, ynghyd â'r sylwadau a gyflwynwyd yn yr Arolwg gan eu myfyrwyr. Mae'n ofynnol i Ysgolion drafod canlyniadau eu Hysgol, a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwelliant pellach. Cyflwynir y cynllun gweithredu i'r Cofrestrwydd Academaidd a chaiff ei adolygu wedyn gan y GTSAD a chan y Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu.

Mae canlyniadau ar gyfer meysydd neilltuol o'r Brifysgol, megis TG ac adnoddau Llyfrgell a materion anabled, hefyd yn cael eu hystyried gan y Grŵp Tasg perthnasol yn y Brifysgol.

5.5 CEFNOGI MYFYRWYR

Yr un adeg ar y penodwyd Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr yn 2010, fe wnaeth y Brifysgol ad-drefnu 'Gwasanaethau Myfyrwyr'. Cafodd y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, ynghyd â Cefnogaeth Myfyrwyr, y Gwasanaeth Anabled a'r Gwasanaeth Cynghori, eu dwyn ynghyd o fewn adran gyffredinol Gwasanaethau Myfyrwyr, a adleoliwyd yn ganolog yn Adeilad Rathbone. Mae project cyfalaf mawr newydd ar y gweill i helaethu'r adeilad hwn i gynnwys y Ganolfan Addysg Ryngwladol a Chanolfan Dyslecsia Miles er mwyn creu canolbwynt newydd o wasanaethau cefnogi canolog i fyfyrwyr.

Mae Gwasanaethau Myfyrwyr yn cynnwys rheoli a darparu gwasanaethau cefnogi sylweddol i fyfyrwyr. Mae eu hadain 'Cefnogaeth Myfyrwyr' yn cynnwys gwasanaeth gwybodaeth cynhwysfawr i fyfyrwyr am y prosesau gweinyddol, yn cynnwys goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â gohirio neu adael astudiaethau. Yn bwysicach fyth maent yn cynnig awyrgylch gyfrinachol ddiudedd lle gall myfyrwyr sôn am faterion y gallent deimlo'n anghyfforddus efallai yn eu trafod â'u hysgol academaidd. Mae darparu gwasanaeth cynghori penodol i fyfyrwyr sy'n ystyried gadael y Brifysgol yn un o gryfderau arbennig cefnogaeth Bangor i fyfyrwyr.

Mae Cefnogaeth Myfyrwyr yn gweithredu fel pwynt cyswllt i staff a all fod yn ansicr sut i ddelio ag achos neu ymholiad penodol yn ymwneud â myfyriwr, a gall Pennaeth Cefnogaeth Myfyrwyr gynnull cyfarfod Achos Brys lle mae ymddygiad myfyriwr yn destun pryder neilltuol. Yn y ffordd hon, mae dull gweithredu wedi'i gyd-drefnu yn sicrhau ymyriadau amserol, yn ogystal â sicrhau cysondeb mewn dull gweithredu a rhannu ymarfer gorau.

Mae Cefnogaeth Myfyrwyr yn defnyddio ystod o ddulliau i roi cyhoeddusrwydd i'w wasanaethau, yn cynnwys y we ac e-bost, yn ogystal â thrwy Undeb y Myfyrwyr ac ysgolion academaidd. Defnyddir arolygon ar-lein a ffurflenni adborth papur i werthuso'r gwasanaeth a'i ddatblygu. Mae gwerthuso gwasanaethau cynghori un-i-un yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar draws Gwasanaethau Myfyrwyr er mwyn adnabod dulliau ymarfer gorau a datrys materion yn ymwneud â'r dull a'r amseru gorau i gasglu adborth ar wasanaethau sy'n delio â materion sensitif a chyfrinachol.

5.5.1 Cynefino Myfyrwyr

Mae ysgolion academaidd, gwasanaethau canolog ac Undeb y Myfyrwyr yn cydweithio i ddarparu proses cynefino myfyrwyr integredig a gaiff ei chydlynu drwy gyfarfodydd rheolaidd o'r Gweithgor Cynefino a Chofrestru⁸¹, a gadeirir

gan y Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr. Mae'r Gweithgor yn adolygu'r broses gynefino, o wybodaeth cyn-fynediad i weithgareddau'r Wythnos Groeso, er mwyn rhannu ymarfer gorau a nodi argymhellion ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Mae'r Brifysgol yn recriwtio'n dda yn lleol ac yn darparu digwyddiadau cynefino penodol ychwanegol i gefnogi ein myfyrwr dibreswyl⁸². Caiff canlyniadau arolwg myfyrwyr o'r Wythnos Groeso⁸³ eu bwydo i'r adolygiad hwn a rhennir yr argymhellion â'r Grŵp Tasg Gwasanaethau Myfyrwyr sydd, yn ei dro, yn adodd wrth Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol. Dangosodd arolwg y llynedd i'r Wythnos Groeso fod yn brofiad cadarnhaol i 86% o fyfyrwyr, gyda'r Croeso Ffurfiol, cyfarfodydd â Thiworiaid Personol a Serendipity yn nodweddiadol mwyaf poblogaidd yr wythnos. Atgyfnerthir Wythnos Groeso Bangor gan ein Cynllun Arweinwyr Cyfoed, a ddisgrifir yn fanwl isod.

Mae'r Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr wedi tynnu sylw at gynefino ôl-radd fel maes i'w ddatblygu er mwyn sicrhau bod iddo'r un lled a dyfnder â'n proses gynefino i israddedigion, gan gymryd i ystyriaeth yr un pryd fod rhai cyrsiau ôl-radd yn dechrau ar amrywiol ddyddiadau. Mae is-grŵp o'r Gweithgor Cynefino a Chofrestru wedi cael ei gynnull i adolygu a datblygu prosesau cynefino ôl-radd at 2012/13.

5.5.2 Arweinwyr Cyfoed

Erbyn hyn mae Cynllun Arweinwyr Cyfoed Bangor yn gweithredu ers 17 mlynedd ac mae wedi ei sefydlu'n gadarn ar draws yr holl ysgolion academaidd gyda dros 500 o wirfoddolwyr yn cefnogi ein hisraddedigion newydd. Israddedigion yn eu hail, trydedd a phedwaredd flwyddyn yw Arweinwyr Cyfoed ac maent wedi'u hyfforddi i ddarparu ystod lawn o gefnogaeth yn cynnwys pob agwedd ar fywydau myfyrwyr, yn cynnwys materion cymdeithasol ac academaidd, a'u cyfeirio at wasanaethau cefnogi ffurfiol. Eu prif orchwyl yw helpu myfyrwyr newydd i ymgartrefu yn ystod eu hychydig fisoedd cyntaf yn y Brifysgol.

Trefnir y cynllun yn ganolog gan Gydlynnydd Arweinwyr Cyfoed, wedi'i lleoli yn Gwasanaethau Myfyrwyr, sy'n gweithio gyda rhwydwaith o gydlynwyr o fewn yr ysgolion academaidd ar draws y sefydliad. Y cydlynwyr ysgol hyn sy'n pennu holl fyfyrwyr newydd i Arweinydd Cyfoed cyn iddynt gyrraedd Bangor. Dan y cynllun ceir cymhareb o tua 1 Arweinydd Cyfoed i 5 myfyriwr newydd, sy'n galluogi Arweinwyr Cyfoed i roi cefnogaeth unigol i fyfyrwyr newydd.

Caiff y cynllun ei gloriannu bob blwyddyn drwy gyfrwng arolygon manwl gan fyfyrwyr, ac a anfonir hefyd at gydlynwyr mewn ysgolion academaidd. Defnyddir yr adborth hwn i ddatblygu'r cynllun yn gyson ac mae wedi arwain at nifer sylweddol o welliannau ers ei sefydlu.⁸⁴

Mae'r Arweinwyr Cyfoed yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr yn fewnol a gall eu weithgareddau ennill nifer sylweddol o bwyntiau iddynt tuag at Gymhwyster Cyflogadwyedd Bangor. Ymhellach, mae'r cynllun wedi cael cydnabyddiaeth allanol o'r gymuned AU ehangach, fel a ganlyn:

- fe'i cynhwyswyd fel astudiaeth achos ac enghraifft o ymarfer da gan y project STAR a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Ulster (2006/7)
- tynnwyd sylw ato yng nghynadledau undydd HEA (2006 a 2010)
- fe'i rhoddwyd ar y rhestr fer i dderbyn y *Times Higher Award* yn y dosbarth *Outstanding Support for Students* (2010)
- partner mewn project ymchwil *Pathways to Success through Peer Mentoring* a arweinir gan Brifysgol Aston ac sy'n rhan o raglen a

Mae'r gydnabyddiaeth hon wedi'i seilio ar led a dyfnder y ddarpariaeth, o ran nifer y gwirfoddolwyr a swm a math y gefnogaeth a roddir.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf cafwyd cynlluniau arbrolfol i ymestyn y cynllun arwain cyfoedion i fyfyrwyr ôl-radd newydd ac i hyfforddi Arweinwyr Cyfoed i fod yn Arweinwyr Astudio Academaidd er mwyn hwyluso Dysgu drwy Gymorth Cyfoedion. Y pwyslais yn y dyfodol fydd ar ddatblygu'r ddau gynllun hyn ymhellach fel eu bod yn cael eu sefydlu'n rhan o brofiad myfyrwyr ym Mangor mewn ffordd debyg i Arwain Cyfoedion.

5.5.3 System Tiwtoriaid Personol / Uwch Diwtor

Adolygwyd system gofal bugeiliol y Brifysgol yn Rhagfyr 2007 drwy Grŵp Tasg a Gorffen, a gadeiriwyd gan y Dirprwy Is-Ganghellor dros Addysgu a Dysgu. Edrychodd y Grŵp, a oedd yn cynnwys staff perthnasol a chynrychiolwyr myfyrwyr, ar ystod eang o faterion ac arweiniodd at ddatblygu Cod Ymarfer Cefnogaeth Fugeiliol⁸⁵, lle nodir cyfrifoldebau'r holl bartion yn glir. Caiff y cod ei werthuso'n rheolaidd gan y Grŵp Uwch Diwtoriaid er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac adlewyrchu cynlluniau newydd. (Mae'r Uwch Diwtor ym mhob Ysgol yn gyfrifol am oruchwylio gweithredu'r system Tiwtoriaid Personol.) Cred y Brifysgol bod y system Tiwtoriaid Personol yn cael ei chroesawu'n gyffredinol fel y gwelir yng nghanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr a sylwadau a wnaed gan Arholwyr Allanol.

5.5.4 Arweiniad Academaidd

Mae cefnogaeth gyffredinol gydag astudio ar gael i'r holl fyfyrwyr drwy gyfuniad o sesiynau galw i mewn ac adnoddau dwyieithog ar-lein ar sgiliau astudio a ddarperir drwy'r Ysgol Dysgu Gydol Oes. Mae'r sesiynau galw i mewn yn rhoi cyngor unigol ar faterion sgiliau astudio cyffredinol, megis cymryd nodiadau, ysgrifennu traethodau a sgiliau adolygu, yn ogystal â chefnogaeth gyda mathemateg ac ystadegau.

Rhoddir gwybod i fyfyrwyr am y sesiynau galw i mewn trwy ddulliau electronig a phapur, yn ogystal â thrwy weithdai rhagarweiniol a gynhelir yn ystod yr Wythnos Groeso. Cedwir cofnodion diennw ar ddefnyddio'r gwasanaeth, a chaiff nifer ac amseriad sesiynau galw i mewn ei addasu yn unol ag adborth gan fyfyrwyr.

Bwriedir datblygu Canolfan Sgiliau Astudio at 2012/13 er mwyn canoli ac ymestyn y gwasanaeth a ddarperir gan Dysgu Gydol Oes. Fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr, bydd y Ganolfan Sgiliau Astudio'n rhoi mynediad uniongyrchol i fyfyrwyr at gyngor a gwybodaeth ar bob agwedd ar sgiliau astudio a gweithio ar y cyd ag ysgolion academaidd i gefnogi sefydlu datblygu sgiliau yn gadarn o fewn y cwricwlwm. Caiff y ddarpariaeth ar-lein bresennol ei hymestyn ymhellach yn ystod 2012 trwy greu podcastiau dwyieithog i ychwanegu at yr ystod bresennol o ganllawiau astudio.

5.5.5 Gofal Bugeiliol mewn Neuaddau Preswyl

Mae'r cynllun wardeniaid yn rhoi cyngor, arweiniad a chefnogaeth i fyfyrwyr preswyl ar ystod o faterion yn ymwneud â byw mewn Neuaddau Preswyl, a bod yn fyfyrwr ym Mangor yn gyffredinol. Mae'r cynllun yn cynnig

gwasanaeth gofal bugeiliol 24 awr 365 diwrnod y flwyddyn, gan roi cefnogaeth i bron 2500 o fyfyrwyr.

Mae tîm ymroddedig o staff wedi'u hyfforddi yn gweithio ochr yn ochr â nifer o wasanaethau cefnogi eraill – Undeb y Myfyrwyr, Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr a Thiworiaid Personol. Mae'r tîm, sy'n gweithredu dan y Pennaeth Preswylfeydd a Phrif Warden, yn cynnwys dau Brif Warden Cynorthwyol (Staff Academaidd), chwech Uwch Warden (staff Academaidd a Gweinyddol) a 34 o Fyfyrwyr Wardeniaid (ôl-raddedigion neu fyfyrwyr hŷn yn bennaf). Mae'r Prif Wardeniaid Cynorthwyol a'r Uwch Wardeniaid yn byw gydol y flwyddyn mewn fflatiau ar y safleoedd preswyl, tra bo'r Myfyrwyr Wardeniaid yn byw yn y Neuaddau o Fedi hyd Fehefin, gydag wyth ohonynt yn aros yno i gyflawni dyletswyddau dros yr haf. Gall cefnogaeth gynnwys rhoi cyngor a gwrando, gan ymdrin â materion fel sŵn ac aflonyddu, salwch, pryder a straen, camddefnyddio alcohol a chyffuriau, iechyd meddwl a hunan-niweidio, a materion ymddygiad a disgyblu.

5.5.6 Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd (GGCh) yn wasanaeth integredig yn y Gwasanaethau Myfyrwyr. Mae'n darparu ystod eang o wasanaethau cynghori dwyieithog i fyfyrwyr, yn amrywio o gefnogaeth a chyfarwyddyd i unigolion, i gyflwyniadau yn ymwneud â chyrсияu penodol a hefyd amrywiaeth o gyflwyniadau a gweithdai canolog a chyffredinol sy'n agored i'r holl fyfyrwyr.

O fewn ysgolion academaidd mae gweithgareddau'n cynnwys cyflwyniadau a gweithdai penodol i gyrсияu neilltuol a gyflwynir i grwpiau blwyddyn, paneli cyfweld ffug, Ffair Swyddi Dysgu, Ffair Swyddi Lleol sy'n rhoi sylw i waith rhan-amser a thymhorol, gwaith gwirfoddol a gweithgareddau mentrau cymdeithasol, ac ystod eang o weithgareddau menter, yn cynnwys y rhaglen lwyddiannus iawn Menter trwy Ddylunio - a ddaeth yn ail orau am Wobr yr AGCAS - Categori Menter. Mae cefnogi ac annog myfyrwyr i ddod yn entrepreneuriaid a datblygu eu sgiliau menter yn elfen bwysig o wasanaethau GGCh. Trefnir seminarau, gweithdai a chystadlaethau ar ystod eang o faterion perthnasol, yn amrywio o sesiynau yn para awr yn unig i Wersyll Busnes 5 diwrnod. Gall myfyrwyr gael cyngor a chefnogaeth gychwynnol gan staff yn Byddwch Fentrus a'u cyfeirio at gefnogaeth fentora unigol i ddatblygu syniadau busnes.

Mae'r GGCh yn gweithio ar sefydlu Cytundeb Cyflwyno gydag ysgolion academaidd sy'n rhoi manylion am bartneriaethau a chysylltiadau staff yn yr ysgol, a'r pwyntiau cyflwyno y cytunwyd arnynt i roi mewnbynnau i gyrсияu ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Bydd y Cytundeb Cyflwyno'n gweithredu isafswm o hyfforddiant cyflogadwyedd i holl grwpiau blwyddyn a bydd yn ychwanegu at weithredu Cymhwyster Cyflogadwyedd Bangor ar draws pob ysgol yn 2012-13.

Er mwyn cefnogi darparu Cymhwyster Cyflogadwyedd Bangor⁸⁶ gan y Brifysgol, mae'r GGCh wedi datblygu fersiynau e-ddysgu o'i weithdai sgiliau rheoli gyrfa er mwyn rhoi mynediad rhwyddach at yr hyfforddiant allweddol hwn mewn sgiliau gyrfaoedd. Bydd datblygu dulliau cyflwyno ar-lein yn parhau hyd 2012 gyda chefnogaeth partneriaeth gydweithredol â Phrifysgol Aberystwyth.

5.5.7 Cyngor a Chefnogaeth Ariannol

Mae'r Uned Cefnogaeth Ariannol yn y Gwasanaethau Myfyrwyr yn cynnig cefnogaeth a chyngor unigol i fyfyrwyr cyn iddynt ddod i Fangor a thra byddant yn astudio yno. Rhoddir gwybodaeth am ffynonellau cyllid, budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, cyngor ar gyllidebu, ac asesu hawl myfyrwyr i gael arian o gronfeydd caledi. Mae Pwyllgor Caledi'n⁸⁷ pennu polisi cyffredinol ac mae is-grŵp (sy'n cynnwys academyddion uwch, cynrychiolwyr o Undeb y Myfyrwyr a staff y Gwasanaethau Myfyrwyr) yn cymeradwyo dyraniadau ariannol i fyfyrwyr. Yn ogystal, mae staff yn rhoi sgysiau yn Nyddiau Agored y Brifysgol ac mewn ymweliadau ag ysgolion a cholegau lleol, er mwyn rhoi gwybod i ddarpar fyfyrwyr a'u rhieni am y gefnogaeth ariannol sydd ar gael a chyngor defnyddiol arall cyn iddynt ddod i Fangor.

5.5.8 Myfyrwyr Hŷn

Mae gan y Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr 'Gynghorwr Myfyrwyr Hŷn' penodedig, sydd hefyd yn gyfrifol am roi cyngor i fyfyrwyr sy'n dod i'r Brifysgol o gefndir 'byw mewn gofal'. Yn gydnabyddiaeth am hyn, derbyniodd y Brifysgol Nod Ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle ym Mawrth 2008. I dderbyn y Nod Ansawdd hwn mae'n rhaid i'r Brifysgol gyflawni rhai meini prawf sy'n dangos ei hymrwymiad i gefnogi'r grŵp hwn o fyfyrwyr, o roi gwybodaeth iddynt cyn iddynt ddod i'r sefydliad a thrwy gydol cyfnod eu hastudiaethau, gan fod ar gael yn gyson i fyfyrwyr a all fod yn fregus yn aml.

5.5.9 Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau

Mae'r Brifysgol yn darparu cynllun bwrsariaeth hyblyg i israddedigion newydd o gartrefi gydag incwm o lai na £40,000. Nod y rhain yw diogelu mynediad teg a chynyddu'r gallu i ddal gafael ar fyfyrwyr, a chyfnerthu'r pecyn cymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru. Mae bwrsariaethau cychwyn ar gael hefyd i rai sy'n dod i'r Brifysgol o ofal. Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu ystod o ysgoloriaethau teilyngdod, ysgoloriaethau chwaraeon ac academiaidd, yn ogystal â hyd at 14 o Ysgoloriaethau Rhagoriaeth o £5000 yr un i fyfyrwyr newydd sydd â'r canlyniadau uchaf mewn meysydd pwnc perthnasol.

5.5.10 Tai Myfyrwyr

Yn y Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr, mae'r Swyddfa Tai Myfyrwyr yn cadw cronfa ddata o dai i'w rhentu yn y sector preifat. Mae'r rhain i gyd wedi llofnodi **Cod Prifysgol Bangor i Dai Rhannu Myfyrwyr yn y Sector Rhentu Preifat**.⁸⁸ Dewiswyd y meini prawf yn y Cod i adlewyrchu cydbwysedd rhwymedigaethau a chyfrifoldebau rhwng perchenogion a thenantiaid. Er mwyn cryfhau'r gwasanaeth y mae'n ei roi, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i weithio â StudentPad, cyfleuster chwilio ar-lein cenedlaethol i fyfyrwyr sy'n chwilio am lety yn y sector preifat. Mae fersiwn ddwyieithog o'r safle'n cael ei datblygu i'w defnyddio yn nechrau 2012.

5.5.11 Gwasanaeth Anabledd

Mae'r Gwasanaeth Anabledd, sydd yn rhan o'r Gwasanaethau Myfyrwyr, yn cynnig ystod eang o gyngor, cyfarwyddyd a chefnogaeth i fyfyrwyr sy'n datgelu bod ganddynt anabledd. Mae'r gwasanaeth ar gael i fyfyrwyr drwy gydol eu cyfnod yn y Brifysgol, ond mae ar gael hefyd i fyfyrwyr cyn iddynt ddechrau eu cwrs. Yn 2010/11 cysylltodd y gwasanaeth â 490 o ymgeiswyr a ddatgelodd bod ganddynt anabledd ar eu ffurflenni cais ac, erbyn diwedd 2010/11, roedd 400 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru â'r Gwasanaeth Anabledd.

Mae myfyrwyr cyfredol yn cael cefnogaeth a chyfarwyddyd personol ac academaidd. Mae Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol yn sicrhau bod myfyrwyr yn gallu mynd at gyfleusterau eu cwrs a'r Brifysgol, ac mae'r Cynllun Gweithiwr Cynnal yn darparu mentoriaid, ysgrifenyddwr nodiadau a chynorthwyrwyr i fyfyrwyr. Yn ogystal, mae gan bob ysgol academaidd aelod staff penodedig sy'n gweithredu fel cyswllt i fyfyrwyr anabl a chydweithwyr yn eu hadran.

Rhoddir gwybod i fyfyrwyr am y gwasanaeth hwn drwy'r wefan, prosiectws, dyddiau agored a gwybodaeth oddi wrth eu hysgol academaidd. Mae'r gwasanaeth yn casglu adborth drwy arolygon blynyddol myfyrwyr a grwpiau ffocws. Derbynnir yr adborth hwn gan y Gweithgor Anabledd a Grwpiau Tasg perthnasol er mwyn gwerthuso a gwella'r gwasanaeth yn barhaus.

Un gwelliant o'r fath yw'r Project Cynhwysiad-Inclusion, a sefydlwyd i integreiddio cynhwysedd i weithgareddau'r Uned Datblygu Academaidd (UDA) a'r rhaglen Addysgu mewn Addysg Uwch (tHE), y PGCertHE erbyn hyn. Roedd y project yn cynnwys datblygu cyfarwyddyd a hyfforddiant i staff dysgu ar weithgareddau addysgu a dysgu cynhwysol ar Blackboard, yn ogystal â chreu gwefan gynhwysfawr yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau perthnasol i hybu ymarfer cynhwysol yn ymwneud â myfyrwyr anabl.

Gan edrych ymlaen, mae'r Gwasanaeth Anabledd yn bwriadu symud ymlaen â hyfforddiant mewnol presennol a datblygu cymhwyster wedi'i achredu i weithwyr cefnogi, yn ogystal â hyrwyddo ei waith cynhwysol i ystod eang o adrannau gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y profiad a gaiff myfyrwyr anabl ym Mhrifysgol Bangor o'r ansawdd uchaf posibl. Mae'r Gwasanaeth Anabledd yn cydweithio'n agos â Chanolfan Dyslecsia Miles, sydd wedi'i lleoli yn yr Ysgol Seicoleg, fel y disgrifir isod.

Cysylltir yn ystod y cyfnod ymgeisio â myfyrwyr sy'n datgan bod ganddynt anabledd a rhoddir gwybodaeth iddynt am gefnogaeth Bangor i fyfyrwyr anabl. Mae Myfyrwyr anabl o'r DU yn gymwys i dderbyn y Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA). Cyn iddynt gyrraedd Bangor cânt eu gwahodd i Ganolfan Fynediad y Brifysgol (neu i unrhyw Ganolfan Fynediad ranbarthol arall) lle'r asesir eu hanghenion astudio. Wedyn gwneir cais am DSA ac, os bydd yn llwyddiannus, telir am gefnogaeth astudio i'r myfyriwr. Mae'r Brifysgol yn cynnal gwasanaeth DSAkit i fyfyrwyr. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu offer TG, meddalwedd a hyfforddiant i fyfyrwyr anabl, lle pennir hynny gan gyrff cyllido fel rhan o'r broses DSA. Mae gan y Ganolfan Fynediad a DSAkit ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n adrodd i'r corff rheoli, sef y Grŵp Sicrhau Ansawdd Lwfansau Myfyrwyr Anabl.

5.5.12 Canolfan Dyslecsia Miles

Ers canol y 1970au, pan ffurfiwyd Uned Ddyslecsia ar sail ymchwil arloesol gan yr Athro T R Miles yn yr Ysgol Seicoleg, mae'r Brifysgol wedi bod yn darparu cefnogaeth sylweddol i fyfyrwyr (a darpar fyfyrwyr) ac i blant ysgol ac oedolion lleol sy'n ddyslecsig. Am flynyddoedd lawer, Bangor oedd yr unig

Brifysgol ym Mhrydain i wneud hynny. Mae Canolfan Dyslecsia Miles⁸⁹ yn cefnogi myfyrwyr dyslecsig, a rhai sydd â gwahaniaethau dysgu penodol eraill (SpLDs), mewn awyrgylch ddysgu integredig a chynhwysol. Mae'r Ganolfan yn darparu asesiadau ar ddyslecsia / SpLDs eraill, cyngor a chyfarwyddyd ar ôl asesu, asesiadau anghenion astudio DSA, a chyngor tiwtorial arbenigol, yn Gymraeg a Saesneg. Mae tua 625 wedi'u cofrestru â'r ganolfan. Mae staff yn gweithio â myfyrwyr i gytuno ar Gytundebau Cefnogaeth Ddysgu Bersonol, sy'n nodi addasiadau i'w gwneud gan y Brifysgol (e.e. yn ymwneud ag arholiadau ac asesu) gyda gwybodaeth yn cael ei hanfon fel bo'n briodol at ysgolion academaidd a gwasanaethau canolog.

Er mwyn gwneud myfyrwyr yn gyffredinol yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd i'w chael yno, mae staff y Ganolfan yn rhoi cyflwyniadau mewn dyddiau agored a chynefino a chynhyrchu amrywiaeth o ddeunydd cyhoedduswydd printiedig ac electronig. Ar lefel pwyllgor, a thrwy'r fframwaith Cyswllt Anabledd, mae'r Ganolfan yn hyrwyddo achos myfyrwyr â gwahaniaethau dysgu penodol, ac mae pecyn staff, *Myfyrwyr Dyslecsig ym Mangor*⁹⁰, ar gael ar wefan y Ganolfan. Mae staff yn rhoi hyfforddiant ar y cwrs PGCertHE, cynnig sesiynau gwybodaeth i Ysgolion, a rhoi gweithdai rheolaidd i ddarparwyr lleoliadau ym meysydd nyrsio, gwaith cymdeithasol a dysgu.

Ceir adborth gan fyfyrwyr sy'n defnyddio'r Ganolfan drwy grwpiau ffocws ac yn ffurfiol drwy holiadur blynyddol. Mae'r Ganolfan yn ymateb i adborth drwy wneud addasiadau i ddulliau ymarfer, a lledaenu gwybodaeth o fewn y Brifysgol yn ehangach fel bo'n briodol. Yn gyffredinol, mae adborth yn hynod gadarnhaol ac mae'r gwasanaeth yn un o gryfderau amlwg Bangor. Yn ddiweddar mae'r Ganolfan wedi datblygu tîm o aseswyr arbenigol ar Wahaniaethau Dysgu Penodol mewn Addysg Uwch, ac mae'n datblygu deunyddiau profi yn Gymraeg. Mae fframwaith newydd i Sicrhau Ansawdd cefnogaeth arbenigol yn cael ei ddefnyddio'n arbrol ar hyn o bryd er mwyn datblygu fframwaith monitro mwy ffurfiol.

5.5.13 Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr

O ganlyniad i'r cynnydd yn y galw am wasanaethau cynghori myfyrwyr, cynyddwyd adnoddau staff yn 2011 i roi 3 o gynghorwyr myfyrwyr llawn-amser. Gyda'r cynnydd mewn adnoddau, nod y gwasanaeth yw gweithio'n fwy strategol i gwrdd ag anghenion a datblygu ei ymyriadau cynorthwyo a llwybrau cyfeirio, a'i allu i fonitro a mesur ei werth a'i ddylanwad ar fywyd y Brifysgol a phrofiad myfyrwyr. Ar hyn o bryd cryfderau'r gwasanaeth yw ansawdd uchel, profiad proffesiynol a statws ei staff cynghori, a'i gysylltiadau da ag adrannau'r Brifysgol a gwasanaethau allanol. Bydd datblygiadau yn y dyfodol yn cynnwys ymestyn darpariaeth gweithdai ac ar-lein, yn ogystal â rhoi cefnogaeth bellach i staff gyflawni dyletswyddau bugeiliol drwy hyfforddiant, goruchwyliaeth a chefnogaeth ymgynghorol. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn edrych ar ddulliau arloesol o hwyluso mynediad i gleientiaid drwy ddatblygu systemau cofrestru ar-lein newydd, yn ogystal â datblygu mesurau canlyniad sy'n dangos effeithiolrwydd cynghori.

5.5.14 Gwasanaeth Lles Myfyrwyr Rhyngwladol

Rhoddir cefnogaeth i fyfyrwyr rhyngwladol (o'r Undeb Ewropeaidd a thu allan iddo) gan dîm o bedwar staff sydd wedi'u lleoli yn y Ganolfan Addysg Rhyngwladol.

Mae'r Gwasanaeth Lles Myfyrwyr Rhyngwladol yn rhoi cyngor a chefnogaeth i fyfyrwyr rhyngwladol a'u teuluoedd cyn iddynt gyrraedd a phan maent yn

cyrraedd, ac mae'n parhau â'r gwaith hwn drwy gydol cyfnod y myfyrwyr yn y Brifysgol. Darperir ystod o wasanaethau ar nifer o faterion, a'r nod drwodd a thro yw sicrhau bod myfyrwyr rhyngwladol yn cael profiad cadarnhaol ym Mangor.

Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio ar ddatblygu ei gysylltiadau â'r gwahanol ysgolion academiaidd a gwasanaethau canolog yn y Brifysgol. Er 2010 cynhaliwyd cyfres o sesiynau datblygu staff, lle tynnwyd sylw at faterion yn ymwneud â myfyrwyr rhyngwladol gan annog staff i weld y gwasanaeth fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer materion yn ymwneud â myfyrwyr tramor. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi bod yn datblygu cysylltiadau â'r gymuned ehangach ym Mangor er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfle i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael y tu allan i'r Brifysgol. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod mwy o fyfyrwyr yn dod â'u teuluoedd i Fangor ac mae darparu cefnogaeth ychwanegol i'r grŵp hwn yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth.

I gefnogi'r Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr, bydd y gwasanaeth yn cydweithio ag Undeb y Myfyrwyr i ddatblygu gweithgareddau cymdeithasol newydd a fydd yn apelio at fyfyrwyr rhyngwladol a chartref a chefnogi datblygiad parhaus ein cymuned gynhwysol yn y Brifysgol.

5.5.15 Canolfan Iaith Saesneg i Fyfyrwyr Tramor

Sefydlwyd y Ganolfan Iaith Saesneg i Fyfyrwyr Tramor (ELCOS) ym Mhrifysgol Bangor yn 1985. Diben y Ganolfan yw cynllunio a chyflwyno cyrsiau o ansawdd uchel i fyfyrwyr israddedig ac ôl-radd cyn iddynt ddechrau ar eu cyrsiau academiaidd a thra byddant yn astudio.

Yn ddiweddar daeth ELCOS yn rhan o'r Ganolfan Addysg Ryngwladol a ffurfiwyd yn ddiweddar ac a fydd yn dwyn at ei gilydd yr amrywiol weithgareddau yn y brifysgol sy'n delio â'r farchnad ryngwladol.

Ar hyn o bryd, mae ELCOS yn cyflwyno 6 o gyrsiau cyn-sesiynol o wahanol hyd, yn amrywio o 42 wythnos i 4 wythnos. Rydym hefyd yn cyflwyno 13 o fodiwlau â chredydau y gall myfyrwyr eu dilyn wrth astudio yma; 10 i fyfyrwyr ar raglenni israddedig a 3 i ôl-raddedigion ymchwil.

Yn ogystal, mae ELCOS yn darparu hyfforddiant am ddim i bartneriaid myfyrwyr ôl-radd presennol; dosbarthiadau cymorth ysgrifennu am ddim i ôl-raddedigion ymchwil; tiwtorialau un-i-un i ôl-raddedigion yn ôl y galw (hyd at 5 awr y flwyddyn i bob myfyriwr), ac rydym wedi'n cofrestru'n ganolfan brofi Cambridge Suite/IELTS.

Mae ELCOS yn cefnogi tua 400 – 500 o fyfyrwyr yn flynyddol drwy'r ddarpariaeth a ddisgrifiwyd uchod.

Mae ELCOS ar ddechrau proses gyffrous o sefydlu mwy o gysylltiadau â'r brifysgol ehangach er mwyn cynllunio, datblygu a gweithredu cefnogaeth yn ymwneud â disgyblaethau penodol. Rydym wedi gweithredu rhai projectau arbrofol gyda'r Ysgol Busnes a'r Ysgol Gwyddorau Biolegol; mae'r rhain yn datblygu'n dda a bwriadwn helaethu'r ddarpariaeth hon yn ystod y blynyddoedd i ddod.

5.5.16 Ystafell Ffydd/Dawel

Mae'r Brifysgol yn darparu Ystafell Dawel yn adeilad Rathbone i unrhyw fyfyrwr sydd eisiau lle tawel i fyfyrion neu weddio. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn ystyried creu cyfres o ystafelloedd i ddarpariaeth ffydd, a fydd yn cynnwys Ystafell Dawel fechan ac Ystafell Dawel fwy, addas ar gyfer gweddio mewn grwpiau, ynghyd â swydd newydd Swyddog Ffydd y Brifysgol. Bwriad y swydd newydd hon yw cefnogi grwpiau ffydd a gweithgareddau a fydd yn cynnwys pobl o wahanol ffydd.

5.5.17 Gwasanaethau Eraill

Mae'r Brifysgol yn cefnogi a chydlynu ystod eang o wasanaethau cefnogi mewnol ac allanol i fyfyrwr er mwyn darparu rhwydwaith cefnogi integredig a chynhwysfawr i'n holl fyfyrwr. Cefnogir gwasanaeth Nawdd Nos Undeb y Myfyrwr gan y Brifysgol drwy ddarparu lle ar ei gyfer a chyfraniadau at gostau ei gynnal. Mae tîm Caplaniaid y Brifysgol yn gysylltiedig â'r Gwasanaethau Myfyrwr ac mae'n derbyn cyllideb flynyddol i roi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth gwirfoddol hwn a'i hyrwyddo ymysg myfyrwr. Mae Canolfan Iechyd Bodnant yn gweithio â'r Brifysgol i ddarparu gwasanaethau iechyd penodol i fyfyrwr. Datblygwyd y rhain yn unol â sylwadau gan fyfyrwr a ddarparwyd gan y Gwasanaethau Myfyrwr ac Undeb y Myfyrwr. Mae'r Grŵp Tasg Gwasanaethau Myfyrwr a'r Grŵp Cydlynu Lles Myfyrwr yn cynnwys y Tîm Caplaniaid, Undeb y Myfyrwr a Chanolfan Iechyd Bodnant er mwyn hwyluso cydlynu a gwerthuso'r rhwydwaith cefnogaeth hwn.

5.5.18 Profiad Ehangach y Myfyrwr

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod gan fyfyrwr fynediad llawn at ystod o gyfleusterau, gweithgareddau a chefnogaeth a fydd yn eu galluogi i elwa i'r eithaf ar eu cyfnod ym Mangor. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i'w datblygiad corfforol, diwylliannol, dinesig a phersonol. Yn ddiweddar ailsefydlodd y Brifysgol brynhawniau Mercher fel cyfnod a neilltuir ar gyfer gweithgareddau all-gwricwlaidd.

5.5.19 Chwaraeon

Mae chwaraeon yn rhan allweddol o fywyd y campws. Mae myfyrwr yn cymryd rhan mewn chwaraeon tîm ac unigol ar lefel leol a chenedlaethol ac maent wedi gwella eu safle BUCS yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Brifysgol wedi llunio Strategaeth Chwaraeon a Hamdden⁹¹ newydd (sydd â chynyddu cymryd rhan mewn chwaraeon yn flaenoriaeth allweddol iddi) ac, fel cam cyntaf tuag at ei gweithredu, penododd Gyfarwyddwr Chwaraeon a Hamdden yn ddiweddar. Elfen allweddol o'i swydd fydd cryfhau ac ailddatblygu cyfleusterau chwaraeon ar draws y campws, gan ganolbwyntio ar gynyddu lefelau cyfranogi yn yr holl feysydd. Bydd hyn yn golygu cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol, gyda phartneriaid allanol (yn cynnwys cyrff llywodraethu gwahanol chwaraeon) a chydag Ysgol Gyddor Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer y Brifysgol.

5.5.20 Gweithgareddau Diwylliannol

Mae bywyd diwylliannol hefyd yn flaenoriaeth uchel. Caiff y rhaglen ddiwylliannol bresennol, yn cynnwys y gyfres Cerddoriaeth ym Mangor⁹² a'r rhaglen ddiwylliannol Cerrig y Rhyd⁹³, ei hatgyfnerthu ymhellach yn fuan pan agorir datblygiad newydd Pontio yn 2013. Yno ceir y cyfleusterau diweddaraf i berfformio'r celfyddydau ar gyfer cwmnïau ar ymweliad a gweithgareddau dan arweiniad myfyrwr. Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n ddiweddar mewn clwb

nos newydd i Undeb y Myfyrwyr ac mae hefyd wedi neilltuo lle sylweddol yn natblygiad newydd Pontio i gyfleusterau Undeb y Myfyrwyr.

5.6 GWASANAETH LLYFRGELL AC ARCHIFAU

Gwahanwyd y Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau oddi wrth y Gwasanaethau TG yn 2005 (o'r blaen roedd yn rhan o'r 'Gwasanaethau Gwybodaeth') ac mae'n awr dan reolaeth uniongyrchol Llyfrgellydd y Brifysgol. Ailsefydlwyd y swydd hon yn Rhagfyr 2011 ar ôl bwch o sawl blwyddyn. Mae Llyfrgellydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau TG yn adrodd yn weithrediadol a strategol i'r Cyfarwyddwr Gwella Busnes. O ran llinellau atebolrwydd, mae'r Gwasanaethau TG a'r Llyfrgell yn adrodd i'r Pwyllgor Gweithredu drwy eu gwahanol grwpiau tasg⁹⁴, a gadeirir gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysgu a Dysgu).

Ar hyn o bryd mae chwe changen i'r Llyfrgell. Mae'r rhain yn cynnwys y Brif Lyfrgell (ym Mhrif Adeilad y Brifysgol), Llyfrgell y Gwyddorau (Adeilad Deiniol), a llyfrgelloedd llai ar Safle'r Normal (Ysgol Addysg a'r Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, lechyd ac Ymarfer), yr Ysgol Cerddoriaeth, Safle Fron Heulog (Ysgol Astudiaethau Nyrsio, Bydwreigiaeth ac lechyd), a Chanolfan Archimedes (Ysgol Astudiaethau Nyrsio, Bydwreigiaeth ac lechyd, Ysgol Radiograffeg – Wrecsam). Cafwyd peth datblygu diweddar, yn cynnwys darparu manau dysgu cymdeithasol yn y Brif Lyfrgell a Llyfrgell Safle'r Normal. Mae gan y Brifysgol raglen ddatblygu bellach ym mhob un o'r prif lyfrgelloedd, yn cynnwys lle dysgu cymdeithasol, cyfleusterau TG, ystafell Ymchwil Ôl-radd, lleoedd i astudio'n unigol a thawel ac ystafelloedd ar gyfer gwaith grŵp gyda chyfleusterau cyflwyno diweddaraf. Mae Darllenfa Shankland yn y Brif Lyfrgell yn cael ei hadnewyddu yn dilyn ymgyrch lwyddiannus i godi arian. Cynhelir adolygiad o oriau agor yn ogystal.

Un o brif ddibenion y Gwasanaeth Llyfrgell a'r Archifau yw darparu mynediad effeithiol i ddysgwyr ac ymchwilwyr at wybodaeth gyhoeddedig ac anghyhoeddedig sydd ei hangen i sicrhau rhagoriaeth mewn dysgu, ymchwil ac ysgolheictod a rhoi Profiad Myfyrwyr yn y lle blaenaf yng ngweithgareddau'r Llyfrgell ac Archifau. Rhan allweddol o'r Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau yw darparu sgiliau gwybodaeth a chefnogaeth defnyddwyr i fyfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys meysydd fel chwilio am wybodaeth a'i chanfod, defnyddio e-lyfrau, e-gyfnodolion ac e-gronfeydd data, gwerthuso gwybodaeth, llên-ladrad, cyfeirnod a defnyddio systemau cyfeirnod. Cydnabyddir bod yna ddiffyg yn y ddarpariaeth hon gan arwain at wasanaeth anghyfartal i rai myfyrwyr. Mae dull cydweithredol aml-asiantaeth i ddarparu sgiliau astudio a sgiliau gwybodaeth yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau hefyd yn edrych ar ad-drefnu'r staff presennol er mwyn darparu cefnogaeth bellach i ddefnyddwyr y Llyfrgell o ran sgiliau gwybodaeth a gwybodaeth llythrennedd, a sicrhau cefnogaeth i'r ystorfa sefydliadol ac ymchwil yn gyffredinol.

Wrth gwrs, mae'r Llyfrgell yn chwarae rhan ehangach o ran darparu gwasanaeth i'r gymuned yn fwy cyffredinol, a chefnogi ymrwymiad y Brifysgol i iaith, diwylliant, iechyd ac economi Cymru a chymdeithas yn gyffredinol.

Mae'r Llyfrgell yn cynnwys dros 800,000 o eitemau printiedig ac mae'n tanysgrifio i tua 12,000 o gyfnodolion, y rhan fwyaf mewn fformat electronig. Mae ystod gynyddol o lyfrau electronig ar gael yn ôl y galw, gyda'r defnyddwyr yn dewis yr hyn y dylid ei ychwanegu at gasgliad e-lyfrau y Llyfrgell. Mae oddeutu 5,600 o e-lyfrau wedi cael eu dewis gan ddefnyddwyr a'u hychwanegu at y stoc yn y ffordd hon.

Gellir gwneud cais am ddeunydd nad yw gan Lyfrgell y Brifysgol gan ddefnyddio gwasanaethau danfon dogfennau (neu fenthyciadau rhyng-lyfrgelloedd). Yn ogystal, mae'r Llyfrgell yn darparu casgliad benthyciad byr o eitemau y mae galw mawr amdanynt a nifer gynyddol o gopiâu digidol o ddeunyddiau darllen cyrsiau a chyn

bapurau arholiad ar-lein. Mae catalog y llyfrgell yn cynnwys yr offer chwilio diweddaraf ac mae'n rhoi cysylltiadau at gyfnodolion a llyfrau electronig y gellir mynd atynt o unrhyw le ar y campws neu oddi arno 24/7. Mae'r Llyfrgell hefyd yn rhoi mynediad at gronfeydd data testun llawn a chrynodebau, gyda chysylltiadau o'r olaf at erthyglau testun llawn.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae adnoddau ar gyfer llyfrau Llyfrgell wedi cael eu datganoli i Golegau (a'u datganoli ymhellach gan Golegau i Ysgolion). Diben y symudiad hwn oedd rhoi'r cyfrifoldeb dros bennu gwariant ar lyfrau ar lefel Ysgol/pwnc lle gellir barnu hynny'n fwyaf priodol. Defnyddir adnoddau canolog o hyd yn achos cyfnodolion ac e-lyfrau. Teimla'r Brifysgol, fodd bynnag, bod hyn mewn gwirionedd wedi arwain at ddarpariaeth anwastad. Felly, mae'r Grŵp Tasg Llyfrgell ac Archifau'n cynnal arolwg cynhwysfawr o'r ddarpariaeth Llyfrgell. Bydd hyn yn cynnwys y model cyllido Cronfa Lyfrau/Adnoddau Gwybodaeth, cynhyrchu rhestrau darllen, defnyddio system rhestrau darllen ar-lein, sgiliau gwybodaeth a digonolrwydd cyffredinol y ddarpariaeth. Y nod yw sicrhau y darperir gwasanaeth mwy teg i fyfyrwyr drwy gydol eu rhaglen astudio erbyn Medi 2012.

Yng nghanlyniadau Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2011 cafwyd sgôr cymedrig o 4.0 i gwestiwn 16 (sef 'Mae adnoddau a gwasanaethau'r llyfrgell yn ddigon da ar gyfer fy anghenion' - gofynnwyd i fyfyrwyr ddefnyddio graddfa boddhad o 1 – 5, gyda 5 yn sefyll dros 'bodlon iawn'). Caiff sylwadau o'r ACM yn ymwneud â'r Llyfrgell eu codi o'r arolwg a'u bwydo i Gynllun Strategol y Llyfrgell ac Archifau gan y tîm rheoli. Caiff cynnydd ei fonitro gan y Grŵp Tasg Llyfrgell ac Archifau yn erbyn cynllun gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth. Cred y Brifysgol y dylai'r Gwasanaeth Llyfrgell gael ei gryfhau a'i wella ac y gellir gwneud hynny.

Archifau a Chasgliadau Arbennig

Mae Archifau a Chasgliadau Arbennig y Brifysgol yn cael eu cydnabod fel un o'r casgliadau gorau o lawysgrifau a dogfennau yng Nghymru, os nad ym Mhrydain. Maent yn cael eu cydnabod fel man cadw cyfreithiol gan yr Archifau Gwladol, gyda deunydd yn mynd yn ôl cyn belled â'r oesoedd canol cynnar yn cael eu cadw yma. O bwysigrwydd arbennig mae'r dogfennau a phapurau'n ymwneud â hanes rhai o ystadau tiriog Gogledd Cymru.

Mae gan y Brifysgol gynlluniau i godi proffil a hygyrchedd casgliadau'r Archifau drwy greu lle cyhoeddus gwell ar eu cyfer, gyda chanolfan addysgol i sicrhau y gellir rhoi lle priodol i addysgu ac ymchwil. Yn 2010 comisiynodd y Brifysgol Arolwg Asesu Cadwraeth gan y Preservation Advisory Centre ac mae'n gweithio nawr i sicrhau bod y casgliadau'n cael eu cadw dan safonau cydnabyddedig fel y nodir yn BS5454.

5.7 CYFLEUSTERAU A GWASANAETHAU TG

Nod y Brifysgol, trwy ei gwasanaeth TG, yw darparu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau TG gorau i fyfyrwyr. Yn Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2011 cafwyd sgôr o 89% i gwestiwn 17, "Rwyf wedi medru cael mynediad at adnoddau TG cyffredinol pan oeddwn angen hynny", sy'n dangos bod Bangor yn llwyddo yn hyn o beth. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y sector o 84%, ac yn well, er enghraifft, na sgôr Prifysgolion megis Abertawe, Caerdydd ac Exeter.

Dros y blynyddoedd diwethaf datblygwyd darpariaeth TG i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio mewn amrywiaeth o fannau – yn y Brifysgol, mewn neuaddau preswyl, gartref, yn y gweithle, ac yn unrhyw le gyda chyswllt rhyngwryd. Blackboard, DesktopAnywhere a BangorPortal yw asgwrn cefn darpariaeth TG hyblyg y Brifysgol.

Defnyddir Blackboard yn helaeth ar gyfer addysgu a dysgu, DesktopAnywhere i fynd at feddalwedd trwyddedig y Brifysgol o unrhyw le gyda chyswllt rhwydwaith, a BangorPortal i fynd at wasanaethau ar-lein, megis amserlenni a marciau ar-lein. Gellir ei ddefnyddio i ddiweddarau manylion gweinyddol ac i roi golwg glir ar sefyllfa ariannol myfyrwyr yn y Brifysgol. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn gweithio tuag at gael rhyngwyneb TG mwy hwylus fyth.

Mae nifer y PCs/Macs sydd ar gael i fyfyrwyr wedi aros yn weddol sefydlog. Ceir tua 1,150 at ddefnydd myfyrwyr ar draws y Brifysgol, yn cynnwys neuaddau preswyl, manau astudio ac ystafelloedd dysgu. Ceir naw ystafell gyfrifiaduron sy'n agored 24 awr y dydd, ac mae cyfleusterau argraffu ar gael yn yr ystafelloedd hyn ac ar draws y Brifysgol; mewn llyfrgelloedd, er enghraifft. Cedwir golwg ar ddefnyddio cyfrifiaduron er mwyn asesu gofynion darparu PCs/Macs. Rhagdybir y bydd y galw yn lleihau wrth i fyfyrwyr barhau i ddod â'u hoffer eu hunain i'r Brifysgol. Darperir storfeydd ffeiliau personol a rhannu i fyfyrwyr lle gallant gadw eu gwaith Prifysgol a gweithio arno.

Mae'r holl 2,245 o ystafelloedd cysgu/astudio yn y neuaddau preswyl wedi'u rhwydweithio, ac mae ganddynt gyswllt sy'n well na'r cyswllt band llydan domestig lleol. Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n drwm mewn cyfleusterau diwifr yn yr holl fannau i fyfyrwyr ar y campws – llyfrgelloedd, manau dysgu cymdeithasol, ystafelloedd cyffredin, caffis etc. Mae cyfleusterau diwifr mewn 37 o adeiladau, gyda dros 434 o bwyntiau mynediad diwifr wedi eu gosod. Gwelwn yr angen am hyn yn parhau i gynyddu. Gofynnodd Undeb y Myfyrwyr i'r Brifysgol ddarparu gliniaduron i fyfyrwyr eu benthyca – ar ôl 3 blynedd lwyddiannus o ddarparu'r rhain, a'u defnyddio'n helaeth gan fyfyrwyr, mae dros 50 o gyfrifiaduron â darpariaeth ddiwifr ar gael i fyfyrwyr.

Mae tua 50 darn o feddalwedd a gefnogir yn ganolog ar gael drwy rwydwaith y Brifysgol ac, lle mae'r drwydded yn caniatáu, maent ar gael hefyd dros y rhyngwyd drwy'r gwasanaeth DesktopAnywhere. Mae gwirwyr sillafu a geiriaduron ar-lein Cymraeg a ddatblygwyd yn y Brifysgol ar gael ar yr holl gyfrifiaduron wedi'u rhwydweithio, a hefyd gyfleusterau eraill, e.e., Blackboard, Microsoft Office etc., lle mae meddalwedd Cymraeg ar gael.

Mae'r Ganolfan Cefnogi TG yn rhoi cyngor a chymorth dwyieithog i staff a myfyrwyr ar y ffôn, drwy e-bost neu wyneb yn wyneb. Dros y tair blynedd ddiwethaf darparwyd sesiwn gynefino TG i israddedigion ar ddechrau'r tymor ac, yn dilyn ei lwyddiant, bydd ar gael i fyfyrwyr ôl-radd Hyfforddedig ac Ymchwil ym Medi a thrwy gydol y flwyddyn. Yn achos myfyrwyr newydd, mae'r broses o roi cyfrif TG iddynt yn dechrau cyn iddynt gyrraedd Bangor er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau cyn-sesiynol ar-lein. Yn achos myfyrwyr newydd sy'n dod i neuaddau preswyl, mae staff y Gwasanaethau TG wrth law ddydd Sul Wythnos y Glas i'w helpu i gysylltu eu cyfrifiaduron personol yn y neuaddau, ac i sicrhau bod eu cyfrif TG a'u cyfrinair Prifysgol yn gweithio'n iawn cyn dechrau'r wythnos groeso.

Yn llyfrgelloedd Deiniol a Phrif Lyfrgell y Celfyddydau ceir ystafell gyda chyfleusterau technoleg penodol at ddefnydd myfyrwyr anabl, gydag amrywiaeth o feddalwedd i'w cynorthwyo. Ceir bolgrynnwr Braille hefyd, sganiwr Rainbow, chwyddwr CCTV a dodrefn y gellir addasu eu huchder. Mae hyn yn ychwanegu at ddarpariaeth y Ganolfan Fynediad a'r DSAkit i fyfyrwyr anabl (gweler tudalen 81).

Darperir cyfleusterau ar y safle yn yr ystafell argraffu ddigidol a'r adran rwydo i argraffu a rhwymo theses myfyrwyr.

Mae'r tîm Technoleg Dysgu yn y Gwasanaethau TG yn rhoi gwasanaeth cefnogi a chynghori cynhwysfawr i staff academaidd. Mae'r staff yn cyfrannu at raglenni a gynhelir gan yr Uned Datblygu Academaidd i staff ar ddechrau eu gyrfa ac maent yn cynnal cyfres o weithdai technegol i staff. Yn fwy diweddar, mae'r tîm wedi gweithio

gydag academyddion i gyhoeddi cyfres o astudiaethau achos i helpu i ledaenu ymarfer da ar draws y Brifysgol.

Mae'r Gwasanaethau TG yn darparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu i staff ym maes Sgiliau TG. Mae'r sesiynau hyn yn aml yn adlewyrchu ffurflenni gwerthuso staff a dderbynnir gan Adnoddau Dynol ac maent yn cynnwys cyrsiau byrion ar y prif becynnau meddalwedd a ddefnyddir ar draws y Brifysgol. Caiff sesiynau hyfforddi'r Gwasanaethau TG eu haddasu at anghenion unigolion ac fe'u cyflwynir i grwpiau bychain.

5.8 DYSGU Â CHYMORTH TECHNOLEG

Ers dros ddegawd mae Dysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg wedi bod yn allweddol i Strategaeth Addysgu a Dysgu'r Brifysgol. Dylanwadwyd ar ddatblygiadau gan Strategaeth HEFCW yn 2008 ar Ddysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg, strategaeth a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn 2011.

Mae Dysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r profiad dysgu ym Mangor. Defnyddir Blackboard fel yr amgylchedd dysgu rhithwir. Fe'i sefydlwyd yn 2002 ac mae'n parhau i gael ei ddefnyddio'n helaeth a'i werthfawrogi gan fyfyrwyr a staff.

Gwnaed y datblygiadau hyn yn unol ag elfennau ehangach a oedd yn sbarduno addysgu a dysgu. Roedd gwaith project GWELLA, a gyllidwyd gan HEFCW, yn canolbwyntio ar wella asesu ac adborth, dysgu cydweithredol a chyfrwng Cymraeg, a symleiddio defnyddio adnoddau llyfrgell yn yr amgylchedd dysgu.

Roedd datblygu e-asesu ac e-adborth yn rhan o thema gyfoethogi fwy drwy'r brifysgol gyfan. Ei nod oedd ysgogi dulliau newydd o asesu a chael adborth gan fyfyrwyr gan ddefnyddio ystod o dulliau gweithredu, e.e. asesiad ffurfiannol ar-lein, defnyddio systemau ymateb cynulleidfa yn effeithiol i ysgogi cyfraniad dosbarthiadau, a helpu myfyrwyr i fonitro eu dealltwriaeth a'u cynnydd, defnyddio cyfnodolion adfyfrio, cwestiynau a phrofion ac asesu cyfoedion. Er mwyn cryfhau effaith pob datblygiad, anogwyd darlithwyr unigol i gyd-ysgrifennu astudiaeth achos gyda'r tîm technoleg dysgu yn y Gwasanaethau TG, gan amlinellu'r rheswm dros yr ymyriad technolegol, manteision, gwersi a ddysgwyd etc. Mae set o astudiaethau achos yn dal i gael ei hadeiladu i hysbysu datblygiadau ac ymarfer yn y dyfodol.

Fe wnaeth y datblygiad cydweithredol gefnogi ffurfio Canolfan Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ar y cyd rhwng Bangor ac Aberystwyth. Un elfen amlwg oedd defnyddio cyfleusterau fideo gynadledda ar gyfer addysgu, gyda chefnogaeth staff dysgu yn Rhwydwaith Fideo Cymru. Dylanwadol hefyd ym mhroject Gwella Bangor oedd gwaith y Grŵp Sector Cyfrwng Cymraeg a'i is-grŵp e-ddysgu. Bu'n flaenoriaeth i bartneru ac ymwneud ag eraill ar draws Cymru i ddatblygu e-ddysgu Cyfrwng Cymraeg a chyflawnwyd hynny ar y cyd â'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.

I roi cefnogaeth bellach i fyfyrwyr Cyfrwng Cymraeg mae gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei safle ei hun ar Blackboard, a elwir Y Porth. Mae llawer o'r adnoddau a'r modiwlau cydweithredol ar Y Porth wedi cael eu datblygu gan staff dysgu Prifysgol Bangor. Mae mynediad llawn ac agored at lawer o adnoddau, tra bo eraill yn gyfyngedig i ddefnyddwyr y modiwlau. Ceir cysylltiadau cydweithredu rhwng gwahanol bartneriaid AU Cymreig (e.e. Bangor, Aberystwyth, Morgannwg) ond hefyd â phartneriaid yn Lloegr. Mae Bangor a Phrifysgol John Moores yn Lerpwl wedi datblygu pecyn nyrsio rhyngweithiol dwyieithog, ac mae'r fersiwn Gymraeg wedi cael ei rhoi ar Y Porth fel adnodd agored.

Yn dilyn cynllun peilot y llynedd, mae'r system codi darlithoedd (Panopto) wedi cael ei rhoi ar waith ar draws y Brifysgol i gefnogi dysgu, adfyfrio, adolygu, ac i ddarparu adnodd tra gwerthfawr i fyfyrwyr nad yw Cymraeg/Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, ac i fyfyrwyr gydag anableddau. Mae'r recordiad yn galluogi myfyrwyr i symud yn rhwydd i'r adran y maent eisiau ei hadolygu. Yn yr holl fannau dysgu sydd wedi'u hamserlennu'n ganolog ceir y meddalwedd i godi darlithoedd, ac i uwchlwytho'r recordiad i Blackboard. Gellir defnyddio'r meddalwedd ar gyfrifiaduron bwrdd gwaith staff hefyd. Y bwriad at y dyfodol yw parhau i helaethu'r ddarpariaeth hon, a chanolbwyntio ar amrywiaeth o ddulliau o wneud defnydd addysgol effeithiol o recordiadau trwy ryngweithio.

Gyda Dysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg, fel y nodwyd yn y Strategaeth Addysgu a Dysgu newydd, bydd y pwyslais yn parhau ar ddatblygu dulliau mwy datblygedig ar gyfer e-asesu, e-adborth a gwerthuso, gwneud defnydd addysgol effeithiol o godi darlithoedd, a defnyddio technoleg a chymwysiadau symudol i ddibenion dysgu.

5.9 CWYNION AC APELIADAU

Mae gan y Brifysgol drefniadau cwyno ac apelïadau y gellir mynd atynt drwy wefan y Brifysgol⁹⁵. Mae'r Drefn Cwynion Myfyrwyr yn briodol ar gyfer y rhan fwyaf o gwynion myfyrwyr. I symleiddio'r broses i fyfyrwyr, sianelir pob cynw ffurfiol drwy'r Cofrestrydd Academaidd. Mae gan y Brifysgol dair trefn apêl yn ymwneud â phenderfyniadau Byrddau Arholi; mae'r rhain ar gyfer myfyrwyr Israddedig y mae eu hastudiaethau'n anghyflawn, myfyrwyr Israddedig/Ôl-radd Hyfforddedig sydd wedi cwblhau eu hastudiaethau, a myfyrwyr Ôl-radd Ymchwil. Mae gwaith ar y gweill i ddiwygio'r trefniadau apelïo hyn gyda'r nod o gael un drefn gyffredin i'r holl fyfyrwyr.

Mae cynwion a threfniadau apêl wedi'u seilio ar egwyddorion sy'n cynnwys y canlynol:

- Mae hawl gan bob myfyriwr i gwyno neu apelïo yn erbyn unrhyw wasanaeth, asesiad academaidd, trefn academaidd neu weinyddol, neu achos honedig o wahaniaethu neu aflonyddu.
- Nid yw trefniadau cynwion ac apelïadau yn wahaniaethol ac maent yn ddiragfarn.
- Mae trefniadau cynwion ac apelïadau'n sicrhau cyfrinachedd a phreifatrwydd lle bynnag y bo modd.
- Y nod yw datrys cynwion ac apelïadau mor gyflym â phosibl.
- Rhoddir sylw anffurfiol i gwynion yn y lle cyntaf, gan ddelio â hwy mor agos ag sydd bosibl at eu gwraidd, gan gynnwys yr unigolion sy'n ymwneud fwyaf uniongyrchol â'r mater.
- Cyflwynir cynwion ffurfiol yn unig os na fu'n bosibl datrys y materion yn anffurfiol.
- Mae gan fyfyrwyr hawl i dderbyn y rhesymau dros benderfyniadau yn dilyn ystyried cynw neu apêl ac i gael eu hysbysu o'r cyfle i apelïo ymhellach.
- Mae'n bosibl i fyfyriwr gael rhywun gydag ef/hi, neu gael rhywun i'w gynrychioli ef/hi, mewn unrhyw gyfarfod neu ohebiaeth yn ymwneud â chwyn neu apêl (e.e. un o swyddogion Undeb y Myfyrwyr, tiwtor personol, aelod o'r teulu neu ffrind).
- Gall myfyrwyr sy'n dal yn anfodlon ar ôl i gwyn gael ei hystyried gan y Brifysgol, ac ar ôl i lythyr Cwblhau Trefnau gael ei anfon, wneud cynw i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2010/2011, cyfanswm nifer y cynwion gan fyfyrwyr yr ymchwiliwyd iddynt dan gam ffurfiol y Drefn Cwynion Myfyrwyr oedd 11 (ac ymchwiliwyd i 10 dan y Drefn Disgyblaeth Myfyrwyr). Cyfeiriwyd 3 cynw at

Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Yn ystod 2009/2010 ymchwiliwyd i gyfanswm o 40 o gwynion myfyrwyr a materion disgyblaethol.

Cyfeiriwyd 9 achos at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol er 2005; o'r rhain, dim ond un achos a gadarnhawyd, a hwnnw ond yn rhannol.

Mae ystyriaeth y Brifysgol o'r materion hyn wedi cael ei hybu'n sylweddol drwy greu swydd 'Swyddog Rheoliadau, Cwynion ac Apeliadau' yn 2009.

CRYNODEB

Cryfderau:

- Y pwyslais ar 'brofiad myfyrwyr' a datblygu'r Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr mewn cydweithrediad â myfyrwyr.
- Gwasanaethau cynhwysfawr ac ymatebol i gefnogi myfyrwyr (e.e. cefnogaeth anabledd, cyngori, y Ganolfan Dyslecsia a'r Uned Cefnogaeth Ariannol).
- Sefydlu Cymhwyster Cyflogaeth cynhwysfawr yn barod i'w gyflwyno ar draws y Brifysgol.
- Datblygu Strategaeth Chwaraeon a Hamdden a phenodi Cyfarwyddwr Chwaraeon.
- Perthynas waith gadarnhaol a chref rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr.
- Sefydlu system o gynrychiolwyr cyrsiau ar draws y Brifysgol gyda'r nod i ddatblygu ymhellach fframwaith cynrychioli cynhwysfawr ac effeithiol.
- Systemau arweinwyr cyfoed sy'n helpu israddedigion, ôl-raddedigion a myfyrwyr rhyngwladol newydd.

Datblygiadau i ddod:

- Adolygiad trwyadl o'r ddarpariaeth llyfrgell er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol a chytbwys yn cael ei gwneud (erbyn Rhagfyr 2012).

ADRAN 6

STAFF ACADEMAIDD: ANSAWDD, EFFEITHIOLRWYDD A DATBLYGU

Nid oes yr un adnodd yn bwysicach wrth sicrhau llwyddiant nag adnodd dynol y Brifysgol, ac mae'r Brifysgol yn ceisio defnyddio dull gweithredu sy'n cynyddu cyfraniad ac ymrwymiad staff er mwyn cyflawni cenhadaeth, nodau ac amcanion y Brifysgol.

6.1 Y BRIFYSGOL FEL PARTNERIAETH

Mae'r Brifysgol yn ceisio darparu amgylchedd gweithio sydd â *phartneriaeth* wrth ei wraidd: partneriaeth rhwng staff academiaidd a chefnogi, rhwng staff profiadol ac ieuengach, rhwng rheolwyr ac undebau, a rhwng staff a myfyrwyr.

Mae'r rhain yn ddau lwybr ar gyfer cyfathrebu ac ymgynghori ffurfiol gyda staff - y Fforwm Staff⁹⁶ a Fforwm Undebau'r Campws⁹⁷ (CUF). Caiff y ddau eu cadeirio gan yr Is-ganghellor ac maent yn cyfarfod 3 i 4 gwaith y flwyddyn. Caiff aelodau o'r Fforwm Staff eu hethol ac maent yn cynrychioli eu grŵp staff. Caiff aelodau Fforwm Undebau'r Campws eu henwebu gan eu Hundeb. Mae gan Fforwm Undebau'r Campws is-grwpiau sy'n trafod materion manwl, ac at ei gilydd, mae'r Brifysgol yn credu bod yna berthynas agos a chynhyrchiol rhwng undebau a rheolwyr. Mae'r agendau ar gyfer y fforymau hyn yn debyg ac yn rhoi cyfle i ddiweddarau, rhannu ac ymgynghori gyda chynrychiolwyr staff ar faterion a datblygiadau sy'n wynebu'r Brifysgol. O ystyried maint y Brifysgol, mae'n anochel bod y prosesau ffurfiol hyn yn cael eu cefnogi gan ddulliau anffurfiol o gyfathrebu, ac yn draddodiadol, dyma fu'r achos ym Mangor. Mae'r Is-ganghellor ac uwch gydweithwyr yn hawdd mynd atynt, ac ar gael yn barod am drafodaethau gydag aelodau staff.

6.2 RECRIWTIO A DAL GAFAEL AR STAFF ACADEMAIDD

Un o brif amcanion y Brifysgol yw sicrhau ei bod yn recriwtio a dal gafael ar y staff o'r ansawdd gorau, gyda'r sgiliau sydd eu hangen i alluogi i gyflawni amcanion strategol. Mae trefniadau penodi'r Brifysgol mewn cysylltiad â staff academiaidd, yn eu hanfod, yn cael eu rheoli ar lefel Pennaeth Ysgol, gyda chyfraniad uwch gynrychiolydd academiaidd o Ysgol arall, Dirprwy Is-ganghellor fel Cadeirydd a chynrychiolydd o'r Adran Adnoddau Dynol, gyda'u swyddogaeth yn cynnwys sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth a pholisi'r Brifysgol. Darperir sesiynau hyfforddi ar recriwtio a dethol, ar faterion cydraddoldeb a rhoddir canllawiau ar greu rhestrau byrion i Ysgolion.

Pan fo ymgeiswyr academiaidd priodol yn rhoi cyflwyniadau ar elfennau o'u harbenigedd ymchwil a'u haddysgu i gynulleidfa Ysgol, yn cynnwys staff a myfyrwyr, mae Pennaethiaid Ysgolion yn sicrhau bod y dull cyflwyno (sgiliau cyfathrebu) a'r cynnwys yn cael eu hystyried. Os yw'r swydd yn gofyn am hyfedredd dwyieithog, rhaid i o leiaf un aelod o'r Panel fod yn ddwyieithog, a chynnal cyfweiliadau'n ddwyieithog gyda chyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu. Rhaid i gynrychiolydd o Ganolfan Bedwyr neu Gadeirydd y Grŵp Tasg Astudiaethau trwy'r Gymraeg, neu eu cynrychiolydd, fod yn rhan o'r broses dethol ar gyfer swyddi academiaidd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Gofynnir am eirdaon ar gyfer ymgeiswyr a roddir ar y rhestr fer, a byddant yn rhan o'r broses ar y cam cyfweld.

Mewn rhai achosion penodol, mae gwiriadau cyflogaeth eraill yn hanfodol e.e. gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB). Mae protocol manwl gyda phroses gadarn mewn grym i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu gwneud fel bo'n briodol.

Mae penodiadau i swyddi academiaidd uwch (Cadeiryddion)⁹⁸ yn dilyn trefn benodol a nodir mewn Ordinhad, sy'n gofyn am gynnwys academydd uwch gyda gwybodaeth arbenigol ar y Panel Penodi, a ddaw o'r tu allan i Brifysgol Bangor.

Pennaethiaid Ysgolion sy'n rheoli'r drefn o benodi staff dysgu rhan-amser ac achlysurol. Nid yw'r niferoedd a gyflogir yn fawr, ond mae'r Brifysgol yn bwriadu tynhau prosesau penodi ar gyfer y cyfryw staff.

Mae'r Brifysgol yn defnyddio myfyrwyr ymchwil ôl-radd dethol i gynorthwyo staff mewn e.e. dosbarthiadau labordai, seminarau a thiworialau. Mae'r Brifysgol wedi sefydlu swydd Cyfarwyddwr Dysgu Ôl-radd, ac mae'r Cyfarwyddwr Dysgu Ôl-radd ar hyn o bryd yn arwain arolwg, gyda'r nod o greu cod ymarfer mwy ffurfiol (mae canllawiau wedi bodoli o'r blaen) ar gyfer myfyrwyr ôl-radd sy'n dysgu. Bydd hyn yn cynnwys dulliau gweithredu ar gyfer cyflogi'r cyfryw fyfyrwyr, yn cynnwys yr oriau mwyaf y dylent eu gweithio, tâl, goruchwyllo, a chyfleoedd hyfforddi.

6.3 CYFNOD PRAWF

Ceir cyfnodau prawf o hyd at 3 blynedd gyda phob penodiad staff academiaidd parhaol newydd. Gofynnir i Bennaeth yr Ysgol / Coleg adrodd yn flynyddol ar bob elfen o berfformiad yr aelod staff sydd ar ei gyfnod prawf (yn cynnwys eu cyfraniad i addysgu a dysgu) a chyflwynir adroddiad terfynol i'r Adran Adnoddau Dynol ar ddiwedd y 3 blynedd. Rhennir yr adroddiadau gyda'r aelod staff a chaiff ei wahodd i roi sylwadau. Os bydd canlyniad y cyfnod prawf yn foddhaol, caiff yr aelod staff ei gadarnhau i'r swydd; pan fydd materion neu broblemau'n codi, cânt eu cyfeirio at Banel Adolygu'n cynnwys yr Is-ganghellor ac un Dirprwy Is-ganghellor.

Ar gyfer staff ar gontractau dros dro, cânt gyfnod prawf o 6 mis, a throsglwyddir y cyfrifoldeb o ymdrin â'r cyfnod prawf i Bennaeth yr Ysgol dan sylw. (Os caiff penodiad dros dro ei droi'n gontract parhaol, gweithredir y cyfnod prawf arferol o hyd at 3 blynedd).

Mae'r broses hon yn gyffredin drwy'r rhan fwyaf o sefydliadau addysg uwch, ac yn ein barn ni, mae'n parhau'n elfen bwysig ar gyfer monitro perfformiad. Ym Mangor, er mwyn cadarnhau rhywun i swydd, mae'n ofynnol cwblhau'r cymhwyster Tystysgrif Ôl-radd AU yn llwyddiannus, oni bai bod gan yr aelod staff fwy na 3 blynedd o brofiad dysgu parhaus mewn Addysg Uwch, neu ei fod yn Gymrawd yr Academi Addysg Uwch, wedyn gellir hepgor hyn. Rhaid dweud ei bod yn anghyffredin i aelod staff academiaidd gael ei ddiswyddo oherwydd cynnydd anfoddhaol yn ystod y cyfnod prawf. Fodd bynnag, mae gan Fangor enghreifftiau lle mae'r cyfnod prawf wedi cael ei ymestyn mewn achosion lle nad yw un o ofynion y cytundeb i gyflawni 'r Dystysgrif Ôl-radd AU wedi cael ei gyflawni'n llawn.

6.4 CYNEFINO

Mae'r Brifysgol yn cynnal rhaglen gynefino fisol ar gyfer staff academiaidd a chefnogi. Mae hyn yn sicrhau bod staff newydd yn gwybod ymhle i ddod o hyd i bolisiâu allweddol a meysydd cefnogi. Dyma'r cam cyntaf o'r broses gynefino ym Mangor. Disgwylir bod staff yn derbyn proses gynefino leol yn eu hysgol neu eu hadran, a cheir 'Rhestr Wirio Cynefino' i sicrhau yr ymdrinnir â phob polisi a phroses allweddol.

6.5 PENODIADAU A'R CYNLLUN IAITH

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol (2008), sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ac a gymeradwywyd gan y Cyngor a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn amlinellu sut bydd y sefydliad yn datblygu ei allu dwyieithog, mewn addysgu, dysgu ac ymchwil, yn ogystal â phob elfen o weinyddu a rheoli'r sefydliad.

Panel Ymgynghorol y Cynllun Iaith (PYCI), a gadeirir gan y Dirprwy Is-ganghellor (y Gymraeg ac Ymwneud â'r Gymuned) ac sy'n cyfarfod bob chwe wythnos, sy'n gyfrifol am faterion gweithredol yn gysylltiedig â'r Cynllun Iaith. Mae 'penodiadau' yn eitem sefydlog ar agenda'r pwyllgor.

Er mwyn cefnogi'r Cynllun, datblygwyd 'Cod Ymarfer ar Benodi Staff yn Unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg'⁹⁹. Pwrpas y cod yw sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei

rhoi i ofynion iaith pob swydd yn ystod bob cam o'r broses recriwtio. Adnoddau Dynol sy'n monitro'r lefelau iaith a bennir i bob swydd, a hynny ar y cyd â Cholegau, Adrannau a Chanolfan Bedwyr.

Bydd Prifysgol Bangor yn adolygu'r Cynllun Iaith Gymraeg presennol yn 2012 yn ogystal â'r Cod Ymarfer ar Benodiadau sy'n ei gefnogi. Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg a'r Cod Ymarfer newydd yn ymateb i newidiadau sydd wedi digwydd yn y Brifysgol er 2008 (e.e. datblygu mentrau newydd fel Pontio) yn ogystal â'r cyd-destun newydd sy'n bodoli yn awr o ganlyniad i Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.

6.6 POLISI'AU TÂL A GRADDFEYDD

O 1 Mehefin 2008, yn dilyn trafod a chytuno gydag Undebau'r Campws, bu i'r Brifysgol weithredu'r 'Cytundeb Fframwaith', a gyflwynodd un fframwaith tâl a graddau i bob aelod staff. Yn yr un modd ag mewn prifysgolion eraill, lluniwyd y broses o amgylch un raddfa gyflogau, cynllun gwerthuso swyddi (HERA) a threfn ddilysu ac apelio. O ganlyniad, mae amrywiaeth o ddulliau'n bodoli – yn cynnwys ailraddio, tâl 'cyfraniad', pwyntiau cyflog ychwanegol – i sicrhau bod staff yn cael eu gwobrwyo'n briodol am y cyfrifoldebau sydd ganddynt.

Mae gan y Brifysgol hefyd ddulliau i sicrhau bod staff o ansawdd uchel yn cael eu recriwtio neu eu cadw pan fo amgylchiadau cystadleuol. Mae hon yn ymddangos yn drefn hynod ddefnyddiol: ceir sawl enghraifft lle mae staff wedi aros ym Mangor er gwaethaf iddynt gael cynnig swyddi pwysig gan brifysgolion eraill.

6.7 SYMUD YMLAEN A DYRCHAFIADAU

Dan y Cytundeb Fframwaith, mae'r trefniadau i symud ymlaen o Raddfa 7 Darlithydd i Raddfa 8 Darlithydd¹⁰⁰ yn parhau'n unol â threfniadau'r Cytundeb cyn-Fframwaith ar gyfer symud ymlaen o Ddarlithydd A i Ddarlithydd B. Er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd, mae Penaethiaid Ysgolion yn cyflwyno adroddiad i Adnoddau Dynol gydag unigolion yn cyflwyno'u C.V. a dogfennau ategol. Caiff achosion eu hystyried yn eu tro gan banel cynnydd yn cynnwys academyddion uwch y Brifysgol.

Yn ogystal, fel rhan o drafodaethau'r Cytundeb Fframwaith, yn 2009 cytunodd y Brifysgol ac Undebau'r Campws ar Bolisi a Dulliau Gweithredu newydd ar Ddyrchafiadau ac Ailraddio¹⁰¹ a ddaeth i rym yn Ionawr 2010. Mae dyrchafiad i Uwch Ddarlithyddiaeth¹⁰² yn dilyn trefn fanwl sy'n gofyn yn ogystal am eirdaon allanol a mewmol, ac mae'n ymwneud â chyfraniad yr unigolyn at ymchwil, addysgu a dysgu, gweinyddiaeth a menter. Gall y panel gymeradwyo dyrchafu i Uwch Ddarlithyddiaeth os bydd sgôr HERA yn dod o fewn ffiniau sgôr Graddfa 9 (631-750).

Mae arolwg o'r meini prawf ar gyfer Dyrchafiad i swydd Darllenydd neu Gadair Bersonol yng nghamau olaf y broses ymgynghori. Mae'r newidiadau arfaethedig yn rhoi meincnodau a dangosyddion cliriach o'r broses o asesu ar gyfer dyrchafiad, ac yn cydnabod pwysigrwydd, effaith a gwerth y dyletswyddau'n gysylltiedig â'r cyfraniad ehangach i'r Brifysgol a'r Gymuned. Mae'r arolwg hefyd wedi adnabod yr hyfforddi a'r mentora sydd ei angen i egluro, cefnogi ac annog ceisiadau addas, yn arbennig gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

Gall staff wneud cais am ailraddio neu ddyrchafiad ar 2 achlysur bob blwyddyn.

6.8 CYDNABOD RHAGORIAETH

6.8.1 Y Cynllun 'Cymrodoriaethau Dysgu'

Yng nghanol y1990au, fel rhan o strategaeth i ddangos ei hymrwymiad i ragoriaeth mewn addysgu a dysgu, cyflwynodd y Brifysgol 'Gymrodoriaethau

Dysgu¹⁰³. Y nod yw cydnabod cyfraniadau neilltuol i ddysgu, addysg myfyrwyr a gofal bugeiliol myfyrwyr. Nid yw Cymrodoriaeth Ddysgu'n cael ei dyfarnu fel mater o drefn, a disgwylir i'r rhai a enwebir allu dangos cyflawniad neilltuol gwirioneddol mewn addysgu a gofal bugeiliol. Mae angen tystiolaeth gref gyda phob enwebiad.

Caiff enwebiadau eu hystyried gan Banel o Uwch Academyddion (y Panel Cymrodoriaethau Dysgu, a gadeirir gan y Dirprwy Is-ganghellor, Addysgu a Dysgu). Gellir cyflwyno enwebiadau gan Benaethiaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion neu unrhyw aelod staff academaidd arall, ond fel rheol, y myfyrwyr eu hunain fydd yn gwneud hyn. Gofynnir i'r enwebeion roi tystiolaeth i gefnogi eu henwebiad yn gysylltiedig â chynllun rhaglen, ansawdd y cyflwyno, i ba raddau y maent yn ymwneud ag addysgu a chefnogi myfyrwyr, eu hymwneud yn gyffredinol â gweithgarwch lles myfyrwyr, a holiaduron gwerthuso darlithoedd; gall enwebiad ddod gan y myfyrwyr eu hunain.

Pan fo'r Panel yn penderfynu dyfarnu Cymrodoriaeth Ddysgu, fe'i cyflwynir yn ystod y Seremoni Raddio berthnasol a gynhelir ym mis Gorffennaf bob blwyddyn, ac mae pob Cymrawd yn derbyn honorariwm unwaith-yn-unig o £1000.

6.8.2 Academi Cymrodyr Dysgu

Hyd yma, mae 65 o aelodau staff wedi derbyn Cymrodoriaethau Dysgu. Mae'r Brifysgol yn credu bod hwn yn gynllun hynod werthfawr – yn arbennig lle mae enwebiadau'n dod gan fyfyrwyr, a hwythau'n eu cefnogi'n amlwg. Mae cydnabod a gwobrwyo rhagoriaeth yn elfen allweddol wrth annog gwelliant. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy i ddefnyddio Cymrodyr Dysgu'n fwy effeithiol i ledaenu arfer da, ac mewn gwella ansawdd yn gyffredinol. Ffurfiwyd Academi o Gymrodyr Dysgu, a gadeirir gan Gyfarwyddwr yr Uned Datblygu Academaidd. Fforwm ydyw lle gellir rhannu arfer gorau mewn dysgu a chefnogi myfyrwyr, ac y gellir rhoi cychwyn i brojectau. Bwriedir cynnal cynhadledd flynyddol gyntaf yr Academi yn Rhagfyr 2012, gyda'r thema 'Cyfraniad Myfyrwyr: dyheadau ac ysbrydoliaeth'.

Yn Strategaeth Addysgu a Dysgu ar y cyd Aberystwyth-Bangor (2011-14) i HEFCW, un o'r wyth projectau Gwelliant yw 'Cydnabod a Gwobrwyo Rhagoriaeth Addysgu'. Mae'r ddwy Brifysgol wedi cytuno i adolygu eu dau gynllun, gan gyd-fynd gyda Fframwaith Safonau Proffesiynol Prydain ar gyfer Addysgu a Chefnogi Dysgu mewn Addysg Uwch, a chyda'r cynllun Cymrodoriaethau Dysgu cenedlaethol. Bydd Academi Rhagoriaeth Addysgu Aberystwyth ac Academi Cymrodyr Dysgu Bangor yn helpu'r broses hon.

Cafodd Undeb y Myfyrwyr Bangor ei ddewis yn ddiweddar fel un o'r 23 Undeb Myfyrwyr ym Mhrydain i dderbyn cyllid gan yr Academi Addysg Uwch, drwy'r NUS i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Gwobrau Dysgu a arweinir gan Fyfyrwyr. Hyd yma, sefydlwyd grŵp project, a gobeithir y bydd cyhoeddusrwydd ar gyfer y gwobrau'n dechrau fis Chwefror 2012 gyda'r gwobrau eu hunain yn cael eu cynnal fis Mai.

6.8.3 Gwobr am Ragoriaeth

Cafodd y Wobr am Ragoriaeth¹⁰⁴, sydd yn awr yn ei 6^{ed} blwyddyn, ei llunio i adael i'r Brifysgol gydnabod llwyddiant neilltuol gan aelodau o'r staff cefnogi. Fel y cynllun Cymrodyr Dysgu, ceir honorariwm o £1,000 yn wobwr, ac fe'i cyflwynir gan yr Is-ganghellor mewn swper blynyddol. Mae enwebiadau'n cael eu gwneud i Benaethiaid Colegau, Ysgolion neu Adrannau Gwasanaethau Canolog, ac fe'i cefnogir yn rheolaidd gan fyfyrwyr. Hyd yma, mae 13 o

aelodau staff cefnogi – yn cynnwys technegwyr, porthorion, staff cefnogi TG a staff gweinyddol – wedi derbyn y Wobr am Ragoriaeth.

6.9 ADOLYGU DATBLYGIAD PERFFORMIAD

Nod y cynllun Adolygu Datblygiad Perfformiad (PDR)¹⁰⁵ ym Mangor yw sicrhau bod yr holl staff yn deall cyfeiriad strategol y Brifysgol, ac yn rhan ohono, a bod hyn yn cael ei drosi'n amcanion penodol ar lefel sefydliadol, ac yn y pen draw, yn amcanion unigol a disgwyliadau perfformiad bob blwyddyn. Mae Adolygiad hefyd yn galluogi edrych ar allu unigolion mewn cysylltiad ag amcanion personol a ffurfio cynlluniau datblygu personol (CDP) i ymdrin ag unrhyw anghenion hyfforddi / datblygu a nodir.

Adolygwyd y cynllun yn 2009 a arweiniodd at ad-drefnu'r Polisi a'r gwaith papur ac ehangu'r cynllun i gynnwys pob aelod staff. Disgwylir i bob aelod staff gymryd rhan yn y broses bob blwyddyn, a gwnaed ymdrechion i sicrhau bod staff sydd â chontractau dros dro ac sy'n gweithio'n rhan-amser yn cael eu cynnwys yn y Cynllun hefyd. Caiff adroddiadau ynghylch adolygiadau o'r broses a chyfraniad eu cyflwyno i'r Grŵp Tasg Adnoddau Dynol, a bydd y Grŵp Tasg yn cynnal adolygiad mwy trwyadl yn 2012/13.

Caiff staff newydd eu briffio ynghylch y broses a rhaid i bob aelod staff sy'n adolygu eraill wneud cwrs gorfodol i sicrhau bod Adolygiadau o Ddatblygu Perfformiadau yn cael eu gwneud i safon uchel.

Yn dilyn llwyddiant cais 'Project Datblygu Bach' i'r *Leadership Foundation* gyda Phrifysgol Aberystwyth, mae Bangor wedi gallu cyflwyno rhagor o welliannau i'r broses.

6.10 HYFFORDDI A MENTORA

Mae Bangor yn ymwneud yn weithgar â Chynllun Mentora Merched mewn Prifysgolion¹⁰⁶ (sef cynllun arloesol sy'n hyrwyddo a hwyluso datblygu proffesiynol i ferched sy'n gweithio ym Mhrifysgolion Cymru drwy sefydlu partneriaethau mentora rhwng prifysgolion). Mae dros 100 o ferched ym Mangor wedi ymuno â'r cynllun gyda'r nod o fentora eraill neu gefnogi eu datblygiad proffesiynol a gyrfaol. Cafwyd derbyniad da iawn i'r cynllun hwn, ac o ganlyniad, mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn gweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth i ddatblygu proses a Pholisi Hyfforddi a Mentora ar y cyd i gefnogi staff academaidd a chefnogi.

6.11 DATBLYGU MEWN PERTHYNAS Â'R GYMRAEG

Er mwyn cefnogi Strategaeth Iaith Gymraeg y Brifysgol, mae'r Brifysgol wedi sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd datblygu ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg¹⁰⁷. O ran hyfforddiant iaith, mae cyrsiau Cymraeg ar gael i siaradwyr rhugl a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg, ac ar hyn o bryd, mae yna 153 o aelodau staff yn dilyn cyrsiau Cymraeg ar wahanol lefelau. Mae'r Tîm Datblygu Staff hefyd yn darparu cyrsiau ar amrywiaeth o destunau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal a hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'r Dystysgrif Ôl-radd AU hefyd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae staff mewn adrannau eraill yn cynnig hyfforddiant cyfrwng Cymraeg mewn meysydd penodol (e.e. E-ddysgu) ac, yn arbennig, mae staff Prifysgol Bangor yn cyfrannu'n helaeth at raglen flynyddol datblygu staff a myfyrwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Ym mis Gorffennaf 2011, sefydlwyd swydd newydd Tiwtor Staff gyda'r nod o gynnig addysg a chefnogaeth iaith wedi eu datblygu'n arbennig i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.

Mae'r gweithdai hyfforddi misol wedi eu paratoi'n benodol i hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus academyddion sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae rhai o weithdai'r Rhaglen Datblygu Staff yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ymchwil, tra bo cyrsiau a gweithdai eraill yn cyfrannu at y Dystysgrif Ôl-radd mewn Dysgu mewn Addysg Uwch (PGCertHE), gan alluogi i unigolion ddod yn gymwys yn ffurfiol fel addysgwyr prifysgol.

6.12 DATBLYGU STAFF

Caiff cyfleoedd datblygu i arweinwyr, rheolwyr a staff cefnogi eu cydlynu a'u trefnu drwy is-adran Datblygu Staff yr Adran Adnoddau Dynol. Caiff datblygu staff academiaidd ei hyrwyddo a'i gyflwyno gan yr Uned Datblygu Academiaidd (ADU), a sefydlwyd yn 2006 yn yr Ysgol Addysg, a chymeradwywyd Fframwaith CPD i arwain gweithgareddau datblygu.

Mae'r Uned Datblygu Academiaidd a thîm Datblygu Staff Adnoddau Dynol yn cydweithio gyda chydweithwyr o brifysgolion eraill yng Nghymru, yn ogystal â chyda rhwydweithiau rhanbarthol a thrwy Brydain. Mae'r Brifysgol yn ystyried y rhaglen datblygu staff yn un dda, er ei bod yn adolygu fframweithiau mewnol ar hyn o bryd er mwyn atgyfnerthu cydweithio a gwella darpariaeth bresennol ymhellach.

Mae'r Brifysgol yn ceisio rhoi cyfleoedd datblygu priodol er mwyn cefnogi amcanion strategol y Brifysgol. Mae hi hefyd yn addasu ei darpariaeth datblygu'n rheolaidd i ddiwallu anghenion y staff (a nodir ar hyn o bryd ar ôl iddynt ddychwelyd adran hyfforddiant a datblygu'r ffurflen Adolygiad o Ddatblygu Perfformiad) ac mae ganddi dudalen we gynhwysfawr sy'n rhoi gwybodaeth am y ddarpariaeth. Mae gan y Brifysgol hefyd Gyfeiriadur Dysgu a Datblygu sy'n rhoi golwg gyffredinol ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael i staff.

Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn hyrwyddo, cefnogi a gweinyddu cyfleoedd datblygu anacademaidd i staff. Er enghraifft, mae'r Brifysgol yn cynnal rhaglen 'Map a Chwmpawd'¹⁰⁸ bob blwyddyn i reolwyr sy'n cynnwys cyflwyniadau a thrafodaethau ynghylch elfennau allweddol o strategaeth y Brifysgol. Dyma'r testunau sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen: y Strategaeth Addysgu a Dysgu, y Strategaeth Ymchwil, Strategaeth yr Iaith Gymraeg a Rhyngwladoli. Mae'r rhaglen wedi cael ei chroesawu'n frwd gan iddi hwyluso'r gwaith o gynyddu gwybodaeth am feysydd strategol y tu allan i gyfrifoldeb uniongyrchol unigolion a datblygu rhwydweithiau a thrafodaethau anffurfiol. Mae gan y Brifysgol hefyd raglen debyg ar gyfer staff technegol. Nod hon yw helpu staff cefnogi, staff technegol a staff ymchwil i gefnogi amcanion y Brifysgol yn well. Yn 2009, enwebwyd y rhaglen hon yn y categori '*Outstanding Human Resource Initiative*' yn y '*Time Higher Education, Leadership and Management Awards*'.

Mae'r Tîm Datblygu Staff Adnoddau Dynol hefyd yn hwyluso digwyddiadau wedi eu trefnu'n arbennig ar gyfer Colegau ac Adrannau sy'n adlewyrchu'r galwadau sy'n newid ar y Brifysgol a chynnal safonau uchel o gyflwyno gwasanaeth. Er enghraifft: rheoli newid i staff cefnogi yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Hyfforddiant Cydraddoldeb wedi'i addasu'n arbennig, Gofal Cwsmeriaid yn y Gofrestrfa Academiaidd.

6.12.1 Cefnogi Addysgu a Dysgu

Mae staff yr Uned Datblygu Academiaidd yn cynnal, hyrwyddo a chefnogi ymchwil ymarferwyr i Addysg Uwch, ac yn ceisio cefnogi pob cydweithiwr mewn swyddi academiaidd ac academiaidd gysylltiedig drwy ddarparu:

- Datblygiad a chefnogaeth broffesiynol i bob aelod staff academiaidd gyda swyddi dysgu a goruchwylio ymchwil.
- Cefnogaeth ar gyfer staff newydd a phrofiadol i ddatblygu a gwella'u sgiliau dysgu a diddordebau ymchwil pedagogaid.

- Rhaglenni strwythuredig o weithdai a chyrsgiau'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol, wedi'u haddasu ar gyfer anghenion lleol.
- Cefnogaeth ar gyfer datblygiad personol a gyrfa 'Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa' (myfyrwyr PhD ac ymchwilwyr dan gontract).
- Cefnogaeth ar gyfer datblygu a gweithredu blaenoriaethau a chynlluniau strategol y Brifysgol mewn cysylltiad gyda rheolwyr a swyddogion y Brifysgol.
- Gwasanaeth ymgynghori ar gyfer Colegau, Ysgolion a staff unigol.

6.12.2 Cymhwyster Addysgu mewn Addysg Uwch

Cyflwynir y Dystysgrif Ôl-radd mewn Addysg Uwch (PGCertHE)¹⁰⁹ gan yr Uned Datblygu Academaidd ac fe'i cynigir i unrhyw un sy'n dymuno datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ym meysydd addysgu, dysgu ac asesu, gan gynnwys staff academaidd, cynorthwywyr ymchwil a myfyrwyr ymchwil ôl-radd gyda dyletswyddau dysgu. Mae'r cwrs hwn yn orfodol ar gyfer staff newydd mewn swydd addysgu gyda llai na thair blynedd o brofiad dysgu blaenorol, a heb gymhwyster addysgu.

Mae'r rhaglen hon, a gychwynnwyd gan Fangor yn y 1990au, yn cael ei chyflwyno yn awr fel rhan o gydweithio ar draws Gymru rhwng Aberystwyth; Y Drindod Dewi Sant; Prifysgol Fetropolitan Caerdydd ac Abertawe. Fe'i cynigir drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Menter benodol yn 2012 yw cyflwyno Cynhadledd Addysgu a Dysgu, mewn cydweithrediad ag Aberystwyth.

Gan weithio ochr yn ochr â Chynghorwr Addysgu profiadol, mae'r rhai sy'n dilyn y rhaglen yn tynnu ac yn adeiladu ar brofiadau a enillir yn ystod eu dyletswyddau addysgu arferol er mwyn paratoi portffolio sy'n dangos ymarfer proffesiynol arloesol ac adfyfyriol sy'n seiliedig ar gysyniadau damcaniaethol. Mae'r cymhwyster yn cynnwys dau gam a chaiff ei achredu gan yr Academi Addysg Uwch a'i gynllunio yn erbyn Fframwaith Safonau Proffesiynol Prydain (UKPSF).

Mae Cam 1 yn cyflwyno meysydd allweddol o addysgu a dysgu fel cynllunio, asesu ac adborth ac ymarfer cynhwysol. Mae Cam 1 yn arwain at Gymrodoriaeth Gysylltiol yr Academi Addysg Uwch (Safon 1 yr UKPSF).

Mae Cam 2 yn datblygu sgiliau mewn meysydd fel ymarfer adfyfyriol ac ysgoloriaeth addysgu a dysgu, yn ogystal â datblygu cysylltiadau rhwng ymchwil ac addysgu. Mae Cam 2 yn arwain at Gymrodoriaeth o'r Academi Addysg Uwch (Safon 2 yr UKPSF).

6.12.3 Gweithdai Datblygu Academaidd

Fel partneriaid ar y cyd, mae gan bob aelod staff ym Mangor hawl i fynd i ddetholiad o'r gweithdai¹¹⁰ yn Aberystwyth a *vice versa*. Mae themâu'r gweithdai wedi eu llunio i ymdrin â phob maes o'r UKPSF ac adlewyrchu Strategaeth Addysgu a Dysgu ac Ehangu Mynediad Bangor / Aber. Mae enghreifftiau'n cynnwys 'Cynllunio ar gyfer Addysgu mewn Grwpiau Mawr' a 'Dysgu mewn Mannau Agored'.

Mae'r Brifysgol wedi cynyddu ei hymwneud â'r Academi Addysg Uwch drwy gynrychiolaeth gref ar Grŵp Sefydliadol Academi Addysg Uwch Cymru. Mae Cyfarwyddwr yr Uned Grŵp Datblygu Academaidd, ar y cyd gyda'r Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu), yn cynrychioli Bangor ar y grŵp hwn, ac mae wedi cyfrannu at nifer o gynadleddau Academi Addysg Uwch i Gymru gyfan, a datblygiadau'n gysylltiedig â'r Rhaglen Cyfeiriadau'r Dyfodol, ar y cyd â'r HEA, HEFCW a QAA. Mae hyn yn cynnwys aelodaeth o Grŵp Llywio

Cynhadledd Cyfeiriadau'r Dyfodol 2012. Mae Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr y Brifysgol yn cynrychioli Bangor ar rannau'r project (Dysgu ar gyfer Cyflogaeth a Myfyrwyr fel Partneriaid).

6.12.4 Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa

Mae'r Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa (EDRP)¹¹¹ yn darparu gweithdai a chysiau ar gyfer rheoli a datblygu gyrfaedd, yn cynnwys hyfforddiant sgiliau personol. Bydd y gweithdai a'r cysiau'n sicrhau bod myfyrwyr ymchwil ôl-radd a staff ôl-ddoethurol yn datblygu sgiliau ymchwil, galwedigaethol ac entrepreneuriaidd sy'n cyd-fynd â galwadau eu llwybrau gyrfa yn y dyfodol.

Ar gyfer 2011-2012 tynhawyd y ffocws i ganolbwyntio'n amlycach ar ddwy elfen – sef cyflogadwyedd a gwella sgiliau ymchwil. Bydd gweithdai cyflogadwyedd yn amrywio o Ymwybyddiaeth Masnachol a Chynllunio Projectau i weithdai CV ac ymarfer cyfweiliadau. Caiff dealltwriaeth a gwybodaeth am entrepreneuriaeth a masnacheiddio ymchwil ei ddatblygu ymhellach hefyd. Bydd meithrin a chynnal Sgiliau Ymchwil yn hybu nid yn unig datblygiad y Sefydliad, ond yn rhedeg yn unol â sefydlu Diwylliant Ymchwil yng Nghymru a Phrydain. Mae gweithdai newydd yn cynnwys; Ymwneud â'r Cyhoedd, Ysgrifennu Ceisiadau a Hyfforddiant yn y Cyfryngau.

Mae Blwyddlyfr yr ERDP yn nodi'r holl gyrsiau a gweithdai sydd ar gael i fyfyrwyr a staff ymchwil.

6.12.5 Arsylwi ar Ddysgu gan Gydweithwyr

Cyflwynwyd arsylwi gan gydweithwyr yn 2003/4 fel math o ddatblygu staff, a bu i Gadeirydd ac Ysgrifennydd y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd (bryd hynny) ymweld â phob adran i drafod ei weithredu. Caniatwyd i ysgolion dreialu eu dull eu hunain o arsylwi gan gydweithwyr.

Disgwylir i ysgolion yn awr weithredu polisi o arsylwi dysgu gan gydweithwyr fel rhan o'r broses o werthuso beirniadol a datblygu parhaus profiadau dysgu myfyrwyr a gynigir mewn rhaglenni astudio yn y Brifysgol.

Mae croeso i ysgolion ddatblygu eu dulliau eu hunain o Arsylwi gan Gydweithwyr, ond darperir ffurflenni generig¹¹² y dylid eu defnyddio yn absenoldeb unrhyw fath arall o gofnod. Dylid nodi bod y Brifysgol wedi cytuno y dylai pob aelod staff addysgu drefnu cael adborth gan arsylwr sy'n gydweithiwr o leiaf unwaith bob blwyddyn academiaidd. Dylid copio ffurflenni 1 a 2 i Bennaeth yr Ysgol neu'r sawl a bennwyd yn yr Ysgol. Dylid cadw ffurflen 3 gan athro'r dosbarth a arsylwyd.

Elfen y byddai'r Brifysgol yn dymuno'i gwella yw'r monitro ar lefel sefydliadol o'r gweithgarwch arsylwi gan gydweithwyr. Mae'r Brifysgol yn bwriadu cyflwyno system o fonitro'r rhaglen arsylwi gan gydweithwyr i sicrhau ei bod yn werthfawr ac yn effeithiol.

6.12.6 Arsylwi Staff Cyfnod Prawf gan Gydweithwyr

Mae'n ofynnol i bob aelod staff dysgu a benodir gyda llai na 3 blynedd o brofiad dysgu blaenorol neu gymhwyster dysgu blaenorol, wneud Tystysgrif Ôl-radd y Brifysgol mewn Addysgu mewn Addysg Uwch a gyflwynir gan yr Uned Datblygu Academiaidd. Mae Arsylwi ar Ddysgu gan Gydweithwyr yn elfen orfodol o'r rhaglen, ac mae wrth wraidd athroniaeth y rhaglen o ymarfer

adfyfyrion parhaus, gan gynnwys disgrifiadau ymchwil weithredol o ymyriadau dysgu a sesiynau hyfforddedig.

6.12.7 Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Dros y 3 blynedd ddiwethaf, mae'r Brifysgol wedi cyflwyno Rhaglen Arweinyddiaeth¹¹³, a chafwyd pedair carfan (dros 40) ar y rhaglen a gefnogir gan y Sefydliad Arweinyddiaeth yn y Brifysgol. Hyd yma, rheolwyr academaidd sydd wedi mynychu'r rhaglen, gan fwyaf yn y colegau academaidd, gyda thros ddeugain o aelodau staff yn mynychu. Cafwyd croeso brwd i'r rhaglen hon sydd wedi galluogi datblygu rhwydweithiau anffurfiol o uwch arweinwyr yn y Brifysgol.

Mae Rhaglen Rheolaeth ac Arweinyddiaeth cyfrwng Cymraeg lwyddiannus hefyd yn raglen barhaus ar gyfer academyddion a rheolwyr Cymraeg eu hiaith – cofrestrodd 12 o uwch reolwyr dwyieithog ar y rhaglen yn 2011.

6.12.8 Cefnogi Rhyngwladoli

Er mwyn cefnogi strategaeth rhyngwladoli'r Brifysgol, cynhaliwyd nifer o weithdai rhyngwladoli mewnol ar gyfer staff academaidd a chefnogi, a hynny ar y cyd gydag Ysgolion ac Adrannau eraill. Mae'r gweithdai hyn wedi cynorthwyo Colegau ac Adrannau i ddatblygu ymyriadau ymarferol i gefnogi myfyrwyr rhyngwladol. Yn ogystal, er mwyn cefnogi rhyngwladoli'r cwricwlwm, cynhelir diwrnod datblygu staff yn Ebrill 2012, a arweinir gan dîm arbenigol o Brifysgol Brookes Rhydychen.

Gan fod hon yn rhan bwysig o Strategaeth y Brifysgol, fe wnaeth y Tîm Datblygu Staff gais am gyllid Datblygu Project Bychan y Sefydliad Arweinyddiaeth, a llwyddodd i dderbyn £10,000 o grant ar gyfer ei broject 'Cefnogi Rhyngwladoli drwy Arweinyddiaeth a Rhannu Gwybodaeth'.

6.13 CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae'r swyddogaeth cydraddoldeb yn cefnogi'r gwaith o weithredu Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol¹¹⁴. Mae gan y Brifysgol nifer o grwpiau ymgynghorol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau cydraddoldeb yn y maes hwn h.y. hil. Mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn cychwyn ar broject i weithredu Dyletswyddau Cydraddoldeb Cymreig. Bydd hyn yn arwain, drwy broses o ymwneud â staff a myfyrwyr, at Gynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn Mawrth 2012.

Mae'r Brifysgol wedi bod yn arbennig o weithgar yn y maes gender, ac mae wedi llofnodi siarter Athena SWAN. Er mwyn codi ymwybyddiaeth am y Siarter, trefnodd y Brifysgol gynhadledd 'Menywod mewn Gwyddoniaeth' y bu i dros gant o staff ddod iddi. Mae'r colegau SET yn awr yn gweithio gydag Adnoddau Dynol i adnabod camau allweddol i'w cymryd i gefnogi menywod sy'n gweithio mewn gwyddoniaeth, a digwyddiadau rhwydweithio ar gyfer menywod sy'n gweithio yn y colegau gwyddoniaeth. Yn Nhachwedd 2011, fe wnaeth y Brifysgol gais am wobwr efydd Athena SWAN.

6.14 CEFNOGI STAFF

Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn rhoi cefnogaeth i reolwyr ac i'w staff ar bopeth yn ymwneud â materion cyflogaeth. Mewn rhai achosion, mae hyn yn cynnwys gweithio tuag at atebion sy'n deg, yn gyfiawn ac yn briodol.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i alluogi i weithwyr gydbwyso eu bywyd gwaith gyda'u hymrwymadau y tu allan i'r cyd-destun gwaith. Yn unol â hynny, mae gan y Brifysgol

gyfres gynhwysfawr o bolisiâu a phrosesau yn ei Fframwaith Cefnogi Teuluoedd¹¹⁵ a lle bynnag y bo'n bosibl, mae staff yn gallu manteisio ar arferion gweithio sy'n deg i'r teulu sy'n fwy hael na'r isafswm cyfreithiol. Mae'r ffaith y darperir hawliau a threfniadau gweithio teg i'r teulu hael yn cael ei ystyried yn un elfen o gyflawni ymrwymiad y Brifysgol i ddenu a dal gafael ar staff medrus iawn.

Cynigir gwasanaeth cwnsela staff cyfrinachol i staff gan NOSS (Rhwydwaith Cefnogi Staff)¹¹⁶. Mae'r gwasanaeth wedi gallu adnabod tueddiadau, ac mewn rhai achosion, cefnogi ymyrraeth gadarnhaol. Eu prif amcan yw cefnogi staff i aros yn y gweithle, ac mae hyn wedi profi'n llwyddiannus.

Mae gan y Brifysgol fframweithiau cwyno ffurfiol hefyd¹¹⁷, ond yn y lle cyntaf, bydd yn ceisio datrys materion staff sy'n codi mor anffurfiol ac mor lleol ag sy'n bosibl. Lle nad hyn yw'r achos, ac y dilynir llwybrau ffurfiol, mae'r Brifysgol yn ceisio bod mor agored a theg ag sy'n bosibl, a chydbwyso trefniadau ffurfiol gyda chefnogaeth lle bo angen. Mae adolygiadau o reoli achosion yn aml yn arwain at ddatblygu a lledaenu arfer da.

6.15 LLES STAFF

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Ymarferwr Iechyd Galwedigaethol yn y Brifysgol wedi sefydlu a chyflwyno agenda iechyd i'r holl staff drwy raglen flynyddol o weithgarwch iechyd sy'n rhychwantu'r flwyddyn academaidd. Mae'r rhaglen yn cynnwys, Cadw Golwg ar Iechyd, Hybu Iechyd, Cefnogi Iechyd, gofal i famau beichiog a rhai sydd newydd ddod yn ôl i'r gwaith, hyfforddiant sgiliau a chydweithio gydag Undeb y Myfyrwyr i hyrwyddo'r agenda iechyd ehangach¹¹⁸.

Mae ansawdd y cadw golwg ar iechyd a gynlluniwyd ac a gyflwynwyd i staff ym Mhrifysgol Bangor wedi cael ei ddyfynnu fel enghraifft o arfer gorau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn eu hadroddiad 'The Health and Safety of Great Britain - one year on' (2010) <http://www.hse.gov.uk/strategy/one-year-on-print.pdf>. Yn ogystal, adolygwyd y rhaglen 'Llwybrau tuag at Iechyd' gan gydweithwyr iechyd galwedigaethol a roddodd wobwr i Brifysgol Bangor am "Hybu Iechyd a Lles" a dyfynnodd yr agenda iechyd fel yr enghraifft gyffredinol o arfer iechyd galwedigaethol gorau ym Mhrydain yn 2009.

6.16 DATBLYGIAD SEFYDLIADOL

Mae Cynllun Strategol y Brifysgol yn nodi un o'i helfennau allweddol i gyflawni ei amcanion strategol yw ansawdd, ymrwymiad a gallu ei gweithwyr. Mae'n angenrheidiol felly sicrhau bod y Brifysgol yn cefnogi ac yn gwella doniau a gallu ei staff. Er mwyn gwneud hyn, mae Prifysgol Bangor yn datblygu Strategaeth Datblygu Sefydliadol¹¹⁹ gyda'r nod o ddiffinio'r gwahanol ymyriadau datblygu sefydliadol (OD) a fydd yn cefnogi Cynllun Strategol y Brifysgol.

Er mwyn sicrhau bod datblygiadau'r dyfodol yn canolbwyntio ar gyflawni strategaeth y Brifysgol, caiff arolwg o bwys ymysg staff ei lansio yn nechrau 2012. Bydd yr arolwg hwn yn gwahodd barn gan bob aelod staff ar amrywiaeth o faterion a fydd yn galluogi i'r Brifysgol feincnodi ei effaith mewn meysydd fel arweinyddiaeth academaidd, cyfathrebu mewnol a hyfforddi a datblygu.

CRYNODEB

Cryfderau:

- Bodolaeth Fforwm Undebau'r Campws a'r Fforwm Staff at ddibenion ymgynghori.
- Y Cynllun Cymrodoriaethau Dysgu, sy'n gwobrwyo dysgu

rhagorol, yn cynnwys enwebiadau gan fyfyrwyr.

- Fe wnaeth y Rhaglen Arweinyddiaeth o 2008 dargedu arweinwyr academaidd posibl – gyda nifer o'r rhain o ganlyniad wedi dod yn Benaethiaid Ysgolion, Penaethiaid Colegau ac uwch reolwyr eraill.
- Yr hyfforddiant a'r gefnogaeth a gynigir i staff sy'n dymuno dysgu neu wella'u Cymraeg.

Datblygiadau ar gyfer y dyfodol:

- Cyflwyno prosesau mwy manwl ar gyfer penodi staff dysgu rhan-amser ac achlysurol, i sicrhau ansawdd a chost effeithlonrwydd (erbyn Medi 2012).
- Datblygu system i fonitro gwerth ac effeithiolrwydd arsylwi gan gydweithwyr (erbyn Medi 2012).

ADRAN 7

DIWEDDGLO

Mae'r Brifysgol wedi gweld yr Adolygiad Sefydliadol fel cyfle i gynnal hunanwerthusiad trylwyr o'n hymdrechion i reoli a chyfoethogi ansawdd a safonau academaidd ein cymwysterau. Yn y ddogfen hon, mae'r Brifysgol wedi ceisio crynhoi canlyniadau ein proses adolygu.

Nid yw'r Brifysgol yn honni bod ei gweithdrefnau a'i systemau'n berffaith, a theimlwn ein bod wedi ceisio peidio â rhoi gormod o sylw i'r agweddau cadarnhaol rydym wedi eu gweld. Ond mae'r Brifysgol yn credu bod ei hadolygiad yn amlygu rhai cryfderau, a hefyd y gallu i adnabod materion sydd angen datblygiad pellach a sylw pwrpasol.

CYFEIRIADAU A DOGFENNAU ATEGOL

(Ar gael yn electronig)

ADRAN 1 CEFNDIR, HANES A STRWYTHUR

Cyf	Teitl
1	Cynllun Strategol 2011-2015
2	Rhestr Aelodau'r Pwyllgor Gweithredu
3	Adolygiad o'r Grwpiau Tasg, 2011

ADRAN 2 GOSOD Y SAFON: Y FFRAMWAITH AR GYFER ANSAWDD A SAFONAU ACADEMAIDD

Cyf	Teitl
4	Aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu
5	Aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd
6	Aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Grŵp Craffu Partneriaethau Allanol
7	Aelodaeth a Chylch Gorchwyl Grŵp Adolygu'r Sefydliad
8	Strategaeth Addysgu a Dysgu ac Ehangu Mynediad
9	Strategaeth Gwella Ansawdd 2007-2011
10	Ystadegau Myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg
11	Polisi Derbyniadau'r Brifysgol
12	Atodiad A i'r Polisi Derbyniadau: Cylch Gorchwyl y Grŵp Gweithredu Recriwtio a Derbyniadau
13	Atodiad B i'r Polisi Derbyniadau: Enghraifft o adroddiad ystadegol ar dderbyniadau
14	Cod Ymarfer Recriwtio a Derbyniadau
15	Strategaeth Ehangu Mynediad 2011/12 – 2013/14
16	Rheoliadau a Dulliau Gweithredu a Chod Ymarfer ar gyfer asesu myfyrwyr ar Raglenni Israddedig a Rhaglenni Ôl-raddedig Hyfforddedig
18	Papur ar farcio categorïaidd i'r Senedd a Chofnodion y Senedd, Hydref 2009
19	Cofnodion Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd, 25 Mai 2010
20	Ordinhad Disgyblu Myfyrwyr
21	Ymarfer Annheg – gwybodaeth a roddir i fyfyrwyr i rwystro ymarfer annheg
22	Cod Ymarfer ar Lên-ladrad
23	Trefn Ymarfer Annheg
24	Cylch Gorchwyl y Grŵp Adnoddau Addysgu
25	Strategaeth Addysg Ryngwladol

26	Cofnodion y Pwyllgor Gweithredu, Hydref 2011, penderfyniad strategol i gymryd rhan mewn partneriaethau rhyngwladol
27	Rheoliadau'r Brifysgol

ADRAN 3 SICRHAU ANSAWDD A SAFONAU: Y DREFN SICRHAU ANSAWDD AR GYFER ISRADEDEDIGION AC ÔL-RADEDEDIGION

Cyf	Teitl
28	Cod Ymarfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni
29	Cofnodion y Pwyllgor Gweithredu, cymeradwyo cwrs newydd ar gyfer 2011
30	Cod Ymarfer Darpariaeth Gydweithredol
31	Llawlyfr Dilysu
32	Ffurflenni QA1 a QA2
33	Adroddiadau ARQUE Sefydliadol am y 3 blynedd ddiwethaf
34	Adroddiad cryno o'r ffurflenni QA1 am y 3 blynedd ddiwethaf
35	Cylch Archwiliadau Ansawdd Mewnol am y 3 blynedd ddiwethaf (yn cynnwys y flwyddyn gyfredol)
36	Pro fforma Archwiliad Ansawdd Mewnol y Ddogfen Hunanwerthuso
37	Cylch Ailddilysu am y 3 blynedd ddiwethaf (yn cynnwys y flwyddyn gyfredol)
38	Rhestr o gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio
39	Cod Ymarfer ar gyfer Arholwyr Allanol
40	Rhestr gyfredol o'r arholwyr allanol
41	Rhaglen y diwrnod cynefino i arholwyr allanol
42	Ffurflen adrodd arholwyr allanol ar gyfer rhaglenni hyfforddedig
43	Crynodeb o adroddiadau arholwyr allanol a gyflwynwyd i'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu am y tair blynedd ddiwethaf
44	Enghraifft o'r trywydd archwilio yn sgil sylwadau arholwyr allanol
45	Gwe-ffurflen ddiwygiedig i arholwyr allanol
46	Ffurflen adrodd arholwyr allanol ar gyfer graddau ymchwil
47	Niferoedd myfyrwyr yr Ysgol Dysgu Gydol Oes
48	Adroddiad Dilysu MSc Coedwigaeth
49	Adroddiad Dilysu MBA Bancwr Siartredig (Canolfan Llundain)
50	Dangosyddion Perfformiad Sicrhau Ansawdd
51	Cod Ymarfer y Brifysgol ar gyfer Dysgu ar Leoliad

52	Adroddiadau gan gyrrff gofal iechyd proffesiynol a gyflwynwyd i'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu yn y tair blynedd ddiwethaf.
53	Adroddiad archwiliad thematig ar ddarpariaeth freiniol gydweithredol yn 2008/2009
54	Cofnodion y Pwyllgor Gweithredu, terfynu cyrsiau breiniol Diwinyddiaeth
55	Cofrestr Darpariaeth Gydweithredol
56	Templed i Gytundebau Cydweithio
57	Adroddiad Dilysu PhD ar y cyd ADNODD a CATIE
58	Adroddiad dilysu PhD ar y cyd gyda Phrifysgol Bologna
59	Ffurflen fonitro flynyddol i raglenni breiniol
60	Adroddiad dilysu 23 o raddau yng Ngholeg Llandrillo
61	Templed i gytundebau ERASMUS
62	Strategaeth ôl-radd hyfforddedig y Brifysgol

ADRAN 4: GRADDAU YMCHWIL ÔL-RADEDEDIG

Cyf	Teitl
63	Rheoliadau Graddau Ymchwil Ôl-raddedig
64	Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Safonau Academaidd Rhaglenni Ymchwil
65	Llawlyfr Myfyrwyr a Goruchwylwyr Ymchwil
66	Cofnodion Pwyllgor Ôl-radd y Senedd a adolygodd adroddiadau pwyllgorau goruchwyllo am y ddwy flynedd ddiwethaf
67	Cylch Gorchwyl y Grŵp Tasg Strategaeth Ymchwil
68	Cylch Gorchwyl Grŵp Tasg y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil
69	Cynllun Arweinwyr Ôl-radd
70	Rhestr o hyfforddiant yr Uned Datblygu Academaidd i oruchwylwyr PhD newydd
71	Rhestr o Gyfarwyddwyr Astudiaethau Ôl-raddedig
72	Copi o'r ffurflen a ddefnyddir gan bwyllgorau goruchwyllo PhD
73	Cofnod o drafodaeth Pwyllgor Ôl-radd y Senedd ar PRES
74	Trefn apelio ar gyfer astudiaeth ôl-radd

ADRAN 5: PROFAD MYFYRWYR A'R AMGYLCHEDD DYSGU

Cyf	Teitl
75	Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr

76	Cylch Gorchwyl a Chofnodion y Fforwm Myfyrwyr
77	Cofnodion y Senedd, Hydref 2011
78	Arweiniad a roddwyd i ysgolion ar y system gynrychiolwyr cwrs
79	Rhestr o'r grwpiau tasg sydd â chynrychiolwyr myfyrwyr yn aelodau
80	Dadansoddiad o ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr a gyflwynwyd i'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu a'r Pwyllgor Gweithredu am y ddwy flynedd ddiwethaf
81	Cofnodion y Gweithgor Cynefino a Chofrestru
82	Rhaglen y digwyddiad cynefino i fyfyrwyr dibreswyl
83	Crynodeb o arolwg myfyrwyr ar yr Wythnos Groeso am y ddwy flynedd ddiwethaf Arolwg 2009/2010
84	Crynodeb o arolwg myfyrwyr ar Arweinwyr Cyfoed am y ddwy flynedd ddiwethaf
85	Cod Ymarfer ar Ofal Bugeiliol
86	Gwobr Cyflogadwyedd Bangor
87	Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Caledi
88	Cod Prifysgol Bangor ar gyfer Llety Myfyrwyr a Rennir yn y Sector Rhentu Preifat
89	Uned Dyslecsia Miles, Bangor
90	Cyhoeddiad Myfyrwyr â Dyslecsia ym Mangor
91	Strategaeth Chwaraeon
92	Cerddoriaeth ym Mangor
93	Rhaglen ddiwylliannol Cerrig y Rhyd
94	Cylch Gorchwyl a Chofnodion Grŵp Tasg y Llyfrgell Cylch Gorchwyl a Chofnodion y Grŵp Tasg TG
95	Trefn Gwynion ac Apelio Myfyrwyr

ADRAN 6: STAFF ACADEMAIDD: ANSAWDD, EFFEITHIOLRWYDD A DATBLYGU

Cyf	Teitl
96	Cofnodion y Fforwm Staff
97	Cofnodion Fforwm Undebau'r Campws
98	Crynodeb o adolygiad y meini prawf i ddyrchafu i statws Darllenydd neu Gadair Bersonol
99	Cod Ymarfer ar Benodi Staff yn Unol â'r Cynllun Iaith
100	Trefn ddyrchafu o statws Darlithydd Graddfa 7 i statws Darlithydd Graddfa 8
101	Polisi a Gweithdrefnau ar gyfer Dyrchafiadau ac Ailraddio
102	Trefn ddyrchafu i statws Uwch Ddarlithydd

103	Ffurflenni Enwebu'r Cynllun Cymrodoriaeth Ddysgu
104	Cynllun Gwobr am Ragoriaeth a ffurflenni enwebu
105	Adolygiad Datblygu Perfformiad
106	Cynllun Mentora Prifysgolion i Ferched
107	Cyfleoedd Datblygu a Hyfforddiant yn yr Iaith Gymraeg.
108	Rhaglen Map a Chwmpawd
109	Cymhwyster Addysgu mewn Addysg Uwch
110	Gweithdai Datblygiad Proffesiynol
111	Datblygu Ymchwilwyr
112	Dogfennau a Ffurflenni Arsylwi Cydweithwyr
113	Rhaglen Arweinyddiaeth
114	Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol
115	Fframwaith Cefnogi Teuluoedd
116	Gwasanaeth Cwnsela staff
117	Fframweithiau Cwyno Staff
118	Iechyd a Lles
119	Strategaeth Ddatblygu Sefydliadol